# Gweithdrefnau ar gyfer delio ag ymchwiliadau a sancsiynau yng nghyswllt safonau cynnwys a thrwyddedu

## Diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer teledu, radio a gwasanaethau fideo ar-alwad

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mawrth 2017

# Gair am y ddogfen hon

Mae Ofcom yn paratoi i reoleiddio’r BBC o 3 Ebrill 2017 ymlaen. Wrth i ni baratoi ein gweithdrefnau BBC (edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf), rydyn ni hefyd wedi adolygu ein gweithdrefnau presennol ar gyfer ystyried ac ymchwilio i achosion o dorri’r Cod Darlledu (“y Cod”), trwyddedau darlledu Ofcom a rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Mae’r rhain yn berthnasol i bob darlledwr a darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad arall mae Ofcom yn eu rheoleiddio.

Ar ôl ein hymgynghoriad, mae’r ddogfen hon yn rhoi ein hymatebion i sylwadau rhanddeiliaid a’r gweithdrefnau bydd Ofcom fel rheol yn eu dilyn wrth:

- ystyried ac ymchwilio i faterion sy’n ymwneud â safonau cynnwys o dan y Cod;
- ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion am Degwch a Phreifatrwydd o dan y Cod;
- ystyried ac ymchwilio i faterion o dan drwyddedau darlledu Ofcom;
- ystyried rhoi sancsiynau am dorri trwyddedau darlledu;
- ystyried ac ymchwilio i faterion o dan y rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad; ac
- ystyried rhoi sancsiynau sy’n codi yng nghyd-destun gwasanaethau rhaglenni ar-alwad.

Bydd y gweithdrefnau newydd hyn yn dod i rym ochr yn ochr â’n gweithdrefnau BBC, pan fydd Ofcom yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio’r BBC ar 3 Ebrill 2017.

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | Ymatebion i'r ymgynghoriad a'n penderfyniadau | 7 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio | 22 |
| 2 | Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd | 31 |
| 3 | Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu | 41 |
| 4 | Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu | 52 |
| 5 | Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri’r rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad | 60 |
| 6 | Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol sy’n codi yng nghyd-destun gwasanaethau rhaglenni ar-alwad | 71 |

Adran 1

# Cyflwyniad

1.1 Mae Ofcom yn paratoi i reoleiddio’r BBC o 3 Ebrill 2017 ymlaen. Wrth i ni baratoi ein gweithdrefnau BBC (edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf), rydyn ni hefyd wedi adolygu ein gweithdrefnau presennol ar gyfer ystyried ac ymchwilio i achosion o dorri’r Cod Darlledu (“y Cod”), trwyddedau darlledu Ofcom a rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Mae’r rhain yn berthnasol i bob darlledwr a darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad arall mae Ofcom yn eu rheoleiddio (gan gynnwys cwmnïau masnachol y BBC y mae Ofcom yn eu trwyddedu).

1.2 Mae’r datganiad hwn yn rhoi ymatebion rhanddeiliaid i’n hymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom ar y gweithdrefnau y bydd Ofcom fel rheol yn eu dilyn wrth ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio; ymchwilio i gwynion ynghylch tegwch a phreifatrwydd; ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu; ystyried sancsiynau statudol am dorri trwyddedau darlledu; ymchwilio i achosion o dorri amodau mewn gwasanaethau rhaglenni ar-alwad; ac ystyried sancsiynau statudol yng nghyd-destun gwasanaethau rhaglenni ar-alwad (y “Gweithdrefnau”).

1.3 Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i’r gweithdrefnau presennol gyda’r bwriad i:

- gwneud mân newidiadau o ran arddull i sicrhau bod y Gweithdrefnau hyn yr un fath â Gweithdrefnau’r BBC (cymaint ag y bo modd, gan ganiatáu ar gyfer y ffaith bod Gweithdrefnau'r BBC yn cynnwys cam ‘BBC yn gyntaf);
- sicrhau bod ein holl brosesau yn deg, yn effeithlon ac yn amserol;
- sicrhau tryloywder ac eglurder o ran sut caiff ein prosesau eu cynnal.

1.4 Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau tegwch a phenderfyniadau o ansawdd uchel i’r rheini sy’n ymwneud â sut rydyn ni’n delio â chwynion ac ymchwiliadau. Mae’r Gweithdrefnau, sydd yn Atodiadau 1 i 6 y datganiad hwn, fel a ganlyn:

- Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio (“Gweithdrefnau Safonau”);
- Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion tegwch a phreifatrwydd (“Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd");
- Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu (“Gweithdrefnau Cyffredinol”);
- Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu (“Gweithdrefnau Sancsiynau”);
- Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri’r rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad (“Gweithdrefnau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad”);

- Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol sy'n codi yng nghyd-destun gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ("Gweithdrefnau Sancsiynau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad").

## Y cefndir a'r amcanion statudol

1.5 Mae dyletswyddau darlledu Ofcom yn cynnwys sicrhau ym mhob gwasanaeth teledu a radio bod safonau ar waith sy'n darparu digon o amddiffyniad:

- i aelodau'r cyhoedd rhag deunyddiau sy'n achosi tramgwydd neu niwed: adran 3(2)(e) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003"); ac
- i aelodau'r cyhoedd a phob unigolyn arall rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a fydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath a rhag tarfu ar breifatrwydd yn ddiangen sy'n deillio o weithgareddau a wneir at ddibenion gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003.

1.6 Wrth wneud yn siŵr bod y safonau hyn yn cael eu dilyn, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i'w sicrhau yn y ffordd sy'n rhoi'r sicrwydd gorau y ceir lefel briodol o ryddid mynegiant.

1.7 Yn fwy penodol, mae gan Ofcom ddyletswydd dan adran 319 o Ddeddf 2003 i osod safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni teledu a radio sy'n ymddangos i Ofcom fel y rhai gorau i sicrhau "amcanion safonau" penodol, sydd wedi cael eu nodi yn adran 319(2). Rhaid i Ofcom lunio codau sy'n cynnwys y safonau hyn. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae Ofcom yn defnyddio darpariaethau'r Cod. Mae Adran 325 o Ddeddf 2003 yn mynnu ei bod rhaid i Ofcom lunio gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion sy'n ymwneud â dilyn safonau dan adran 319.

1.8 Yn yr un modd, mae gan Ofcom ddyletswydd benodol dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") i lunio cod sy'n rhoi cyfarwyddyd ynghylch yr egwyddorion a'r arferion sydd i'w dilyn gan ddarlledwyr yng nghyswllt osgoi triniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu mewn cysylltiad â chael deunyddiau sydd yn y rhaglenni). Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, bydd Ofcom yn defnyddio Adrannau Saith (Tegwch) ac Wyth (Preifatrwydd) y Cod. Mae Adran 110 o Ddeddf 1996 yn mynnu bod Ofcom yn ystyried ac yn dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â thriniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni, neu darfu'n ddiangen ar breifatrwydd, yn amodol ar ac yn unol â darpariaethau penodol sydd yn Rhan V o'r Ddeddf honno.

1.9 Mae dyletswyddau Ofcom hefyd yn cynnwys sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio o ansawdd uchel ac sy'n eang eu hapêl ar gael. Mae gan Ofcom ddyletswyddau penodol eraill sy'n ymwneud â chynnwys darlledu, er enghraifft:[1]

- y gofyniad ei bod yn rhaid i rai mathau o orsafoedd radio ddarparu mathau penodol o gerddoriaeth neu gynnwys llafar (adrannau 106 o Ddeddf Darlledu 1990 ("Deddf 1990") a 314 o Ddeddf 2003);

[1] Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.

- y gofynion sy'n ymwneud â rhaglenni annibynnol, gwreiddiol a rhanbarthol ar wasanaethau teledu gwasanaeth cyhoeddus (Pennod 4 o Ran 3 o Ddeddf 2003);

- y gofynion mewn trwyddedau teledu sy'n ymwneud â chynyrchiadau Ewropeaidd a chynyrchiadau annibynnol Ewropeaidd (adran 335 o Ddeddf 2003); a

- darparu gwasanaethau is-deitlo, arwyddo a disgrifiadau sain ar wasanaethau teledu perthnasol (adrannau 303 i 307 o Ddeddf 2003).

1.10 Mae Ofcom yn cyflawni ei ddyletswyddau drwy ddyfarnu trwyddedau i ddarlledwyr radio a theledu penodol a drwy gynnwys yn y trwyddedau hynny amodau y mae'n meddwl sy'n briodol i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau.[2] Mae'r amodau hyn yn cynnwys gofynion i ddarlledwyr gynnig rhaglenni penodol a mathau penodol o gynnwys, darparu gwybodaeth i Ofcom er mwyn i ni allu cyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio[3] a thalu ffioedd er mwyn cydymffurfio â chodau amrywiol a gyhoeddir gan Ofcom.

## Trosolwg o gynigion yr ymgynghoriad

1.11 Roeddem yn cynnig diweddaru ein gweithdrefnau presennol, gyda'r prif newidiadau'n disgyn i dri maes cyffredinol:

- Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â chwynion ynghylch safonau cynnwys a thegwch a phreifatrwydd o dan y Cod ac ymchwilio i faterion o dan y rheolau gwasanaethau rhaglenni ar-alwad;

- Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion "cyffredinol" eraill o dorri amodau trwyddedau darlledu; a

- Gweithdrefnau sancsiynau ar gyfer trwyddedau darlledu a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad.

**Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â chwynion ynghylch safonau cynnwys a thegwch a phreifatrwydd o dan y Cod ac ymchwilio i faterion o dan y rheolau gwasanaethau rhaglenni ar-alwad**

1.12 Roeddem yn cynnig diwygio a diweddaru ein gweithdrefnau ar gyfer 'ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio'; 'ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion am degwch a phreifatrwydd'; ac 'ymchwilio i achosion o dorri'r rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad'. Roedd ein prif newidiadau arfaethedig yn cynnwys, yn benodol:

- Egluro bod gan aelodau'r Bwrdd Cynnwys rôl gynghorol, yn unol ag arbenigedd a swyddogaethau statudol y Bwrdd Cynnwys, ac y byddai

---

[2] Gweler adrannau 3 a 4 o Ddeddf 1990 ac adrannau 3 a 4 o Ddeddf 1996 (ar gyfer gwasanaethau teledu) ac adrannau 85 i 87 o Ddeddf 1990 ac adrannau 42 a 43 o Ddeddf 1996 (ar gyfer gwasanaethau radio).
[3] Er enghraifft, gwybodaeth am newidiadau yn y darlledwyr hynny sy'n rheoli, adroddiadau blynyddol gan orsafoedd radio cymunedol a data trosiant blynyddol perthnasol gan sefydliadau penodol sy'n dal trwyddedau teledu a radio.

aelodau gwahanol o’r Bwrdd Cynnwys yn cynghori ar y cam Safbwynt Rhagarweiniol ac ar y cam penderfyniad terfynol yn ein hymchwiliadau;

- Egluro, mewn unrhyw un ymchwiliad, y byddai aelodau gwahanol o Bwyllgor Gwaith Ofcom yn penderfynu ar y cam Safbwynt Rhagarweiniol ac ar y cam penderfyniad terfynol, yn unol â’r broses sy’n berthnasol mewn ymchwiliadau Deddf Cystadleuaeth a’r broses roeddem yn ei chynnig ar gyfer achosion gorfodaeth eraill[4];

- Darparu y caiff y darlledwr wneud cais am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar ar ôl y Safbwynt Rhagarweiniol. Roedd hyn yn adlewyrchu ein harfer ar hyn o bryd, sef petai darlledwr yn gofyn am wrandawiad llafar byddem yn ystyried yn gydwybodol a ddylid caniatáu hyn wrth ystyried natur y tor-amod dan sylw a chymhlethdod y materion a godir;

- Newid sut byddem yn rhoi gwybod i ddarlledwyr am ein penderfyniad terfynol cyn cyhoeddi. Roeddem yn cynnig rhoi penderfyniad terfynol i’r darlledwyr un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi, er gwybodaeth yn unig. Byddai hyn yn gwneud y gweithdrefnau hyn yn gyson â gweithdrefnau gorfodaeth eraill Ofcom. Roeddem o’r farn bod un diwrnod gwaith yn ddigon o rybudd i ddarlledwyr ac yn briodol ac ystyried y pwysigrwydd bod prosesau Ofcom yn effeithlon ac yn dryloyw.

**Gweithdrefnau cyffredinol**

1.13 Roeddem yn cynnig diwygio a diweddaru ein gweithdrefnau ar gyfer ‘ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu’[5]. Roedd ein prif newidiadau arfaethedig yn cynnwys, yn benodol:

- Egluro, mewn unrhyw un ymchwiliad, byddai aelodau gwahanol o Bwyllgor Gwaith Ofcom yn penderfynu ar y cam Safbwynt Rhagarweiniol ac ar y cam penderfyniad terfynol, yn unol â’r broses sy’n berthnasol mewn ymchwiliadau Deddf Cystadleuaeth a’r broses roeddem yn ei chynnig ar gyfer achosion gorfodaeth eraill (fel y nodir uchod);

- Egluro y gall fod gan aelodau’r Bwrdd Cynnwys rôl gynghorol mewn rhai achosion pan fydd Ofcom yn credu y byddai’n briodol er mwyn llunio ei Safbwynt Rhagarweiniol a’i benderfyniad terfynol, yn unol ag arbenigedd a swyddogaethau statudol y Bwrdd Cynnwys. Roeddem wedi egluro, mewn achosion o'r fath, y byddai aelodau gwahanol o’r Bwrdd Cynnwys yn cynghori ar y cam Safbwynt Rhagarweiniol ac ar y cam penderfyniad terfynol;

- Darparu i’r darlledwr gael cyfle i gyflwyno sylwadau llafar ar ôl y Safbwynt Rhagarweiniol mewn rhai achosion pan roedd Ofcom yn credu bod hynny’n briodol oherwydd natur y tor-amod sy’n cael ei ystyried a chymhlethdod y materion sy’n codi. Roeddem hefyd yn cynnig egluro y caiff y darlledwr wneud

[4] Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/ofcoms-approach-to-enforcement

[5] Ac eithrio ar gyfer (i) y rheini a ddaw o dan y gweithdrefnau sydd wedi’u hamlinellu ym mharagraff 1.12, uchod, a (ii) y rheini sy’n ymwneud ag achosion posibl o dorri amodau sy’n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau darlledu – er enghraifft, amodau a osodir o dan adran 316 o Ddeddf 2003. Daw’r rhain dan set arall o weithdrefnau: edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/ofcoms-approach-to-enforcement

cais am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar ar ôl y cam Safbwynt Rhagarweiniol. Roedd hyn yn adlewyrchu ein harfer ar hyn o bryd, sef y byddem yn ystyried a ddylid caniatáu gwrandawiad llafar wrth ystyried natur y tor-amod dan sylw a chymhlethdod y materion a godir;

- Newid sut byddem yn rhoi gwybod i ddarlledwyr am ein penderfyniad terfynol cyn cyhoeddi. Roeddem yn cynnig rhoi penderfyniad terfynol i'r darlledwyr un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi, er gwybodaeth yn unig. Byddai hyn yn gwneud y gweithdrefnau hyn yn gyson â gweithdrefnau gorfodaeth eraill Ofcom. Roeddem o'r farn bod un diwrnod gwaith yn ddigon o rybudd i ddarlledwyr ac yn briodol ac ystyried y pwysigrwydd bod prosesau Ofcom yn effeithlon ac yn dryloyw;

- Egluro, yn y rhan fwyaf o achosion, byddem fel rheol yn cyhoeddi manylion am benderfyniad Ofcom i ymchwilio neu i beidio â mynd ar drywydd mater ar ôl ein hasesiad cychwynnol o'r mater ac unrhyw gŵyn. Serch hynny efallai y bydd rhai achosion pan fyddai Ofcom o'r farn y byddai'n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater ar y cam hwn – er enghraifft, oherwydd bod y materion yn arbennig o sensitif a/neu gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon (er efallai bydd achosion eithriadol pan fyddem yn cyhoeddi mewn amgylchiadau o'r fath, er enghraifft pan roedd lefel uchel o ddiddordeb gan y cyhoedd). Roeddem ni wedi egluro, mewn achosion o'r fath, y caiff Ofcom ohirio cyhoeddi'r ymchwiliad nes i Ofcom ei gwblhau. Roeddem hefyd yn cynnig egluro y byddem fel rheol yn cyhoeddi pob penderfyniad am dorri amodau a phenderfyniadau sydd wedi'u datrys, ac na fyddem fel rheol yn cyhoeddi penderfyniad "heb dorri amod" ar ddiwedd ymchwiliad lle nad oeddem wedi cyhoeddi manylion y materion sy'n destun ymchwiliad yn flaenorol. Roedd hyn yn adlewyrchu ein harfer arferol, a byddai'n rhoi mwy o dryloywder am ein dull gweithredu wrth roi cyhoeddusrwydd i'n hymchwiliadau.

**Gweithdrefnau sancsiynau**

1.14 Roeddem yn cynnig diwygio a diweddaru ein gweithdrefnau ar gyfer 'ystyried sancsiynau statudol am dorri amodau trwyddedau darlledu'; ac 'ystyried sancsiynau statudol sy'n codi yng nghyd-destun gwasanaethau rhaglenni ar-alwad'. Roedd ein prif newidiadau arfaethedig yn cynnwys, yn benodol:

- Egluro faint a phwy fydd yn gwneud penderfyniadau gan ddibynnu ar natur y tor-amod sy'n cael ei ystyried ar gyfer sancsiwn. Yn ein barn ni, nid oedd angen mwy nag un i benderfynu ar achosion er mwyn bod yn deg nac am unrhyw reswm arall. Serch hynny, mewn achosion sy'n ymwneud â thorri safonau cynnwys, byddai penderfyniadau ynghylch sancsiynau yn cael eu gwneud gan ddau o uwch swyddogion Ofcom ac aelod anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom. Mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â safonau cynnwys, roeddem yn cynnig y dylid cael un neu ddau i wneud y penderfyniad (gan ddibynnu ar natur y tor-amod) a oedd yn uwch swyddogion yn Ofcom, ac yn eithriadol y gallai aelod anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom ymuno â nhw;

- Darparu y bydd Ofcom bob tro'n cynnig cyfle i'r darlledwr wneud sylwadau llafar ar ôl y Safbwynt Rhagarweiniol. Roedd hyn yn adlewyrchu ein harfer arferol;

- Newid sut byddem yn rhoi gwybod i ddarlledwyr am y penderfyniad terfynol ynghylch sancsiwn cyn cyhoeddi. Pan roedd sancsiwn yn cynnwys cosb

ariannol, byddai lefel y gosb yn cael ei chynnwys yn y penderfyniad a anfonir at y darlledwr un diwrnod gwaith cyn cyhoeddi.

## Y camau nesaf

1.15 Y datganiad hwn ydy casgliad ymgynghoriad Ofcom ynghylch y Gweithdrefnau. Mae Adran 2 y ddogfen hon yn crynhoi safbwyntiau rhanddeiliaid ar y Gweithdrefnau arfaethedig, ac ymateb Ofcom iddynt a'r penderfyniadau terfynol.

1.16 Daw'r Gweithdrefnau i rym pan fydd Ofcom yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r BBC ar y Dyddiad Dod i Rym sy'n cael ei nodi yn y Siarter, sef 3 Ebrill 2017.

## Adran 2

# Ymatebion i'r ymgynghoriad a'n penderfyniadau

2.1 Cafodd Ofcom saith ymateb i'r ymgynghoriad ar y gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys ac ymchwiliadau a sancsiynau trwyddedu. Daeth y rhain gan: A+E Networks ("A+E"); BT; Channel 4; ITV a STV ("ITV/STV"); Radiocentre, Sky; ac UK Lawyers for Israel ("UKLFI").

2.2 Ceir crynodeb isod o'r materion a godwyd gan randdeiliaid ac ymateb Ofcom iddynt a'r penderfyniadau terfynol.

2.3 Mae'r ymatebion cyhoeddedig llawn ar gael ar wefan Ofcom[6]. Mae'r gweithdrefnau terfynol ar gael yn Atodiadau 1 i 6.

## Ymatebion rhanddeiliaid i'r cynigion a phenderfyniadau terfynol Ofcom

### 'Darlledwr yn Gyntaf'

2.4 Y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol rhwng gweithdrefnau presennol Ofcom sy'n berthnasol i ddarlledwyr eraill a'r gweithdrefnau a gynigwyd gan Ofcom ar gyfer y BBC[7] yw'r dull 'BBC yn Gyntaf' ar gyfer cwynion am safonau cynnwys. Mae Cytundeb y BBC yn mynnu y dylai'r BBC ddatrys y gŵyn yn y lle cyntaf fel rheol, ac eithrio yn achos cwynion ynghylch Tegwch a Phreifatrwydd[8]. Os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon ag ymateb terfynol y BBC, neu os yw'n credu y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn, neu os yw'r BBC wedi methu ymateb o fewn yr amserlen a nodir yn ei weithdrefnau ei hun, bydd y sawl sy'n cwyno'n gallu cyfeirio'r gŵyn at Ofcom[9].

<u>Safbwyntiau'r rhanddeiliaid</u>

2.5 Roedd A+E, BT ac ITV/STV yn meddwl y dylai Ofcom gyflwyno dull gweithredu 'Darlledwr yn Gyntaf' ar gyfer darlledwyr eraill. Roedd A+E ac ITV/STV hefyd yn credu y dylid mabwysiadu dull 'gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn gyntaf', ac eithrio pan allai'r risg o unrhyw niwed fod yn barhaus. Roedd ITV/STV o'r farn bod y gweithdrefnau presennol yn "rhoi'r argraff" eu bod yn annog y rheini sy'n cwyno i sôn am y gŵyn wrth y darlledwr yn gyntaf, ond awgrymodd fod y "drefn newydd" o reoleiddio'r BBC yn gyfle i droi at "ddull teg". Awgrymodd BT ac A+E y gellid ymestyn y model 'BBC yn gyntaf' i gynnwys darlledwyr eraill sy'n gallu dangos bod ganddynt systemau effeithiol ar waith ar gyfer delio â chwynion a chydymffurfio. Awgrymodd A+E y gallai fframwaith o'r fath leihau nifer y cwynion y mae'n rhaid i Ofcom ymchwilio iddynt.

<u>Ymateb Ofcom</u>

---

[6] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/review-procedures-handling-content-standards-and-broadcast-licensing
[7] Mewn ymgynghoriad cyfochrog, edrychwch ar baragraff 1.1.
[8] Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd.
[9] Yn unol â Chymal 57(1) y Cytundeb.

2.6 Mae gweithdrefnau Ofcom ar gyfer darlledwyr ar wahân i'r BBC yn dweud yn glir, "er mwyn datrys materion yn brydlon, mae Ofcom o'r farn y dylai'r rheini sy'n cwyno ddilyn gweithdrefn cwyno'r darlledwr ei hun cyn cwyno wrth Ofcom".[10] Fodd bynnag, mae Ofcom hefyd yn derbyn cwynion a gyflwynir yn uniongyrchol i ni. Mae Cytundeb newydd y BBC yn mynnu bod y dull 'BBC yn gyntaf' yn cael ei ddefnyddio, ac mae'n rhaid i'r BBC ymgynghori ar ei weithdrefnau ar gyfer delio â chwynion sy'n gorfod bodloni meini prawf penodol.[11] Mae Ofcom yn cydnabod y gallai darlledwyr eraill fodloni set debyg o feini prawf. Fodd bynnag, mae fframwaith rheoleiddio a graddfa'r BBC yn wahanol. Bydd Ofcom yn rhoi'r dull 'BBC yn gyntaf' ar waith ar gyfer y BBC yn unig ym mis Ebrill 2017. Byddwn yn adolygu'r safbwynt hwn dros amser.

2.7 Mae gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i dorri'r rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad eisoes yn datgan "na fydd Ofcom fel rheol yn ystyried cwyn oni bai fod y sawl sy'n cwyno wedi ceisio dilyn gweithdrefn gwyno darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ei hun yn y lle cyntaf", ac eithrio "pan fydd risg o niwed parhaus oherwydd y cynnwys dan sylw".

## Gwyro oddi wrth weithdrefnau Ofcom

2.8 Mae pob cyfres o Weithdrefnau arfaethedig sy'n ymwneud ag ystyried ac ymchwilio i gwynion yn egluro efallai y bydd Ofcom yn credu ei bod hi'n angenrheidiol gwyro oddi wrth y gweithdrefnau a gyhoeddwyd mewn ffordd berthnasol yng nghyswllt achos penodol er mwyn bod yn deg a/neu er mwyn i Ofcom allu ystyried y gŵyn yn iawn neu gynnal ymchwiliad yn iawn. Rydyn ni wedi cadw ymrwymiad y byddwn, mewn achosion o'r fath, yn ysgrifennu at y darlledwr neu ddarparwr y gwasanaethau rhaglenni ar-alwad (a phartïon perthnasol eraill) ymlaen llaw yn nodi natur/hyd a lled gwyriad Ofcom a'n rhesymau dros hynny. Fodd bynnag, roeddem ni'n cynnig dileu'r datganiad y byddem yn gofyn am ymateb y partïon perthnasol.

<u>Safbwyntiau'r rhanddeiliaid</u>

2.9 Roedd Channel 4 yn credu, pan fydd Ofcom yn gwyro oddi wrth y gweithdrefnau roedd wedi'u cyhoeddi, y dylem nodi'r weithdrefn rydyn ni'n cynnig ei dilyn yn lle ynghyd â'r amserlen, gan y byddai'n afresymol i Ofcom gael "disgresiwn llwyr".

2.10 Roedd Sky o'r farn y dylai Ofcom barhau i "ofyn am ymateb y partïon perthnasol" wrth "osod natur/hyd a lled ei wyriad, a'r rhesymau dros wneud hynny", oherwydd gallai fod amgylchiadau lle gallai'r "partïon dan sylw fod â phryderon dilys ynghylch gwyriad arfaethedig Ofcom oddi wrth y gweithdrefnau roedd wedi'u cyhoeddi".

<u>Ymateb Ofcom</u>

2.11 Rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n bwysig i Ofcom fod yn dryloyw am y prosesau byddwn ni'n eu dilyn wrth gymryd camau gorfodi, a'n bod yn gweithredu'n gyson â'r prosesau rydyn ni wedi'u cyhoeddi, oni bai fod rhesymau da dros fabwysiadu dull gweithredu gwahanol. Pur anaml y bydd Ofcom yn gwyro oddi wrth y gweithdrefnau y mae wedi'u cyhoeddi. Fodd bynnag, mae hi'n hanfodol ein bod yn cadw hyblygrwydd yn ein gweithdrefnau er mwyn i ni allu cymryd camau gorfodi

[10] https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures
[11] Cymalau 56(3) a (4) y Cytundeb

teg ac effeithlon ym mhob achos. Pan fyddwn ni’n gwyro oddi wrth y dull gweithredu sydd wedi cael ei nodi yn y gweithdrefnau rydyn ni wedi’u cyhoeddi, mae hynny, fel sydd wedi’i nodi, am resymau tegwch a/neu er mwyn i Ofcom allu ystyried cwyn neu gynnal ymchwiliad yn iawn, a byddwn ni’n egluro i’r partïon perthnasol pam ein bod yn gwneud hynny, gan nodi natur/hyd a lled gwyriad Ofcom.

2.12 Byddai Ofcom bob amser yn ystyried cwynion sy’n cael eu codi gan bartïon perthnasol ynghylch y broses rydyn ni’n cynnig ei dilyn mewn amgylchiadau pan fyddwn yn gwyro oddi wrth y gweithdrefnau rydyn ni wedi’u cyhoeddi, ond nid ydym yn meddwl bod hyn yn golygu ei bod yn rhaid i Ofcom ofyn am safbwyntiau partïon fel mater o drefn ym mhob achos cyn penderfynu a fyddwn yn gwyro oddi wrth y gweithdrefnau rydyn ni wedi’u cyhoeddi.

## Penderfyniad i ymchwilio

2.13 Mae Gweithdrefnau Safonau, Cyffredinol a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad Ofcom yn darparu pan fydd cwyn yn cael ei gwneud yn unol â’r gweithdrefnau byddwn yn gyntaf yn ystyried a ydyw, ar yr wyneb, yn codi materion a allai fod yn sylweddol sy’n cyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom. Byddwn yn gwneud hynny drwy gyfeirio at ddifrifoldeb a/neu hyd a lled y mater dan sylw. Gallwn hefyd gynnal ymchwiliad ar ein liwt ein hunain.

<u>Safbwyntiau'r rhanddeiliaid</u>

2.14 Roedd UKLFI o’r farn y dylai Ofcom ystyried unrhyw gŵyn sy’n codi materion a allai fod yn sylweddol o dan y Cod ac sy’n cael eu cyflwyno cyn pen y terfyn amser. Dywedodd y dylai unrhyw asesiad o “ddifrifoldeb” mater ystyried a yw'r cynnwys yn ymwneud â mater y byddai ei ddarlledu yn gallu hyrwyddo hiliaeth, gan gynnwys gwrth-Semitiaeth, ac effaith gronnus diffyg cywirdeb a didueddrwydd mewn gwahanol raglenni am faterion tebyg.

2.15 Roedd Channel 4 yn credu, pan fyddwn ni’n lansio ymchwiliad ar ein liwt ein hunain “y dylid rhoi gwybod i’r darlledwr beth sydd wedi sbarduno ymchwiliad mae Ofcom yn ei gychwyn ar ei liwt ei hun”.

<u>Ymateb Ofcom</u>

2.16 Bydd Ofcom yn asesu’n ofalus bob cwyn sy'n dod i law yn erbyn y Cod. Bydd cwynion sydd, ym marn Ofcom, yn codi materion a allai fod yn sylweddol o dan y Cod ac sy'n cyfiawnhau ymchwiliad yn mynd ymlaen i gael eu hymchwilio. Nid yw’r enghreifftiau yn y gweithdrefnau o’r mathau o gynnwys a allai fod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad yn gyflawn. Mae Ofcom yn trin achosion posibl o dor-amod ar sail cymell, casineb ar lafar neu driniaeth ddifrïol neu ymosodol yn ddifrifol iawn. Gan ddibynnu ar ffeithiau pob achos, cynhelir ymchwiliad yn ddiymdroi pryd bynnag y byddwn yn teimlo bod mater sylweddol yn ymwneud â’r Cod wedi cael ei godi.

2.17 Pan fydd Ofcom yn lansio ymchwiliad, boed hynny o ganlyniad i gŵyn neu oherwydd ein gwaith monitro ein hunain, bydd y darlledwr neu’r darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad bob amser yn cael gwybod o dan ba reol(au) rydyn ni’n ei hystyried ac yn rhoi manylion pellach ynghylch y mater(ion) penodol, yn ôl y galw.

## Defnyddio rheolau priodol

2.18 Mae ein Gweithdrefnau gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn datgan “os bydd y gŵyn yn ymwneud â gwasanaeth rhaglenni ar-alwad “dal i fyny” ac mae’r deunydd wedi cael ei ddangos yn ddiweddar ar wasanaeth teledu, efallai ei bod hi’n fwy priodol i Ofcom ystyried y gŵyn o dan weithdrefnau darlledu perthnasol oherwydd bod y rheolau sylweddol sy’n berthnasol i wasanaethau darlledu teledu yn fwy helaeth”.

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

2.19 Roedd ITV/STV yn meddwl y byddai defnyddio’r Cod gydag allbwn darlledu yn sgil cwyn am wasanaeth rhaglenni ar-alwad neu “ddal i fyny” yn “gamdybiaeth lwyr”, oherwydd “bod cynnwys darlledu ac ar-alwad yn cael ei lywodraethu gan ddwy set hollol wahanol o reolau rheoleiddio...sy’n seiliedig mewn statud.” Roedd felly’n credu os daw cwyn o dan y Rheolau Gweinyddol neu’r Rheolau Cynnwys Golygyddol (sy’n berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alwad), ni ddylai Ofcom geisio defnyddio’r Cod.

Ymateb Ofcom

2.20 Mae Ofcom yn anghytuno. Rydyn ni’n ystyried y dylen ni asesu achosion posibl o dorri’r Cod rydyn ni wedi cael gwybod amdanynt – drwy ba ddull bynnag – er mwyn diogelu cynulleidfaoedd yn briodol.

## Darparu gwybodaeth gan Ofcom

2.21 Ac eithrio yn Ei Weithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd, roedd Ofcom yn cynnig oni bai fod y sawl sy’n cwyno yn gofyn iddo beidio â gwneud hynny, ei fod yn cael datgelu pwy ydy'r sawl sy’n cwyno i’r darlledwr neu ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ynghyd â fersiwn heb fod yn gyfrinachol o’r gŵyn. Fodd bynnag, byddai’n ystyried ceisiadau gan bobl sy’n cwyno sy’n dymuno aros yn ddienw. Roedden ni wedi egluro'r wybodaeth y byddem fel rheol yn ei darparu i ddarlledwr neu i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn ystod ein hasesiad cychwynnol a phan fyddwn ni’n ymchwilio.

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

2.22 Awgrymodd Channel 4 y dylai’r Gweithdrefnau Safonau a Safonau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad ddatgan y bydd Ofcom yn rhoi manylion y gŵyn a’r sawl sy’n cwyno i’r darlledwr adeg ein cais cychwynnol am “ddeunyddiau neu dystiolaeth”. Yn yr un modd roedd ITV/STV yn credu y dylid fel rheol datgelu pwy sy’n cwyno i’r darlledwr/darlledwyr perthnasol – ac eithrio yn achos chwythwyr chwiban – gan nad oedd yn gweld unrhyw resymwaith iddynt aros yn ddienw ac mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn annheg i’r darlledwr beidio â chael gwybod pwy ydyn nhw.

2.23 Awgrymodd Radiocentre y dylai’r darlledwr gael mwy o wybodaeth fanwl am gwynion “cyn gynted ag sy’n bosibl ar ôl asesiad cychwynnol Ofcom”, yn hytrach na chrynodeb o’r hyn roedd Ofcom yn ei gredu oedd yn “rhannau perthnasol o’r gŵyn.” Roedd yn credu y gallai hyn “osgoi codi materion ychwanegol yn nes ymlaen” a “lleihau’r risg o ddarlledwyr yn ailadrodd unrhyw gamgymeriadau drwy amryfusedd sy’n gwaethygu’r niwed i wrandawyr”.

Ymateb Ofcom

2.24 Mae'r darlledwr yn cael gwybod am y mater(ion) perthnasol sy'n achosi pryder pan fyddwn yn gofyn am unrhyw ddeunyddiau ganddo am y tro cyntaf. Ar ben hynny, ar ôl asesu achos, os bydd Ofcom yn penderfynu mynd ar drywydd ymchwiliad, byddwn ni'n nodi o dan pa reol(au) rydyn ni'n ystyried y tor-amod posibl. Mae Ofcom yn darparu manylion penodol cwyn unigol fel sy'n angenrheidiol.

2.25 Wrth roi Gweithdrefnau'r ar waith, bydd Ofcom yn ystyried y cwestiwn gwrthrychol a yw'r darlledwr neu unrhyw ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedi torri gofyniad sy'n ymwneud â safonau neu ofyniad arall. Mae Ofcom yn credu nad yw gweithdrefn deg ac effeithiol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn golygu bod angen datgelu i'r darlledwr neu i'r darparwr gwasanaeth pwy yw'r sawl sy'n cwyno. Oni bai fod y sawl sy'n cwyno'n gofyn yn benodol am gael aros yn ddienw wrth gwyno, caiff Ofcom ddatgelu ei fanylion i'r darlledwr neu i'r darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad (a bydd Ofcom yn rhoi gwybod i'r rheini sy'n cwyno na fydd yn gallu delio â chwyn os na fydd yn cael gwneud hynny). Fodd bynnag mae'n bosibl y bydd Ofcom yn cael sylwadau ynghylch aros yn ddienw mewn rhai amgylchiadau, a byddwn yn ystyried y rheini fesul achos.

## Sylwadau i Ofcom

<u>Safbwyntiau'r rhanddeiliaid</u>

2.26 Roedd ITV/STV yn credu ei bod hi'n afresymol i Ofcom lunio Safbwynt Rhagarweiniol ar dorri'r Cod heb ofyn am sylwadau'r darlledwr, oni bai fod y darlledwr eisoes wedi derbyn y tor-amod neu fod materion o ffeithiau nad oeddent yn destun anghydfod. Nid oedd yn credu bod digwyddiadau delweddau sy'n fflachio yn enghraifft o'r ail, oherwydd bod yr un deunydd rhaglen yn gallu creu canlyniadau gwahanol wrth ddefnyddio offer mesur digidol gwahanol. Nid oedd Channel 4 yn credu y dylai Ofcom fwrw ymlaen i gyhoeddi Safbwynt Rhagarweiniol heb roi cyfle i'r darlledwr gyflwyno sylwadau. Dywedodd, hyd yn oed pan roedd Ofcom yn credu bod achos o dorri'r Cod yn fater o ffeithiau gwrthrychol, gall y darlledwr anghytuno ac "mae cyfiawnder naturiol yn mynnu bod sylwadau'n cael eu caniatáu cyn llunio Safbwynt Rhagarweiniol".

2.27 Nododd A+E ein cynnig i ganiatáu i ddarlledwyr ofyn am y cyfle i gyflwyno sylwadau llafar ar ôl ystyried Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom, ac awgrymodd mewn achosion difrifol neu gymhleth y dylid cael rhagdybiaeth o blaid caniatáu gwrandawiad llafar o'r fath. Roedd BT, ITV/STV, Radiocentre a Sky yn croesawu'r cynnig, ond roedd BT yn credu y dylai'r meini prawf ar gyfer pryd y bydd Ofcom yn caniatáu sylwadau o'r fath fod yn dryloyw.

2.28 Roedd UKLFI o'r farn ei bod hi'n annheg i Ofcom roi dau neu dri chyfle i ddarlledwyr gyflwyno sylwadau "yn ogystal â sylwadau ychwanegol gan gyflwynwyr, cynhyrchwyr neu wneuthurwyr rhaglenni annibynnol, ond <u>dim</u> cyfle i'r sawl sy'n cwyno ymateb". Roedd yn credu y dylai'r sawl sy'n cwyno gael gweld a chyflwyno sylwadau am bwyntiau newydd a gaiff eu codi gan eraill yn eu sylwadau. Roedd hefyd yn meddwl ei bod hi'n annheg bod y Gweithdrefnau Sancsiynau yn darparu ar gyfer "rhagor o sylwadau ysgrifenedig ac o bosibl sylwadau llafar cyfrinachol gan y darlledwr ond nad oedd dim cyfle i'r sawl sy'n cwyno ateb y pwyntiau a oedd wedi cael eu gwneud neu ragor o ddeunyddiau a ddarperir..., na hyd yn oed eu gweld".

<u>Ymateb Ofcom</u>

2.29 Rydyn ni’n meddwl efallai y bydd adegau, pan fydd ffeithiau yr achos yn glir, neu pan fydd darlledwr neu’r darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedi cyfaddef i dorri amod, ac nad oes angen gofyn am sylwadau cyn llunio Safbwynt Rhagarweiniol. Bydd y darlledwr neu’r darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad bob amser yn cael cyfle i roi sylwadau am Safbwynt Rhagarweiniol cyn i Ofcom ddod i Benderfyniad Terfynol, ac rydyn ni o’r farn bod hynny’n ddigonol mewn achosion o’r fath i sicrhau proses deg. Fodd bynnag, rydyn ni’n nodi sylw ITV/STV ynghylch digwyddiadau delweddau sy’n fflachio. Yn ddiweddar mae Ofcom wedi dod yn ymwybodol bod offer gwahanol yn gallu arwain at ganiadau gwahanol mewn achosion delweddau sy’n fflachio ac felly byddwn ni’n tynnu’r rhain, fel enghraifft o ‘fater o ffeithiau gwrthrychol’, o’r Gweithdrefnau.

2.30 Mae Ofcom o’r farn ei bod hi’n briodol ystyried ceisiadau fesul achos gan ddarlledwyr neu ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad i gyflwyno sylwadau llafar mewn ymateb i Safbwynt Rhagarweiniol. Nid ydym yn bwriadu pennu meini prawf penodol. Mae hyn yn adlewyrchu ein harfer ar hyn o bryd, sef os bydd darlledwr yn gofyn am wrandawiad llafar byddwn yn ystyried yn gydwybodol a ddylid caniatáu hyn wrth ystyried natur y tor-amod dan sylw a chymhlethdod y materion a godir.

2.31 Mae Ofcom yn nodi safbwynt UKLFI. Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darlledwyr a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn peidio â chydymffurfio â gofyniad mewn achos penodol. Mae Ofcom yn asesu, ac yn ymchwilio lle bo angen, i gŵyn am safonau neu wasanaeth rhaglenni ar-alwad ar sail y materion a godwyd. Rydym yn cydnabod pob cwyn sy’n dod i law, ond nid ydym fel rheol yn cysylltu ymhellach ag unigolion sydd wedi cwyno. Mae gan y rheini sy'n cwyno gyfle i roi sylwadau pan maent yn gwneud cwyn. Rydyn ni o'r farn bod hyn yn briodol yn yr amgylchiadau hyn, ac nad yw’n golygu bod y rheini sy'n cwyno yn cael eu trin yn annheg.[12] Mewn ymchwiliad safonau neu wasanaeth rhaglenni ar-alwad, rydyn ni’n canolbwyntio ar asesu a ydy’r darlledwr wedi torri’r Cod neu ydy’r darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedi torri’r Rheolau. Nid ydym ni’n canolbwyntio ar ddyfarnu ynghylch rhinweddau cwyn unigol. Felly unwaith y byddwn wedi penderfynu ymchwilio, byddwn yn rhoi cyfle i’r darlledwr neu’r darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad (ac unrhyw drydydd parti perthnasol y gallai canlyniad yr ymchwiliad effeithio arno) wneud sylwadau i ni, ond ni fydd y rhai sy'n cwyno yn cael y cyfle hwn fel arfer.

2.32 Mae gennym weithdrefn wahanol ar gyfer delio â chwynion am faterion yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd ac, fel yr eglurwyd yn y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd a nodir yn Atodiad 2, mae’r rheini sy'n cwyno hefyd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom cyn i Ofcom gyflwyno ei ddyfarniad terfynol. Y rheswm am hyn yw am fod sefyllfa’r sawl sy'n cwyno mewn cwyn yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd yn wahanol i sefyllfa’r sawl sy’n cwyno mewn achos yn ymwneud â safonau neu wasanaeth rhaglenni ar-alwad. Er mwyn i Ofcom ystyried cwyn sy'n ymwneud â thegwch neu breifatrwydd, mae'n rhaid i’r sawl sy'n cwyno allu dangos ei fod yn “sawl yr effeithir

[12] Rydyn ni’n nodi y cafodd y mater hwn ei ystyried yn yr achos *Traveller Movement v Ofcom* [2015] EWHC 406 (Gweinyddol) ac i’r Llys gytuno ei bod hi’n briodol i Ofcom beidio â chynnwys y sawl a oedd yn cwyno ymhellach mewn ymchwiliad safonau.

arno"[13] ac y bydd ganddo, o'r herwydd, fudd uniongyrchol yng nghanlyniad y gŵyn.

## Penderfyniadau a rôl Bwrdd Cynnwys Ofcom ac Uwch Swyddogion

2.33 Roeddem yn cynnig egluro bod gan aelodau'r Bwrdd Cynnwys rôl gynghorol, yn unol ag arbenigedd a swyddogaethau statudol y Bwrdd Cynnwys, ac y bydd aelodau gwahanol o'r Bwrdd Cynnwys yn cynghori ar y cam Safbwynt Rhagarweiniol ac ar y cam penderfyniad terfynol. Roeddem hefyd yn cynnig egluro y bydd Uwch Swyddogion gwahanol Ofcom ar y cam Safbwynt Rhagarweiniol ac ar y cam penderfyniad terfynol, ac na fydd y sawl a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad na'r gwaith paratoi ar gyfer y Safbwynt Rhagarweiniol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu sy'n berthnasol mewn achosion Deddf Cystadleuaeth ac rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer ein gweithdrefnau gorfodi eraill.[14]

<u>Safbwyntiau'r rhanddeiliaid</u>

2.34 Awgrymodd Radiocentre, er mwyn hwyluso cyfathrebu effeithiol, y byddai'n ddefnyddiol petai "enw a manylion cyswllt Swyddogion Ofcom a oedd yn delio â'r mater yn cael eu rhannu â'r darlledwr (ar y cam safbwynt rhagarweiniol a'r cam penderfyniad terfynol)".

2.35 Roedd A+E yn croesawu eglurhad Ofcom y bydd cyngor gan aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom a phenderfyniadau gan uwch swyddogion Ofcom a fydd wedi cael eu dirprwyo gan y Bwrdd yn cael eu rhoi ar gam Penderfyniad ymchwiliad gan bartïon nad oeddent wedi bod yn rhan o'r mater o'r blaen. Fodd bynnag, wrth ystyried capasiti cynghori aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom mewn perthynas â Safbwyntiau Rhagarweiniol a'u "cefndir helaeth mewn darlledu" fel y nodir mewn troednodyn yn y Gweithdrefnau, roedd A+E yn holi o dan ba amgylchiadau y byddai un o swyddogion gweithredol Ofcom yn penderfynu peidio â dilyn eu cyngor.

2.36 Roedd BT o'r farn nad oedd hi'n hollol glir beth mae'r unigolion gwahanol yn ei adolygu ar y camau gwahanol o'r broses ymchwilio ac roedd yn annog Ofcom i sicrhau bod ymateb llawn y darlledwr bob amser yn cael ei ystyried "er mwyn sicrhau tegwch a chymesuredd".

2.37 Roedd Channel 4 yn poeni, o dan y Gweithdrefnau diwygiedig, y byddai'r Safbwynt Rhagarweiniol yn cael ei baratoi gan rywun gwahanol i'r sawl a fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol na fyddent wedi bod yn ymwneud o gwbl â'r ymchwiliad ac a fyddai'n derbyn cyngor gan aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom nad oeddent wedi gweld y deunyddiau perthnasol. Roeddent yn dweud nad oedd hi'n glir sut gallai'r sawl a oedd yn gwneud y penderfyniad yn y pen draw ddod i benderfyniad teg ac roeddent yn poeni fod y broses hon mewn perygl o arwain at

[13] Fel yr eglurwyd yn y gweithdrefnau tegwch a phreifatrwydd yn Atodiad 2, mae'r "sawl yr effeithir arno" yn golygu, yng nghyswllt cwyn sy'n ymwneud â thegwch, rhywun a oedd yn rhan o raglen y cwynwyd yn ei chylch yng nghyswllt triniaeth annheg, neu rywun a oedd â budd uniongyrchol yn hynny. Mewn perthynas â chwyn am breifatrwydd, mae'n golygu rhywun y tarfwyd ar ei breifatrwydd.
[14] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/ofcoms-approach-to-enforcement

"benderfyniadau mympwyol ... a fydd yn cael eu gwneud ar seiliau nad ydynt wedi cael eu trafod â'r darlledwr".

2.38 Roedd ITV/STV yn cytuno â'r eglurhad ynghylch rolau Swyddogion Ofcom ac aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom wrth baratoi Safbwyntiau Rhagarweiniol a Phenderfyniadau. Roedd Sky yn croesawu eglurhad o'r fath, ond awgrymodd y dylid dal i ddatgan yn y Gweithdrefnau y bydd penderfyniadau ynghylch sancsiynau fel rheol yn cael eu gwneud gan y Cyfarwyddwr Safonau Cynnwys, Trwyddedu a Gorfodaeth, oherwydd dylai penderfyniadau o'r fath "bob amser gael eu gwneud ar lefel digon uchel yn Ofcom wrth ystyried difrifoldeb y canlyniadau i'r darlledwr dan sylw" a "gallai hyn o reidrwydd olygu rhywun ychwanegol i wneud penderfyniadau yn y broses sy'n gwbl briodol yn yr amgylchiadau".

<u>Ymateb Ofcom</u>

2.39 Rydyn ni wedi penderfynu gweithredu ein cynigion. Bwriad y dull gweithredu hwn ydy sicrhau bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol, na fydd wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad na pharatoi'r Safbwynt Rhagarweiniol, yn dod i benderfyniad teg ac annibynnol ar sail yr holl ddeunyddiau perthnasol ac ar ôl ystyried sylwadau'r darlledwr (a'r rheini sy'n cwyno neu drydydd partïon eraill fel sy'n berthnasol) ar y Safbwynt Rhagarweiniol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, byddai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol yn cael yr holl ddeunyddiau perthnasol, gan gynnwys y Safbwynt Rhagarweiniol ac unrhyw gyflwyniadau gan y darlledwr (a'r rheini sy'n cwyno neu drydydd partïon eraill fel sy'n berthnasol). Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol fyddai hefyd yn cadeirio unrhyw wrandawiad llafar

2.40 Bydd y penderfyniad ynghylch Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom fel rheol yn cael ei wneud gan y sawl sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ymchwiliad, ac sydd â phrofiad priodol ac awdurdod wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd i wneud y penderfyniad yn Ofcom. At ei gilydd bydd hwn yn aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom ar lefel Cyfarwyddwr. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan uwch aelod o bwyllgor gwaith Ofcom nad yw wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad ar y cam Safbwynt Rhagarweiniol a/neu wrth baratoi'r Safbwynt Rhagarweiniol, a bydd yn rhywun sydd â phrofiad priodol ac awdurdod wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd i wneud y penderfyniad yn Ofcom. Bydd hwn yn aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom ar lefel Cyfarwyddwr neu uwch. Nid yw Ofcom yn credu ei bod hi'n angenrheidiol nac yn briodol i bennu rolau unigol yn y Gweithdrefnau nac i nodi'r uwch swyddogion penodol a fyddai'n rhan o ymchwiliad, oherwydd rydyn ni'n meddwl y dylai'r Gweithdrefnau fod yn ddigon hyblyg i ddelio ag unrhyw newidiadau mewnol perthnasol yn y dyfodol.

2.41 Mae Ofcom yn gwerthfawrogi profiad darlledu helaeth aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom, sy'n helpu i siapio eu safbwyntiau cynghori ar Safbwyntiau Rhagarweiniol a Phenderfyniadau. Caiff aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom archwilio unrhyw ddeunydd sy'n berthnasol i lunio safbwynt ar sail gwybodaeth a/neu ddarparu cyngor perthnasol ar Safbwynt Rhagarweiniol neu Benderfyniad. Mae Ofcom yn credu y bydd ei ddull gweithredu arfaethedig o ddefnyddio profiad aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom yn cynnal penderfyniadau annibynnol, cadarn a thrwyadl Ofcom mewn achosion o'r fath, ac mae'n dal i gredu y bydd yn ddefnyddiol rhoi mwy o dryloywder ynghylch rôl aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom yn y Gweithdrefnau.

2.42 Mae'r Gweithdrefnau Sancsiynau yn datgan ar gyfer achosion cynnwys "bydd penderfyniadau am sancsiynau yn cael eu gwneud gan ddau uwch aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom y mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo awdurdod priodol

iddynt (gydag un ohonynt yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y tor-amod), ynghyd ag Aelod Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom”. Yn flaenorol, roedden ni wedi nodi y bydd uwch aelodau Bwrdd Gwaith Ofcom sy’n penderfynu ar sancsiwn statudol mewn achos sy’n ymwneud â chynnwys “fel rheol yn Gyfarwyddwr Safonau Cynnwys, Trwyddedu a Gorfodi ac aelod arall o Fwrdd Gwaith Ofcom sydd o leiaf o’r un lefel ac sydd wedi cael yr awdurdod priodol wedi’i ddirprwyo”; ond roedd y Gweithdrefnau hefyd yn egluro y gellid disodli’r cyntaf gyda “Chyfarwyddwr o’r un lefel os na fydd y Cyfarwyddwr Safonau Cynnwys, Trwyddedu a Gorfodi ar gael am unrhyw reswm”. Wrth fabwysiadu ein dull gweithredu diwygiedig, nid yw Ofcom yn bwriadu newid lefel y swyddogion rydyn ni’n credu sy’n briodol i benderfynu ar sancsiynau, ond mae wedi ceisio sicrhau bod y Gweithdrefnau’n ddigon hyblyg i allu delio ag unrhyw newidiadau yn Ofcom yn y dyfodol.

## Cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

2.43 Roedd A+E, BT, Channel 4, ITV/STV, a Radiocentre yn anghytuno â chwtogi’r cyfnod rhybudd cyn cyhoeddi i un diwrnod gwaith, gan nad ydynt yn meddwl bod hynny’n ddigon. Roedd BT hefyd yn cwestiynu sut roedd hynny’n galluogi Ofcom i fod yn fwy effeithlon, “yn enwedig gan fod y Bwletin Broadcast yn cael ei gyhoeddi bob pythefnos”. Roedd ITV/STV yn meddwl nad oedd cyfiawnhad dros newid arfer presennol Ofcom a, gydag A+E, Sky a Radiocentre, roedd yn credu y dylid cadw’r cyfle i ddarlledwyr gywiro camgymeriadau ffeithiol ym Mhenderfyniad Ofcom.

2.44 Mewn perthynas â’n Gweithdrefnau Safonau, Gweithdrefnau Sancsiynau a Gweithdrefnau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad, roedd UKLFI yn credu “ei bod yn annheg rhoi copi ymlaen llaw o’r penderfyniad i’r darlledwr ond dim i’r sawl sy’n cwyno a ... bod modd i ddarlledwr gamddefnyddio hynny i wyro’r sylw yn y cyfryngau ynghylch penderfyniad o bwys a thrwy hynny ei danseilio”.

Ymateb Ofcom

2.45 Mae Ofcom o'r farn bod un diwrnod gwaith yn ddigon o rybudd i’r darlledwyr a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad, yn yr un modd â’r rhanddeiliaid yn y sectorau eraill sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom. Rydyn ni’n teimlo ei bod yn ddymunol i’r cyfnod rhybudd fod yn gyson â’r cyfnod yn ein gweithdrefnau gorfodi, a bod un diwrnod gwaith yn briodol o gofio pa mor bwysig yw sicrhau bod prosesau Ofcom yn effeithlon ac yn dryloyw. Rydym hefyd wedi ystyried, ers i'r gweithdrefnau blaenorol gael eu cyflwyno yn 2011, mai anaml iawn y daethpwyd o hyd i unrhyw wallau ffeithiol yn ystod y cyfnod o 48 awr cyn cyhoeddi, sef y ddarpariaeth yn y gweithdrefnau hynny.

2.46 Mae Ofcom yn nodi safbwynt UKLFI. Roedd Ofcom wedi ymgynghori ynghylch cyflwyno’r Gweithdrefnau Safonau presennol yn 2011. Nid oedd dim ymatebwyr yn gwrthwynebu mabwysiadu model “ar sail materion” er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion perthnasol ac felly penderfynodd Ofcom[15] y byddai’n parhau i gydnabod pob cwyn ond na fyddai’n ateb pob cwyn unigol gydag ymateb ‘wedi’i deilwra’ neu ohebu ymhellach fel rheol gyda’r unigolion a oedd yn cwyno. Yn hytrach, byddem yn ymchwilio pan fo angen gan flaenoriaethu ein hymchwiliadau yn ôl nifer o ffactorau perthnasol (er enghraifft, niwed i’r rheini dan

[15] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/58153/statement.pdf

18 oed, colled ariannol a niwed parhaus) a chyhoeddi ein penderfyniadau yn y Bwletinau Broadcast and On Demand.

2.47 Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i sut rydyn ni'n cyfleu canlyniad ein hystyriaeth o gwynion ac ymchwiliadau safonau cynnwys a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Drwy gyhoeddi cofnod o'r cwynion rydyn ni wedi'u cael yn ein Bwletinau Broadcast and On Demand a gyhoeddir bob pythefnos (gan restru ar wahân y rheini sydd wedi codi materion sydd wedi symud ymlaen i gael eu hymchwilio), ynghyd â chanlyniadau ein hymchwiliadau, gall y rheini sy'n cwyno olrhain cynnydd eu cwynion. Am y rhesymau a nodir ym mharagraff 2.31 uchod, rydyn ni o'r farn bod hyn yn briodol yn yr amgylchiadau, ac nad yw'n golygu bod y rheini sy'n cwyno yn cael eu trin yn annheg.

## Materion sy'n ymwneud yn benodol ag ymchwiliadau Tegwch a Phreifatrwydd

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

2.48 Roedd Channel 4 ac ITV/STV yn dadlau nad oes gan Ofcom y pŵer statudol i ystyried materion sy'n ymwneud â thegwch a phreifatrwydd os nad oes cwyn gan yr unigolyn dan sylw. Roedd y BBC, mewn ymateb i ymgynghoriad ar wahân gan Ofcom ar weithdrefnau ar gyfer rhaglenni'r BBC, yn dadlau'r un fath.[16]

2.49 Roedd Channel 4 yn ystyried bod pŵer Ofcom i ymchwilio i faterion o niwed a thramgwydd o dan Adran Dau y Cod yn mynd i'r afael â'r canfyddiad o niwed i wylwyr a achosir gan y ffordd y caiff yr unigolyn dan sylw ei drin, ac nad yw Ofcom wedi darparu dim tystiolaeth o "angen cymdeithasol brys i ymestyn ei bwerau i gychwyn cwyn ar ran rhywun y mae'r mater yn effeithio arnynt pan nad ydynt wedi dewis mynd ar drywydd yr hawl hwn eu hunain". Roedd yn dadlau nad yw'r gweithdrefnau'n diffinio'r 'amgylchiadau eithriadol' pan allai Ofcom ymchwilio os nad oes cwyn ac felly eu bod yn rhoi "disgresiwn llwyr i Ofcom yn y maes hwn". Dywedodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw achosion "pan mae'r sawl yr effeithiwyd arno wedi gwrthod cyflwyno cwyn ffurfiol ac mae'r rheoleiddiwr wedi teimlo bod angen cychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun." Roedd yn nodi'r anawsterau gweithdrefnol roedd yn credu y byddai ymchwiliad o'r fath yn eu codi.

2.50 Awgrymodd Channel 4 gadw yn y Gweithdrefnau "dim ond dros dro yw'r safbwynt rhagarweiniol a gall newid o ganlyniad i ddeunyddiau/sylwadau a gyflwynir gan y sawl sy'n cwyno a'r darlledwr", oherwydd ei fod yn cael ei ddarparu i'r sawl sy'n cwyno cyn i'r darlledwr ei weld.

2.51 Nododd ITV/STV gynnig Ofcom i gyfarwyddo'r darlledwr i ddarlledu crynodeb o'i Ddyfarniad pan fydd y rheolau tegwch a/neu breifatrwydd wedi cael eu torri a bod hynny wedi "arwain at niwed difrifol i fuddiannau cyfreithlon unigolyn sy'n cwyno a bod angen cyhoeddi hynny mewn ffordd sy'n fwy na chyhoeddi ym Mwletin Broadcast Ofcom". Roedd yn credu nid yn unig bod angen esboniad pellach ynghylch ystyr "buddiannau cyfreithlon" a niwed "difrifol" ond hefyd, sut bynnag, mae'r ddarpariaeth yn ddianghenraid ac yn gwrthdaro â gweithdrefnau sancsiynau Ofcom lle mae cyfarwyddyd i ddarlledu crynodeb o ganfyddiadau Ofcom ymysg y sancsiynau sydd ar gael a lle sefydlir y meini prawf ar gyfer ei roi.

Ymateb Ofcom

[16] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf

2.52 Fel arfer, mae angen i Ofcom gael cwyn gan y “sawl yr effeithir arno” cyn ymchwilio i faterion tegwch a phreifatrwydd. Serch hynny, pan fydd Ofcom yn credu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol (dan adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003) i sicrhau y rhoddir safonau ar waith sy’n rhoi amddiffyniad digonol i aelodau’r cyhoedd (a phob unigolyn arall) rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen, gallwn ystyried materion tegwch neu breifatrwydd os nad oes cwyn gan "y sawl yr effeithir arno”. Fel mae’r Gweithdrefnau’n eu nodi, bydd Ofcom ond yn ystyried materion o’r fath os nad oes cwyn gan “y sawl yr effeithir arno” mewn amgylchiadau eithriadol; prin iawn yw’r ymchwiliadau tegwch a phreifatrwydd a lansiwyd gan Ofcom, o ystyried natur eithriadol yr amgylchiadau sydd eu hangen er mwyn sbarduno ymchwiliad o’r fath. Hyd yma, dim ond chwe gwaith mae Ofcom wedi lansio ymchwiliad tegwch a phreifatrwydd pan nad oedd cwyn wedi’i chyflwyno gan y “sawl yr effeithir arno”. Fel y nodir yn y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd, mewn achosion o'r fath mae Ofcom yn datgan ymlaen llaw y gweithdrefnau mae’n bwriadu eu dilyn, a fyddai’n debyg i’r gweithdrefnau hynny ond yn cael eu haddasu fel sy’n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn deg yn yr amgylchiadau penodol.

2.53 Mae Ofcom yn fodlon ailddatgan yn y Gweithdrefnau, er mwyn bod yn glir, yr esboniad “dim ond dros dro yw’r Safbwynt Rhagarweiniol hwn a gallai newid yng ngoleuni sylwadau/deunyddiau dilynol a fydd yn cael eu darparu gan y sawl sy’n cwyno a’r darlledwr”.

2.54 Mae’r ddarpariaeth y caiff Ofcom gyfarwyddo darlledwr i ddarlledu crynodeb o’i Ddyfarniad os caiff cwyn ei chynnal neu ei chynnal yn rhannol yn adlewyrchu adran 119 o Ddeddf 1996. Mae Adran 119 yn datgan ar gyfer mater cyfarwyddiadau o’r fath yn ogystal â chyfarwyddiadau a roddir i ddarlledwyr trwyddedig mewn perthynas â thorri’r gofynion perthnasol sydd hefyd yn dorri amodau trwydded (gweler adran 119(7B)). Mewn geiriau eraill, yn ychwanegol at gyfarwyddiadau y gall Ofcom eu rhoi i ddarlledwyr fel sancsiwn dan y Gweithdrefnau Sancsiynau (er enghraifft dan adrannau 40(1) a 109(3) o Ddeddf 1990 ac adran 236 o Ddeddf 2003).

2.55 Bydd unrhyw benderfyniad gan Ofcom i gyhoeddi cyfarwyddyd o’r fath yn adlewyrchu ein dyletswyddau i fod yn gymesur ac yn gyson ac i dargedu camau gweithredu dim ond at yr achosion sy’n galw am hynny yn ein barn ni. Hefyd, nid yw hynny’n golygu na chaiff Ofcom ofyn am sylwadau darlledwr cyn cyhoeddi cyfarwyddyd dan y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd pan rydym yn credu y byddai gwneud hynny'n briodol i sicrhau tegwch.

## Cyhoeddi canlyniad ymchwiliadau

<u>Safbwyntiau'r rhanddeiliaid</u>

*Gweithdrefnau Safonau Ofcom*

2.56 Roedd ITV/STV yn annog Ofcom i nodi yn ei weithdrefnau y bydd fel rheol yn cyhoeddi pob Penderfyniad yn llawn, gan gynnwys penderfyniadau ‘Heb Dorri Amod’, oherwydd mae llawer o gyhoeddusrwydd yn gallu cael ei greu pan fydd Ofcom yn lansio ymchwiliad ond nid oes llawer, os o gwbl, o gyhoeddusrwydd pan ganfyddir nad yw’r rhaglenni hynny wedi torri amodau. Roedd ITV/STV yn credu y byddai hyn o fudd i’r cyhoedd o ran sicrhau gwell dealltwriaeth o ystyriaethau Ofcom a darparu arweiniad defnyddiol i ddarlledwyr wrth ystyried materion tebyg yn y dyfodol.

2.57 Roedd Radiocentre yn cwestiynu gwerth bod Ofcom yn cyhoeddi manylion cwynion nad yw'n mynd ar eu trywydd ar ôl yr asesiad cychwynnol, "wrth ystyried eu bod wedi cael eu hasesu ond wedyn mae Ofcom yn ystyried nad oes sail iddynt". Roedd hefyd yn cwestiynu gwerth bod Ofcom yn cyhoeddi lansiad ymchwiliad, gan nad yw'n helpu cydymffurfiad a gallai arwain at gyhoeddusrwydd a dyfalu niweidiol.

2.58 Roedd UKLFI yn credu ei bod hi'n annigonol bod Ofcom yn cyhoeddi penderfyniadau i beidio ag ymchwilio yn y Bwletin Broadcast and On Demand, gan ychwanegu y dylai canlyniadau gael eu cyfleu i'r unigolion sy'n cwyno, ynghyd â'r rheswm/rhesymau dros beidio ag ymchwilio.

*Gweithdrefnau Cyffredinol Ofcom*

2.59 Dywedodd Channel 4 "nad oedd hi'n glir o dan pa amgylchiadau na fyddai hi'n briodol cyhoeddi manylion achosion yr ymchwilir iddynt, nad oeddent yn destun ymchwiliad mwyach neu pan welwyd y bu achosion o dorri amodau neu beidio, neu pan fydd Penderfyniadau wedi cael eu datrys".

<u>Ymateb Ofcom</u>

*Gweithdrefnau Safonau Ofcom*

2.60 Mae Ofcom yn nodi safbwynt ITV/STV y dylid cyhoeddi penderfyniad 'heb dorri amod' ym mhob achos. Fodd bynnag, rydyn ni'n dal yn meddwl bod ein gweithdrefnau presennol yn briodol yn y cyswllt hwn. Er mwyn bod yn dryloyw ac yn atebol, fel rheol byddwn ni'n cyhoeddi manylion canlyniad pob ymchwiliad safonau cynnwys, gan gynnwys manylion bod ymchwiliad wedi dod i gasgliad gyda phenderfyniad 'Heb dorri Amod' yn y Bwletin Broadcast and On-demand. Rydyn ni hefyd yn cyhoeddi penderfyniadau llawn wedi'u rhesymu pan fyddwn ni'n gweld bod y Cod wedi cael ei dorri. Mae hyn oherwydd bod rhoi cyhoeddusrwydd i benderfyniadau o'r fath yn helpu i gyflawni ein swyddogaethau'n dryloyw, yn gallu rhwystro diffyg cydymffurfio â rheolau rheoleiddio ac yn gallu helpu i addysgu eraill am beth sy'n gallu mynd o chwith. Fodd bynnag, fel rheol byddwn ond yn cyhoeddi penderfyniad 'heb dorri amod' llawn mewn amgylchiadau pan fydd hi'n debyg y bydd gwneud hynny o fudd penodol i randdeiliaid – er enghraifft, mewn achosion pan fyddai'n rhoi esboniad am agweddau o'r drefn reoleiddio (a sut rydyn ni'n ei defnyddio) a allai fod yn ddefnyddiol i ddarlledwyr eraill; neu os y bu llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd yn yr ymchwiliad.

2.61 Rydyn ni'n nodi safbwynt UKLFI, ond am y rhesymau sydd wedi'u nodi ym mharagraff 2.46 uchod, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i sut rydyn ni'n cyfleu canlyniad ein hystyriaeth o gwynion ac ymchwiliadau safonau cynnwys a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Byddwn yn parhau i gyhoeddi manylion y cwynion rydyn ni wedi'u hasesu ond heb fynd ar eu trywydd, oherwydd dyma sut caiff y rheini sy'n cwyno wybod am ganlyniad eu cwyn. Byddwn hefyd yn dal i gyhoeddi manylion cryno am yr ymchwiliadau newydd rydyn ni wedi'u lansio er mwyn rhoi gwybod i unrhyw drydydd partïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol am ein hymchwiliad a'u bod yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau trydydd parti.

<u>*Gweithdrefnau Cyffredinol Ofcom*</u>

2.62 Yn ein hymgynghoriad, roedden ni wedi cynnig gwneud rhai newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n rhoi cyhoeddusrwydd i achosion sy'n cael eu trin o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol er mwyn adlewyrchu ein harfer presennol a rhoi mwy o dryloywder am

ein dull gweithredu. Yn y Gweithdrefnau Cyffredinol diwygiedig, rydyn ni hefyd wedi ceisio egluro:

- Yn y rhan fwyaf o achosion, byddem fel rheol yn cyhoeddi yn y Bwletin Broadcast and On Demand fanylion am benderfyniad Ofcom i ymchwilio neu i beidio â mynd ar drywydd mater ar ôl ein hasesiad cychwynnol o'r mater ac unrhyw gŵyn.[17] Yn yr achosion hyn, byddem hefyd yn cyhoeddi canlyniad ein penderfyniad terfynol ar yr ymchwiliad, boed hynny'n benderfyniad o dorri amod, yn benderfyniad "wedi'i ddatrys" neu yn benderfyniad "heb dorri amod".[18] Mae hyn oherwydd bod rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymchwiliadau rydyn ni'n eu cynnal, a'n penderfyniadau terfynol, yn rhan bwysig o gyflawni ein swyddogaethau'n dryloyw, ac mae'n gallu helpu i rwystro diffyg cydymffurfiad â'n rheolau, a helpu i addysgu eraill am beth sy'n gallu mynd o chwith.

- Fodd bynnag, efallai y bydd rhai achosion lle mae Ofcom yn credu y byddai'n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater pan fyddwn ni'n penderfynu ymchwilio i ddechrau (neu i beidio â mynd ar drywydd cwyn) oherwydd bod y materion dan sylw'n arbennig o sensitif a/neu gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon[19] – er enghraifft, materion sy'n ymwneud â sefyllfa ariannol y darlledwr neu bosibilrwydd newid mewn rheolaeth. Yn yr achosion hyn, lle nad ydym wedi cyhoeddi manylion y materion yr ymchwilir iddynt o'r blaen, efallai byddwn yn dal i allu rhoi cyhoeddusrwydd i ganlyniad yr ymchwiliad. Yn benodol, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob penderfyniad o dorri amod neu "wedi'i ddatrys" ar ôl i ni gwblhau'r ymchwiliad am y rhesymau a nodir uchod. Fodd bynnag, fel rheol ni fyddwn yn cyhoeddi manylion canlyniad "penderfyniad heb dorri amod".[20] Y rheswm dros beidio â gwneud hynny yw y byddem yn poeni bod y materion a godwyd yn arbennig o sensitif a/neu y gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon, ac nid yw manteision cyhoeddusrwydd a thryloywder yn drech na'r niwed posibl i'r rheini sy'n ymwneud â'r amgylchiadau lle rydym wedi canfod yn y pen draw na chafodd amod ei dorri.

- Efallai y bydd achosion sy'n codi materion sensitif a lle gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon, ond rydyn ni'n dal yn meddwl, yn eithriadol, bod angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ein bod yn ymchwilio i'r achos, er enghraifft pan fydd lefel uchel o ddiddordeb yn y mater dan sylw ymysg y cyhoedd.[21] Yn yr achosion hynny, byddem hefyd yn disgwyl cyhoeddi canlyniad ein penderfyniad terfynol, boed hwnnw yn benderfyniad o dorri amod, penderfyniad "wedi'i ddatrys" neu benderfyniad "heb dorri amod".[22]

## Yr hawl i apelio a sancsiynau statudol

<u>Safbwyntiau'r rhanddeiliaid</u>

2.63 Awgrymodd UKLFI ei fod yn anghywir mewn egwyddor ac y byddai'n arwain at "ormod o oedi" trin fel "sancsiynau" gyfarwyddiadau i beidio ag ailadrodd rhaglen neu gynnwys cywiriad a/neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom, neu, yn achos gwasanaethau rhaglenni ar-alwad, cyfyngu ar fynediad neu ddarparu gwybodaeth

[17] Edrychwch ar baragraff [A3.27].
[18] Edrychwch ar baragraffau [A3.44 a A3.46].
[19] Edrychwch ar baragraff [A3.27].
[20] Edrychwch ar baragraffau [A3.46].
[21] Edrychwch ar baragraff [A3.27].
[22] Edrychwch ar baragraffau [A3.44 a A3.46].

ychwanegol. Dywedodd na ddylai Ofcom ofyn am gywiriadau dim ond pan mae'r darlledwr wedi torri'r Cod yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n ddi-hid, ond y dylai wneud hynny pryd bynnag mae'r darlledwr wedi darlledu cynnwys sy'n gamarweiniol iawn neu sydd ddim yn sicrhau didueddrwydd dyladwy.

2.64 Roedd Channel 4 yn credu y dylid cael proses apeliadol, gan ychwanegu mewn perthynas â sancsiynau "yn y pen draw bod darlledwr yn wynebu penderfyniad na allant ei apelio i unrhyw un yn Ofcom nad ydynt wedi bod yn ymwneud â'r broses penderfynu gychwynnol",

2.65 Dywedodd Radiocentre fod rhai o'i aelodau'n awgrymu y dylai llwybr apelio ffurfiol a/neu annibynnol fod ar gael i ddarlledwyr, a allai helpu i wella atebolrwydd a hyder yn y drefn reoleiddio.

2.66 Mewn perthynas â rhoi cosb ariannol neu yn achos dirymu trwydded neu gyfarwyddyd i atal neu gyfyngu ar yr hawl i ddarparu gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, roedd ITV/STV yn credu nad oedd diffyg unrhyw fath o weithdrefn apelio yn cyd-fynd â chyfiawnder naturiol. Gofynnodd ITV/STV i Ofcom ystyried hyn o'r newydd.

Ymateb Ofcom

2.67 Mae pwerau Ofcom i ystyried ac i roi sancsiynau, a'u ffurfiau posibl, wedi cael eu nodi yn Neddf Darlledu 1990 a Deddf 2003, fel y manylir yn y troednodiadau i'r Gweithdrefnau.

2.68 Mae'n rhaid i Ofcom benderfynu: a ydy darlledwr neu ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedi torri rheolau perthnasol; a ydy'r torri yn cyfiawnhau ystyried sancsiynau statudol; ac, os rhoddir sancsiynau statudol, pa fath. Wrth benderfynu ar faterion o'r fath, mae'r Gweithdrefnau'n sicrhau bod darlledwyr a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn cael cyfleoedd priodol i gyflwyno sylwadau. Nid yw Ofcom yn ystyried bod gweithdrefnau teg ac effeithiol hefyd yn golygu bod angen cynnwys adolygiad mewnol na mecanweithiau apelio.

2.69 Byddai cyflwyno llwybr apelio allanol yn fater i ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae modd i ddarlledwyr, darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad a'r rheini sy'n cwyno herio penderfyniadau Ofcom drwy adolygiad barnwrol.

## Y Broses Ymgynghori

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

2.70 Roedd Sky o'r farn nad oedd Ofcom wedi ymgynghori mewn ffordd glir a thryloyw. Nododd nad oedd Ofcom wedi darparu "fersiwn wedi'i farcio yn dangos y newidiadau roedd yn eu cynnig i'r gweithdrefnau presennol" ac roedd rhai newidiadau roedd Sky yn credu a oedd yn berthnasol ddim "wedi cael sylw" ym mhrif gorff y ddogfen ymgynghori. Gofynnodd i Ofcom ddarparu "fersiynau wedi'u marcio ar gyfer ymgyngoriadau yn y dyfodol a/neu ddarparu crynodeb mwy manwl o'r newidiadau arfaethedig", er mwyn helpu rhanddeiliaid i allu eu gweld a'u hasesu'n gyflym.

Ymateb Ofcom

2.71 Mae Ofcom o'r farn bod y newidiadau sylweddol i'r gweithdrefnau presennol wedi cael eu hamlygu yn y ddogfen ymgynghori. Fodd bynnag, rydyn ni'n nodi

safbwyntiau Sky a byddwn yn ceisio darparu fersiwn wedi’i farcio o ddiwygiadau arfaethedig pan fyddwn ni’n credu y bydd hynny’n helpu rhanddeiliaid.

## Atodiad 1

# Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio

## Cyflwyniad

A1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer delio â chwynion a datrys cwynion (neu ar gyfer cynnal ei ymchwiliadau ei hun) ynghylch cydymffurfiad darlledwyr[23] â'r safonau cynnwys sydd wedi cael eu gosod o dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003").[24] Daw'r Gweithdrefnau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017.[25]

A1.2 Nid yw'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU na Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU[26]. Mae gweithdrefnau eraill yn berthnasol i'r gwasanaethau hyn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf. Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i gwmnïau darlledu masnachol y BBC sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom.

A1.3 Mae gweithdrefnau eraill yn berthnasol i ystyried cwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd o dan Ran 5 o Ddeddf Darlledu 1996[27].

A1.4 Os bydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn mewn unrhyw ffordd o sylwedd mewn achos penodol am resymau sy'n ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i Ofcom ystyried cwyn neu gynnal ymchwiliad yn briodol, bydd yn ysgrifennu at y darlledwr dan sylw (ac unrhyw bartïon perthnasol eraill) ymlaen llaw yn nodi natur/graddfa ei wyriad oddi wrthynt a'i resymau dros wneud hynny.

### Fframwaith statudol

A1.5 Mae gan Ofcom ddyletswyddau mewn perthynas â darlledu sy'n cynnwys sicrhau bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed mewn gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(e) o Ddeddf 2003.

---

[23] Mae cyfeiriadau at "ddarlledwyr" yn y Gweithdrefnau hyn yn cyfeirio at unrhyw ddarlledwr sy'n cael ei drwyddedu a/neu ei reoleiddio gan Ofcom, ac eithrio Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU y mae gweithdrefnau eraill yn berthnasol iddynt.

[24] Mae gan Ofcom ddyletswydd i sefydlu gweithdrefnau o'r fath dan adran 325(2) o Ddeddf 2003.

[25] Gellir adolygu a diwygio'r Gweithdrefnau sydd yn y ddogfen hon, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig, unrhyw bryd. Bydd unrhyw ddiwygiad mawr yn destun ymgynghoriad ymlaen llaw.

[26] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).

[27] Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion ynghylch Tegwch a Phreifatrwydd ar gael ar wefan Ofcom yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/fairness/

A1.6 Wrth wneud yn siŵr bod y safonau hyn yn cael eu dilyn, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i'w sicrhau yn y ffordd sy'n rhoi'r sicrwydd gorau y ceir lefel briodol o ryddid mynegiant: adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003.

A1.7 Mae gan Ofcom ddyletswydd arall dan adran 319 o Ddeddf 2003 i osod safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni[28] sydd i'w cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio sy'n ymddangos i Ofcom fel y rhai gorau i sicrhau "amcanion safonau" penodol. Caiff yr amcanion safonau hynny eu gosod dan adran 319(2), ac mae'n rhaid i Ofcom sefydlu codau sy'n cynnwys y safonau hyn. At ddibenion y ddyletswydd honno, mae Ofcom yn defnyddio darpariaethau Cod Darlledu Ofcom (sy'n cynnwys y Cod Trawshyrwyddo) ("y Cod Darlledu")[29] a'r Codau y cyfeirir atynt yn y paragraff canlynol. Mae Adran 325 o Ddeddf 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion am ddilyn safonau sydd wedi'u gosod dan adran 319 a bod gofyn i ddarlledwyr, dan delerau eu trwyddedau, lynu wrth y safonau hynny wrth ddarparu eu gwasanaethau.[30]

A1.8 Bydd y Gweithdrefnau hyn yn rheoli cwynion ac ymchwiliadau am faterion a godir sy'n ymwneud â'r safonau a ddaw dan y Codau Ofcom canlynol: y Cod Darlledu (ac eithrio yng nghyswllt Tegwch a Phreifatrwydd, neu gwynion sy'n ymwneud â Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU); y Cod Trawshyrwyddo, y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu (COSTA) a, phan fo'n briodol, Cod Darllediadau Hysbysebu y DU (Cod BCAP).[31]

A1.9 Caiff Ofcom lansio ymchwiliadau ei hun yn ogystal ag ymchwilio i gwynion. Mae'r Gweithdrefnau mewn ymchwiliad sy'n cael ei arwain gan gŵyn ac ymchwiliad sydd wedi'i gychwyn gan Ofcom yr un fath.

## Gweithdrefnau

### Gwneud cwyn

A1.10 Mae modd cyflwyno cwynion dan y Gweithdrefnau hyn i Ofcom gan unrhyw un neu unrhyw gorff sy'n credu nad yw darlledwr wedi cydymffurfio â'r safonau dan adran 319 o Ddeddf 2003 fel y cânt eu hadlewyrchu yn narpariaethau'r Cod Darlledu yn

[28] Mae cyfeiriadau at "raglenni" yn y Gweithdrefnau hyn yn cynnwys teledestun, is-deitlau, ac unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio, ar wahân i'r rhan fwyaf o fathau o hysbysebu (Yn gyffredinol bydd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu yn ymchwilio i gwynion am hysbysebu a thele-siopa. Serch hynny, mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio rhai gofynion hysbysebu, megis hysbysebu gwleidyddol, Teledu Cyfranogiad, cwynion am Degwch a Phreifatrwydd mewn hysbysebion, a chwynion neu achosion sy'n ymwneud â'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu ("COSTA") (gweler paragraff 1.7) y bydd Ofcom yn ymchwilio iddynt dan y Gweithdrefnau hyn neu dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried a dyfarnu ar gwynion ynghylch Tegwch a Phreifatrwydd).
[29] Http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/ - ac eithrio Adrannau Saith ("Tegwch") ac Wyth ("Preifatrwydd") y bydd Ofcom yn eu defnyddio mewn perthynas â chwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd dan weithdrefnau gwahanol: edrychwch ar baragraff 1.3 uchod.
[30] Mae Adran 325(1) o Ddeddf 2003 yn mynnu bod darlledwyr eu hunain (yn ogystal ag Ofcom) yn sefydlu eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer trin a datrys cwynion.
[31] Fel y nodir uchod, yn gyffredinol, bydd cwynion am hysbysebu a thele-siopa yn cael eu hymchwilio gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu. Serch hynny, mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio rhai gofynion hysbysebu, megis hysbysebu gwleidyddol, Teledu Cyfranogiad, cwynion am Degwch a Phreifatrwydd mewn hysbysebion, a chwynion neu achosion sy'n ymwneud â COSTA y bydd Ofcom yn ymchwilio iddynt dan y Gweithdrefnau hyn neu dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried a dyfarnu ar gwynion ynghylch Tegwch a Phreifatrwydd.

http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/ a/neu'r Codau eraill y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.7 uchod. Dyma adrannau perthnasol y Cod Darlledu:

- Amddiffyn Pobl Ifanc dan Ddeunaw Oed (Adran Un);
- Niwed a Thramgwydd (Adran Dau)
- Trosedd, Anhrefn, Casineb a Chamdriniaeth (Adran Tri)
- Crefydd (Adran Pedwar)
- Bod yn Ddigon Diduedd ac yn Ddigon Cywir a Gormod o Sylw i Safbwyntiau a Barn (Adran Pump)
- Etholiadau a Refferenda (Adran Chwech)
- Cyfeiriadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu (Adran Naw)
- Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio (Adran Deg)

A1.11 Rhaid i gwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd dan Adrannau Saith ("Tegwch") ac Wyth ("Preifatrwydd") y Cod Darlledu gael eu gwneud yn unol â Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion am Degwch a Phreifatrwydd": ewch i http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/fairness/

A1.12 Er mwyn datrys materion yn brydlon, mae Ofcom o'r farn y dylai'r rheini sy'n cwyno ddilyn gweithdrefn cwyno'r darlledwr ei hun cyn cwyno wrth Ofcom. Mae manylion cyswllt pob darlledwr ar gael ar wefan Ofcom yn http://licensing.ofcom.org.uk/tv-broadcast-licences/current-licensees/ a http://licensing.ofcom.org.uk/radio-broadcast-licensing/. Os na fydd y sawl sy'n cwyno yn fodlon ar ymateb y darlledwr i'w cwyn, mae modd wedyn cyflwyno'r gŵyn i Ofcom.[32] Mae modd hefyd cyflwyno cwynion yn uniongyrchol i Ofcom yn y lle cyntaf: edrychwch ar baragraffau A1.17 i A1.20 isod i gael manylion am y cyfyngiadau amser ar gwynion.

## Ffurf y gŵyn a'r wybodaeth i'w darparu

A1.13 Mae Ofcom yn gofyn i bob cwyn gael ei chyflwyno ar ei ffurflen cwynion. Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan Ofcom yn http://consumers.ofcom.org.uk/tell-us/tv-and-radio/. Fel arall, ar gyfer unrhyw gŵyn, gallwch chi gysylltu â ni yn: Ofcom, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, London SE1 9HA, neu ffonio 0300 123 3333 neu 020 7981 3040. Os oes gennych chi ffôn testun gallwch chi ffonio 020 7981 3043 – fydd y rhif hwn ond yn gweithio gydag offer arbennig sy'n cael ei ddefnyddio gan bobl fyddar neu drwm eu clyw. I gysylltu ag Ofcom drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, mae Gwasanaeth Cyfnewid Fideo ar gael ar wefan Ofcom.

[32] Mewn achosion pan fydd cwyn yn cael ei gwneud dan weithdrefnau cwynion y darlledwr ei hun, bydd Ofcom yn disgwyl i'r darlledwr gadw'r recordiadau perthnasol, ac unrhyw ddeunyddiau perthnasol, am nifer y diwrnodau sy'n ofynnol yn ôl statud, ond gan redeg o'r dyddiad y byddai'n rhesymol i'r darlledwr ddisgwyl bod y sawl sy'n cwyno wedi cael penderfyniad terfynol y darlledwr. Dyma'r gofynion statudol, a ddaw o adran 117 o Ddeddf 1996, ac adran 334 o Ddeddf 2003. Rhaid i ddarlledwyr gadw recordiadau o raglenni radio am 42 diwrnod ar ôl y darllediad. Rhaid cadw recordiadau o raglenni teledu am 60 diwrnod ac eithrio yn achos ITV1, Channel 4, Channel 5 ac S4C sy'n gorfod cadw recordiadau am 90 diwrnod.

A1.14 Dylai'r holl gwynion gynnwys digon o fanylion am fater y gŵyn. Yn benodol, dylai pob cwyn gynnwys:

- enw/teitl y rhaglen mae'r gŵyn yn berthnasol iddi;
- dyddiad ac amser y rhaglen;
- sianel darlledu'r rhaglen;
- natur y gŵyn a (phan fo'n bosibl) rhannau penodol y rhaglen mae'r gŵyn yn berthnasol iddynt;
- manylion cyswllt llawn y sawl sy'n cwyno (gan gynnwys cyfeiriad e-bost pan fo'n briodol); ac
- a yw'r sawl sy'n cwyno (ac, os felly, pryd) wedi cyflwyno cwyn i'r darlledwr dan sylw.

A1.15 Mae'n bwysig iawn cynnwys y manylion hyn (neu gynifer ohonynt ag sy'n bosibl). Gall methu â'u darparu olygu na fydd Ofcom yn gallu ymchwilio i'r gŵyn.

A1.16 Oni bai fod y sawl sy'n cwyno'n gofyn i Ofcom beidio â gwneud hynny, caiff Ofcom ddatgelu pwy ydy'r sawl sy'n cwyno i'r darlledwr sy'n destun i'r gŵyn yn ogystal â rhannu fersiwn nad yw'n gyfrinachol o'r gŵyn a gyflwynwyd er mwyn cael sylwadau. Bydd Ofcom yn ystyried ceisiadau gan bobl sy'n cwyno sy'n dymuno aros yn ddienw.[33]

## Cyfyngiadau amser ar gwyno

A1.17 Dylai'r rheini sy'n cwyno gyflwyno eu cwyn i Ofcom cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r rhaglen dan sylw gael ei darlledu neu'r adeg pan ddigwyddodd y mater y maent yn cwyno amdano. Fel rheol, ni fydd Ofcom yn derbyn cwyn sy'n cael ei chyflwyno ar ôl y dyddiad cau hwn.

A1.18 Pan fydd cwyn yn cael ei chyflwyno dros 20 diwrnod gwaith ar ôl y darllediad, dylai'r rheini sy'n cwyno egluro pam na chafodd y gŵyn ei chyflwyno'n gynharach. Bydd Ofcom wedyn yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol (gan gynnwys esboniad y sawl sy'n cwyno dros yr oedi cyn cyflwyno'r gŵyn a'r cyfnodau cyfyngedig y mae'n rhaid i ddarlledwyr gadw recordiadau)[34] wrth benderfynu a ddylai Ofcom ymchwilio i'r gŵyn ai peidio er iddi gael ei chyflwyno'n hwyr.

A1.19 Pan fydd y sawl sy'n cwyno eisoes wedi cwyno'n uniongyrchol wrth y darlledwr, dylai'r sawl sy'n cwyno aros i gael gweld a yw'n fodlon ar ymateb y darlledwr (yn

---

[33] Nid yw hyn yn berthnasol i chwythwyr chwiban. Mae Ofcom yn "unigolyn a ragnodir" dan Ran IVA o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) y mae modd gwneud "datgeliadau cymwys" iddo ynghylch rhai materion, gan gynnwys darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio. Mae Ofcom wedi cyhoeddi arweiniad (sydd ar gael ar ein gwefan yn: https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/policies-and-guidelines) ynghylch sut caiff unigolion sy'n gweithio yn y sector cyfathrebu gysylltu â ni os oes ganddynt bryderon ynghylch camwedd posibl yn eu sefydliad eu hunain (neu eu cyn sefydliad) a lle na fu modd iddynt godi neu ddatrys y pryderon hynny'n fewnol.

[34] Rhaid i ddarlledwyr gadw recordiadau o raglenni radio am 42 diwrnod ar ôl y darllediad. Rhaid cadw recordiadau o raglenni teledu am 60 diwrnod ac eithrio yn achos ITV1, Channel 4, Channel 5 ac S4C sy'n gorfod cadw recordiadau am 90 diwrnod. (Ond, gweler troednodyn rhif 10 uchod)

unol â gweithdrefn cwyno'r darlledwr ei hun) cyn ei chyfeirio at Ofcom.[35] Os nad yw'n fodlon, dylai'r sawl sy'n cwyno gyfeirio'r gŵyn at Ofcom (ynghyd ag ymateb y darlledwr) cyn gynted ag sy'n bosibl, ac yn sicr cyn pen 20 diwrnod gwaith o ymateb neu benderfyniad terfynol y darlledwr perthnasol dan ei weithdrefnau. Os nad yw'r sawl sy'n cwyno wedi cael ymateb na phenderfyniad i'w gŵyn gan y darlledwr, dylai'r sawl sy'n cwyno ei chyflwyno i Ofcom cyn pen 20 diwrnod gwaith o'r adeg y byddai wedi bod yn rhesymol iddo neu iddi ddisgwyl ymateb neu benderfyniad gan y darlledwr dan ei weithdrefnau.

A1.20 Pan fydd y sawl sy'n cwyno'n cwyno ar yr un pryd wrth y darlledwr ac wrth Ofcom, fel rheol, ni fydd Ofcom yn symud ymlaen i ystyried y gŵyn nes i'r darlledwr gael cyfle yn gyntaf i ddatrys y gŵyn ei hun dan ei weithdrefnau ef. Mewn achos o'r fath, dylai'r sawl sy'n cwyno roi gwybod i Ofcom pan fydd wedi cael ymateb neu benderfyniad y darlledwr, a chadarnhau a yw'n dymuno bwrw ymlaen a'r gŵyn ai peidio. (Bydd yr amser yn dechrau rhedeg o ddyddiad ymateb/penderfyniad y darlledwr fel y nodir ym mharagraff A1.19 uchod).

## Asesiad cychwynnol Ofcom o gŵyn

A1.21 Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darlledwr yn methu cydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Cod Darlledu (neu'r Cod arall y mae'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol iddo) mewn achos penodol. Bydd Ofcom yn cofnodi ac yn cydnabod pob cwyn a gaiff. Fodd bynnag, fel rheol ni fydd yn gohebu ymhellach ag unrhyw rai sy'n cwyno. Bydd Ofcom ei hun yn cynnal proses o asesiad cychwynnol ac ymchwiliad yn unol â pharagraffau A1.22 i A1.28 isod.

A1.22 Yn gyntaf, bydd Ofcom yn ystyried, ar yr wyneb, a yw cwyn yn codi materion a allai fod yn sylweddol dan y Cod Darlledu (neu God arall y mae'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol iddo) a fydd yn cyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom. Bydd yn gwneud hynny gan gyfeirio at ddifrifoldeb a/neu raddfa'r mater dan sylw, gan gynnwys, er enghraifft, a yw'n ymwneud â niwed parhaus, niwed i bobl ifanc dan ddeunaw oed a/neu niwed ariannol.

A1.23 Os yw Ofcom yn credu y dylai asesu'r mater ymhellach, caiff ofyn i'r darlledwr am gopi o'r rhaglen berthnasol ar y cam hwn, ac mae'n rhaid darparu'r copi hwnnw cyn pen pum niwrnod gwaith.[36] Caiff hefyd ofyn am unrhyw dystiolaeth neu ddeunydd cefndir arall a allai, yn ein barn ni, fod yn berthnasol i asesiad cychwynnol Ofcom o'r gŵyn. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn gofyn am sylwadau ysgrifenedig gan y darlledwr ar y cam hwn, fel arfer.

A1.24 Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac adolygiad o'r darllediad perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a gafodd darpariaethau penodol o'r Cod Darlledu (neu God arall y mae'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol iddynt) eu torri sy'n cyfiawnhau ymateb gan y darlledwr yn nhyb Ofcom. Os nad oes, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi ei benderfyniad yn ei Fwletin Broadcast

[35] Dylai darlledwyr gofio bod gofyn iddynt sicrhau bod swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â chwynion ynghylch safonau cynnwys yn cael eu dwyn at sylw'r cyhoedd. (Mae'r rhain yn cynnwys swyddogaethau sy'n galluogi'r rheini sy'n cwyno i ofyn i Ofcom ystyried cwynion pan fyddant yn anfodlon ar ystyriaeth y darlledwr o'r gŵyn. Ymysg pethau eraill, mae Ofcom yn credu y dylai darlledwyr egluro wrth y rheini sy'n cwyno y cyfyngiadau amser sy'n berthnasol ar gyfer mynd ar drywydd cwynion gydag Ofcom).

[36] Mae'n amod o bob trwydded darlledu ei bod yn rhaid i'r sawl sy'n dal y drwydded wneud a chadw copi o recordiad o'i holl raglenni am gyfnod penodol o ddiwrnodau ar ôl darlledu, a rhaid rhoi recordiadau i Ofcom yn dilyn ei gais yn "ddiymdroi".

and On Demand, sy'n cael ei gyhoeddi bob pythefnos ar ei wefan: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

A1.25 Bydd Ofcom yn ceisio cwblhau asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith.

### Ymchwilio i achosion posibl o dorri'r Cod

A1.26 Ac eithrio mewn achosion a ddaw dan baragraff A1.27 isod, pan fydd Ofcom yn credu bod darlledwr wedi methu cydymffurfio â darpariaethau penodol o'r Cod Darlledu (neu God arall y mae'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol iddo), bydd Ofcom yn ysgrifennu at y darlledwr perthnasol. Bydd Ofcom yn crynhoi prif bwyntiau'r gŵyn, yn nodi'r darpariaethau penodol o'r Cod Darlledu (neu arall) y mae'n credu sy'n berthnasol i'r gŵyn, ac yn gwahodd y darlledwr i gyflwyno sylwadau i ymateb i hynny (a darparu unrhyw ddeunyddiau/dystiolaeth berthnasol sy'n cefnogi ei sylwadau) cyn pen 10 diwrnod gwaith. Bydd Ofcom yn cyhoeddi manylion rhaglenni sy'n destun ymchwiliad ar ei wefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/audience-complaints/

A1.27 Efallai fod achosion penodol pan fydd y mater(ion) dan sylw, ar sail y ffeithiau, yn golygu na fydd Ofcom yn credu bod angen gofyn am sylwadau gan y darlledwr ar y cam hwn. Bydd hyn yn digwydd fel rheol pan fydd cwestiwn ynghylch a yw torri Cod perthnasol yn fater o ffeithiau gwrthrychol (er enghraifft, sy'n ymwneud â nifer neu hyd hysbysebion). Yn yr achosion hyn, fel rheol, ni fydd Ofcom yn gofyn am sylwadau'r darlledwr ar y cam hwn (fel ym mharagraff A1.26 uchod). Yn lle hynny, bydd Ofcom yn ysgrifennu at y darlledwr gyda'i Safbwynt Rhagarweiniol ar sylwedd y gŵyn, fel y nodir ym mharagraff 1.30 isod. (Efallai y bydd achosion penodol eraill hefyd pan fydd ffeithiau'r mater(ion) dan sylw, yn golygu ei bod yn briodol dilyn y dull gweithredu hwn).

A1.28 Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r achosion hynny y bydd yn penderfynu ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith.

**Sylwadau gan drydydd partïon**

Mae Ofcom yn cydnabod efallai fod pobl/cyrff y gallai canlyniad ymchwiliad a phenderfyniad Ofcom ynghylch cwyn effeithio arnynt yn uniongyrchol gan fod ganddynt o bosibl fuddiannau sy'n annibynnol ar ddarlledwr perthnasol y rhaglen honno (ee, cyflwynwyr, cynhyrchwyr a/neu wneuthurwyr rhaglenni annibynnol). Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylai darlledwyr geisio ystyried a chynnwys sylwadau pobl/cyrff o'r fath yn eu cyflwyniadau er mwyn ymateb i gŵyn a chadarnhau eu bod wedi gwneud hynny wrth Ofcom.

Fodd bynnag, gall pobl/cyrff o'r fath gyflwyno sylwadau ar eu rhan eu hunain yn uniongyrchol i Ofcom mewn perthynas â chwyn y bydd Ofcom yn bwrw ymlaen i ymchwilio iddi. Mewn achos o'r fath, dylai pobl/cyrff geisio cyflwyno sylwadau i Ofcom cyn gynted ag sy'n bosibl mewn ymchwiliad i gŵyn, gan nodi a yw/i ba raddau y mae eu sylwadau yn wahanol i sylwadau'r darlledwr. Bydd Ofcom yn ystyried y sylwadau hynny fel sy'n briodol ac yn cynnwys y bobl/cyrff hynny yn ei broses gwneud penderfyniadau dan y Gweithdrefnau hyn.

Mae manylion am ymchwiliadau byw Ofcom ar gael yn ei Fwletinau Broadcasting and On Demand yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

Paratoi Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom

A1.29 Bydd Ofcom yn paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol ar ôl ystyried sylwadau ysgrifenedig y darlledwr pan fydd rhai wedi cael eu darparu. Dim ond safbwynt dros dro yw'r Safbwynt Rhagarweiniol hwn a gallai newid gan ddibynnu ar sylwadau/deunyddiau dilynol a ddarperir gan y darlledwr[37]: edrychwch ar baragraffau A1.32 ac A1.33 isod.

A1.30 Bydd yr holl Safbwyntiau Rhagarweiniol drafft yn cael eu rhoi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom[38] i gael eu barn gynghorol. Bydd y penderfyniad ynghylch Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom yn cael ei wneud gan uwch aelod o Fwrdd Gwaith Ofcom a fydd wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd. Fel rheol, dyma fyddai'r sawl sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ymchwiliad. Bydd y Safbwynt Rhagarweiniol yn cynnwys:

- crynodeb o'r gŵyn;
- crynodeb o ddarnau perthnasol y rhaglen/darllediad y mae'r gŵyn yn berthnasol iddynt;
- darpariaethau penodol y Cod Darlledu (neu God arall y mae'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol iddynt) y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r gŵyn; ac
- asesiad rhagarweiniol Ofcom ynghylch a gafodd unrhyw rai o'r darpariaethau hynny eu torri a'r rhesymau dros yr asesiad hwnnw.

A1.31 Os bydd Ofcom yn credu mewn unrhyw achos bod angen cael rhagor o wybodaeth i sicrhau ei fod yn gallu llunio ei Safbwynt Rhagarweiniol yn deg ac yn briodol, gall Ofcom ofyn am wybodaeth o'r fath cyn llunio'r safbwynt hwnnw.

A1.32 Pan fydd Ofcom wedi paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd Ofcom yn ei roi i'r darlledwr (ac unrhyw drydydd parti perthnasol) ac yn gofyn am sylwadau ysgrifenedig cyn pen 10 diwrnod gwaith.

A1.33 Mae Ofcom o'r farn y bydd fel rheol yn gallu penderfynu'n deg ac yn briodol ar ôl cael sylwadau ysgrifenedig a heb gael sylwadau llafar gan y darlledwr. Serch hynny caiff darlledwr, mewn unrhyw achos penodol, wneud cais ysgrifenedig i gyflwyno ei sylwadau ar lafar i Ofcom yn ogystal â chyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig. Bydd Ofcom yn cytuno ar gais o'r fath os yw'n credu bod gwrandawiad llafar yn briodol wrth ystyried natur y tor-amod dan sylw a chymhlethdod y materion a godir[39].

## Y Penderfyniad terfynol

A1.34 Ar ôl i Ofcom gael ac ystyried sylwadau'r darlledwr (a/neu unrhyw sylwadau gan drydydd parti perthnasol) ar ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd yn dod i'w benderfyniad terfynol.

---

[37] gan gynnwys unrhyw drydydd parti perthnasol (gweler y blwch testun "Sylwadau gan drydydd partïon" isod).

[38] Mae'r Bwrdd Cynnwys yn bwyllgor o Brif Fwrdd Ofcom a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad helaeth o ddarlledu. Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/content-board

[39] Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol fyddai'n cadeirio unrhyw wrandawiad llafar

A1.35 Bydd pob penderfyniad drafft yn cael ei roi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom (nad ydynt wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad) i gael eu barn gynghorol cyn gwneud penderfyniad terfynol. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan uwch aelod o bwyllgor gwaith Ofcom gydag awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd, na fydd wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad a/neu'r gwaith o baratoi'r Safbwynt Rhagarweiniol.

### Cyhoeddi Penderfyniad

A1.36 Cyn i Ofcom gyhoeddi'r Penderfyniad, bydd yn rhoi copi o'r Penderfyniad dan embargo i'r darlledwr, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi.

A1.37 Bydd y Penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ym Mwletin Broadcast and On Demand Ofcom ar ei wefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

### Peidio â Datgelu

A1.38 Mae'n rhan hanfodol o integriti prosesau Ofcom a'i allu i reoleiddio'n deg bod pob parti dan sylw yn glynu wrth y rheolau a'r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pheidio â datgelu isod.

**Peidio â Datgelu**

Oni nodir yn wahanol caiff partïon i gŵyn (y rheini sy'n cwyno, darlledwyr, Ofcom ac unrhyw drydydd partïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol) gyhoeddi'r ffaith bod cwyn wedi cael ei gwneud neu fod Ofcom wrthi'n ymchwilio i achos. Mae modd iddynt hefyd ddefnyddio unrhyw wybodaeth sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus.

Serch hynny, ni ddylai'r partïon ddatgelu unrhyw ohebiaeth, dogfennau na deunyddiau eraill sy'n ymwneud â'r gŵyn yn ystod yr ymchwiliad[40].

Gall methu â dilyn y gofynion hyn olygu bod Ofcom yn rhoi'r gorau i ystyried sylwadau'r parti.

Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad[41].

### Cyfyngiadau amser

A1.39 Dylai'r rheini sy'n cwyno a'r darlledwyr gofio'r cyfyngiadau amser a bennir yn y Gweithdrefnau hyn. Serch hynny, efallai fod Ofcom yn credu ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn cynnal ymchwiliad yn briodol) diwygio neu addasu'r cyfyngiadau amser a nodir yn y Gweithdrefnau mewn achos penodol. Dylai unrhyw

[40] Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo fel rhan o gŵyn er mwyn cyflawni dyletswyddau o'r fath.

[41] Caiff Ofcom (wrth ymchwilio ac wrth gyhoeddi ei benderfyniad) ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu os yw'n rhwym wrth ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag cael eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y darlledwr yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

un sy'n cwyno neu unrhyw ddarlledwr y mae eisiau rhagor o amser arno roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu bod hynny'n briodol.

## Sancsiynau

A1.40 Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod y safonau yn adran 319 o Ddeddf 2003 wedi cael eu torri (fel y cânt eu hadlewyrchu yn y darpariaethau perthnasol yn y Cod Darlledu neu God perthnasol arall), gall Ofcom ystyried ei fod yn cyfiawnhau ystyried sancsiwn statudol yn erbyn y darlledwr. Os felly, bydd Ofcom yn egluro hynny yn ei Benderfyniad (dan baragraffau A1.34 a A.35 uchod) a bydd y "Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu" yn berthnasol.[42] Mae'r rhain ar gael ar wefan Ofcom yn [insert link].

## Cyfarwyddiadau

A1.41 Dan y Deddfau Darlledu[43] mae gan Ofcom y pŵer i gyhoeddi cyfarwyddyd yn unol â thrwydded darlledwr.

A1.42 Caiff Ofcom gyhoeddi cyfarwyddyd o'r fath mewn unrhyw achos y mae'n credu sy'n briodol. Gall hyn gynnwys achosion, er enghraifft, lle mae Ofcom yn credu:

- bod y darlledwr wedi torri Cod perthnasol yn ddifrifol, ond nid yw Ofcom yn credu bod hynny'n cyfiawnhau ystyried sancsiwn yn erbyn y darlledwr dan Weithdrefnau Sancsiynau Ofcom y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.38 uchod;
- nad yw darlledwr wedi cydymffurfio'n brydlon ag unrhyw ofyniad perthnasol; a/neu
- y ceir rhesymau eraill sy'n golygu ei bod yn briodol i ddarlledwr gymryd cam penodol.

Bydd Hysbysiad Cyfarwyddyd fel rheol yn cael ei gyhoeddi ar Fwletin Broadcast and On Demand Ofcom.

A1.43 Os na fydd darlledwr yn cydymffurfio â chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Ofcom yn unol â'i drwydded, gall hyn arwain at ystyried sancsiynau statudol yn erbyn y darlledwr (er enghraifft, rhoi cosb ariannol, neu ddirymu trwydded). Mewn achosion o'r fath, byddai'r Weithdrefn Sancsiynau y cyfeirir ati yn y paragraff blaenorol yn berthnasol.

[42] Dan delerau ei Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom, caiff yr Awdurdod Safonau Hysbysebu wneud cais i Ofcom ystyried sancsiwn statudol mewn achos hysbyseb. Mewn achosion o'r fath, fel rheol, bydd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu wedi cyhoeddi bod ei god wedi cael ei dorri.
[43] Gweler, er enghraifft, adrannau 4(2) ac 87(2) Deddf Darlledu 1990.

Atodiad 2

# Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd

## Cyflwyniad

A2.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Gweithdrefnau er mwyn i Ofcom ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd mewn perthynas â rhaglenni[44] sy'n cael eu darlledu ar y teledu ac ar y radio, a chydymffurfiad darlledwyr[45] â "chod tegwch" Ofcom dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd)[46] ("Deddf 1996") gweler y "fframwaith statudol" isod. Daw'r Gweithdrefnau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017.[47]

A2.2 Nid yw'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU na Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU[48]. Mae gweithdrefnau eraill yn berthnasol i'r gwasanaethau hyn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf. Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i gwmnïau darlledu masnachol y BBC sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom.

A2.3 Os bydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn mewn unrhyw ffordd o sylwedd mewn achos penodol am resymau sy'n ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i Ofcom ystyried cwyn neu gynnal ymchwiliad yn briodol, bydd yn ysgrifennu at y partïon dan sylw ymlaen llaw yn nodi natur/graddfa ei wyriad oddi wrthynt, a'r rhesymau dros wneud hynny. (Mae gweithdrefnau ar wahân yn berthnasol i ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer radio a theledu. Mae'r rhain ar gael ar wefan Ofcom[49]).

### Fframwaith statudol

A2.4 Mae gan Ofcom ddyletswydd dan adran 3(2)(f) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") i (ymysg pethau eraill) sicrhau bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd (a phob unigolyn arall) rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath neu darfu ar breifatrwydd yn ddiangen sy'n deillio o weithgareddau sy'n cael eu gwneud ar gyfer gwasanaethau o'r fath. Wrth wneud yn siŵr bod y safonau hyn yn cael eu dilyn, rhaid i Ofcom ystyried yr angen

[44] Mae cyfeiriadau at "raglenni" yn y Gweithdrefnau hyn yn cynnwys hysbysebion, teledestun, is-deitlau ac unrhyw eitem sydd wedi'i chynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio.
[45] Mae cyfeiriadau at "ddarlledwyr" yn y Gweithdrefnau hyn yn cyfeirio at unrhyw ddarlledwr sy'n cael ei drwyddedu a/neu ei reoleiddio gan Ofcom, ac eithrio Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU.
[46] Cafodd Deddf Darlledu 1996 ei diwygio gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[47] Gellir adolygu a diwygio'r Gweithdrefnau sydd yn y ddogfen hon, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig, unrhyw bryd. Bydd unrhyw ddiwygiad mawr yn destun ymgynghoriad ymlaen llaw.
[48] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).
[49] https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures

i'w sicrhau yn y ffordd sy’n rhoi’r sicrwydd gorau y ceir lefel briodol o ryddid mynegiant: adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003.

A2.5 Mae gan Ofcom ddyletswydd benodol dan adran 107 o Ddeddf 1996 i lunio cod sy’n rhoi cyfarwyddyd ynghylch yr egwyddorion a’r arferion sydd i’w dilyn gan ddarlledwyr yng nghyswllt osgoi triniaeth annheg neu anghyfiawn[50] mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu mewn cysylltiad â chael deunyddiau sydd yn y rhaglenni). At ddibenion y ddyletswydd honno, mae Ofcom yn defnyddio’r darpariaethau yn Adrannau Saith (“Tegwch”) ac Wyth (“Preifatrwydd”) Cod Darlledu Ofcom (“y Cod Darlledu”)[51] ac mae darlledwyr yn rhwym drwy delerau amodau eu trwydded i lynu wrth ddarpariaethau’r Cod Darlledu wrth ddarparu eu gwasanaethau ac mewn perthynas â rhaglenni sy’n cael eu cynnwys yn eu gwasanaethau.

A2.6 Dan adran 110 o Ddeddf 1996 (ac yn amodol ar ddarpariaethau eraill Rhan 5 o Ddeddf 1996) mae gan Ofcom hefyd ddyletswydd benodol i ystyried ac i ddyfarnu ar gwynion ynghylch triniaeth anghyfiawn neu annheg mewn rhaglenni neu darfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu mewn perthynas â chael deunyddiau sydd wedi'u cynnwys ynddynt). (Cyfeirir at y rhain gyda’i gilydd isod fel “Cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd”). Mae Adrannau 111 i 130 o Ddeddf 1996 yn darparu ar gyfer rhai meini prawf statudol penodol y mae’n rhaid eu diwallu cyn i Ofcom allu bwrw ymlaen i ystyried cwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd, yn ogystal â gweithdrefnau penodol sydd i’w dilyn gan Ofcom, y rheini sy’n cwyno a darlledwyr.

A2.7 Serch hynny, mewn amgylchiadau eithriadol, pan fydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003 i sicrhau gweithredu safonau sy’n rhoi amddiffyniad digonol i aelodau’r cyhoedd (a phob unigolyn arall) rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen, gall Ofcom ystyried materion tegwch neu breifatrwydd os nad oes cwyn gan "y sawl yr effeithir arno" (gweler paragraff 1.8 a'r blwch testun Penderfyniad Ystyriaeth isod). Yn yr amgylchiadau eithriadol hynny, byddai Ofcom yn datgan ymlaen llaw y gweithdrefnau mae’n bwriadu eu dilyn[52]. Byddai’r gweithdrefnau’n debyg i’r rhain ond yn cael eu haddasu fel sy’n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn deg yn yr amgylchiadau penodol.

## Gweithdrefnau

### Cwyno: pwy sy’n cael cwyno

A2.8 Mae modd i unigolyn neu gorff o bobl (p’un ai ydynt yn gorfforedig ai peidio) wneud cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd. Serch hynny, fel rheol, mae gan Ofcom ddyletswydd i beidio ag ystyried cwyn o’r fath oni bai ei bod yn cael ei gwneud gan “y sawl yr effeithir arno” neu gan rywun sydd wedi’i awdurdodi ganddo neu ganddi i wneud y gŵyn ar ei ran neu ei rhan: i gael rhagor o fanylion ynghylch pwy sy’n cael cwyno, darllenwch y blwch testun Penderfyniadau i Ystyried isod.

[50] Caiff triniaeth anghyfiawn neu annheg ei diffinio gan adran 130 o Ddeddf 1996 fel triniaeth sy’n anghyfiawn neu’n annheg oherwydd y ffordd cafodd deunyddiau mewn rhaglen eu dewis neu eu trefnu.

[51] http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/

[52] Fel y bydd Ofcom yn ei wneud, er enghraifft, mewn perthynas â chwynion sy’n cael eu gwneud i’r Pwyllgor Etholiadau.

A2.9 Mae Ofcom yn annog y rheini sydd â chwynion am Degwch a/neu Breifatrwydd i ddilyn trefn gwyno'r darlledwr cyn cyflwyno cwyn i Ofcom. Mae manylion cyswllt pob darlledwr radio a theledu ar gael ar wefan Ofcom yn http://licensing.ofcom.org.uk/tv-broadcast-licences/current-licensees/ a http://licensing.ofcom.org.uk/radio-broadcast-licensing/. Os na fydd y sawl sy'n cwyno yn fodlon ar ymateb y darlledwr i'w cwyn, mae modd cyflwyno'r gŵyn i Ofcom. Serch hynny, mae modd hefyd cyflwyno cwynion yn uniongyrchol i Ofcom yn y lle cyntaf: edrychwch ar baragraffau A2.13 i A2.17 i gael gweld y terfynau amser ar gyfer cyflwyno cwyn.

## Ffurf y gŵyn a'r wybodaeth i'w darparu

A2.10 Rhaid cyflwyno cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd i Ofcom yn ysgrifenedig. Fel rheol bydd Ofcom yn ystyried cwynion o'r fath dim ond os ydynt wedi cael eu cyflwyno drwy lenwi ffurflen Cwyn Tegwch a Phreifatrwydd Ofcom. (Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan Ofcom yn http://www.ofcom.org.uk/complain/progs/specific/?itemid=353159 neu drwy gysylltu ag: Ofcom, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, Llundain SE1 9HA, Rhif Ffôn 0300 123 3333 neu 020 7981 3040).

A2.11 Dylai pob cwyn gynnwys:

- enw/teitl y rhaglen mae'r gŵyn yn berthnasol iddi;
- dyddiad ac amser y rhaglen;
- sianel darlledu'r rhaglen;
- statws y sawl sy'n cwyno (hy ai'r "sawl yr effeithiwyd arno" yw'r sawl sy'n cwyno neu rywun sydd wedi'i awdurdodi gan y "sawl yr effeithiwyd arno" i gwyno ar ei ran: edrychwch ar y blwch testun Penderfyniadau Ystyriaeth isod);
- natur y gŵyn a (phan fo'n bosibl) rhannau penodol y rhaglen mae'r gŵyn yn berthnasol iddynt;
- manylion cyswllt llawn y sawl sy'n cwyno (gan gynnwys cyfeiriad e-bost pan fo'n briodol);
- a yw'r sawl sy'n cwyno (ac, os felly, pryd) wedi cyflwyno cwyn i'r darlledwr dan sylw (a manylion hynny); ac
- unrhyw ddeunyddiau/dystiolaeth ategol mae'r sawl sy'n cwyno'n credu sy'n berthnasol i sylwedd y gŵyn a/neu eu sefyllfa i gwyno.

A2.12 Mae'n bwysig iawn bod y sawl sy'n cwyno'n darparu cymaint â phosibl o'r manylion hyn wrth gwyno. Gall methu darparu'r manylion hyn rwystro Ofcom rhag adnabod y rhaglen o fewn cyfnod rhesymol ac fe allai olygu oedi neu atal Ofcom rhag gallu ystyried y gŵyn.

## Cyfyngiadau amser ar gwyno

A2.13 Caiff Ofcom wrthod ystyried cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd os yw'n ymddangos na chafodd ei gwneud o fewn cyfnod rhesymol ar ôl y tro diwethaf i'r rhaglen berthnasol gael ei darlledu: adran 111(5) o Ddeddf 1996. Yn unol â hynny, dylai'r rheini sy'n cwyno gyflwyno eu cwyn i Ofcom cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r

rhaglen berthnasol gael ei darlledu. Fel rheol, ni fydd Ofcom yn derbyn cwyn sy'n cael ei chyflwyno ar ôl y dyddiad cau hwn.

A2.14 Pan fydd cwyn yn cael ei chyflwyno dros 20 diwrnod gwaith ar ôl y darllediad, dylai'r rheini sy'n cwyno egluro pam na chafodd y gŵyn ei chyflwyno'n gynharach. Bydd Ofcom wedyn yn pwyso ac yn mesur yr holl ffactorau perthnasol (gan gynnwys esboniad y sawl sy'n cwyno dros yr oedi cyn cyflwyno'r gŵyn) a phenderfynu a yw'n briodol iddo ystyried y gŵyn er gwaethaf yr oedi cyn ei chyflwyno.

A2.15 Pan fydd y sawl sy'n cwyno eisoes wedi cwyno'n uniongyrchol wrth y darlledwr, dylai'r sawl sy'n cwyno aros i gael gweld a yw'n fodlon ar ymateb y darlledwr (yn unol â gweithdrefn cwyno'r darlledwr ei hun) cyn ei chyfeirio at Ofcom.[53] Os nad yw'n fodlon, dylai'r sawl sy'n cwyno gyfeirio'r gŵyn at Ofcom (ynghyd ag ymateb y darlledwr) cyn gynted ag sy'n bosibl, ac yn sicr cyn pen 20 diwrnod gwaith o ymateb neu benderfyniad terfynol y darlledwr perthnasol dan ei weithdrefnau. Os nad yw'r sawl sy'n cwyno wedi cael ymateb na phenderfyniad i'w gŵyn gan y darlledwr, dylai'r sawl sy'n cwyno ei chyflwyno i Ofcom cyn pen 20 diwrnod gwaith o'r adeg y byddai wedi bod yn rhesymol iddo neu iddi ddisgwyl ymateb neu benderfyniad gan y darlledwr dan ei weithdrefnau.

A2.16 Pan fydd y sawl sy'n cwyno'n cwyno ar yr un pryd wrth y darlledwr ac wrth Ofcom, fel rheol, ni fydd Ofcom yn symud ymlaen i ystyried y gŵyn nes i'r darlledwr gael cyfle yn gyntaf i ddatrys y gŵyn ei hun dan ei weithdrefnau ef. Mewn achos o'r fath, dylai'r sawl sy'n cwyno roi gwybod i Ofcom pan fydd wedi cael ymateb neu benderfyniad y darlledwr, a chadarnhau a yw'n dymuno bwrw ymlaen a'r gŵyn ai peidio. (Bydd yr amser yn dechrau rhedeg o ddyddiad ymateb/penderfyniad y darlledwr fel y nodir ym mharagraff A2.14 uchod).

A2.17 Mewn achosion pan fydd cwyn yn cael ei gwneud dan weithdrefnau cwynion y darlledwr ei hun, bydd Ofcom yn disgwyl i'r darlledwr gadw'r recordiadau perthnasol, ac unrhyw ddeunyddiau perthnasol, am nifer y diwrnodau sy'n ofynnol yn ôl statud[54], ond gan redeg o'r dyddiad y byddai'n rhesymol i'r darlledwr ddisgwyl bod y sawl sy'n cwyno wedi cael penderfyniad terfynol y darlledwr.

## Asesu a ddylid ystyried cwyn

A2.18 Pan fydd cwyn yn cyrraedd Ofcom, bydd yn anfon copi o'r gŵyn ymlaen at y darlledwr ac yn gofyn iddo ddarparu recordiad o'r rhaglen cyn pen pum niwrnod gwaith.[55] Ar y cam hwn, ni fyddwn fel arfer yn gofyn i'r darlledwr gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ynghylch sylwedd y gŵyn.

[53] Dylai darlledwyr gofio bod gofyn iddynt sicrhau bod swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â chwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd yn cael eu dwyn at sylw'r cyhoedd. (Mae'r rhain yn cynnwys swyddogaethau sy'n galluogi'r rheini sy'n cwyno i ofyn i Ofcom ystyried cwynion pan fyddant yn anfodlon ar ystyriaeth y darlledwr o'r gŵyn. Ymysg pethau eraill, mae Ofcom yn credu y dylai darlledwyr egluro wrth y rheini sy'n cwyno y cyfyngiadau amser sy'n berthnasol ar gyfer mynd ar drywydd cwynion gydag Ofcom).

[54] Dyma'r gofynion statudol, a ddaw o adran 117 o Ddeddf 1996, ac adran 334 o Ddeddf 2003. Rhaid i ddarlledwyr gadw recordiadau o raglenni radio am 42 diwrnod ar ôl y darllediad. Rhaid cadw recordiadau o raglenni teledu am 60 diwrnod ac eithrio yn achos ITV1, Channel 4, Channel 5 ac S4C sy'n gorfod cadw recordiadau am 90 diwrnod.

[55] Mae'n amod o bob trwydded darlledu ei bod yn rhaid i'r sawl sy'n dal y drwydded wneud a chadw copi o recordiad o'i holl raglenni am gyfnod penodol o ddiwrnodau ar ôl darlledu (edrychwch ar y cyfnodau yn y troednodyn uchod a pharagraff 1.17 uchod). Os bydd Ofcom yn gwneud cais, rhaid i'r

A2.19 Os bydd Ofcom yn credu bod angen rhagor o wybodaeth arno gan y sawl sy’n cwyno ar y cam hwn (er enghraifft, am eu statws i wneud cwyn ar eu pen eu hunain neu ar ran rhywun arall, neu am sylwedd eu cwyn), bydd yn ysgrifennu at y sawl sy’n cwyno yn gofyn am wybodaeth o’r fath a bydd hefyd yn ei darparu i’r darlledwr.

A2.20 Bydd Ofcom wedyn yn penderfynu a fydd yn ystyried y gŵyn neu beidio. Penderfyniad Ystyriaeth yw’r enw ar y penderfyniad hwn.

A2.21 Nod Ofcom yw asesu a phenderfynu a yw am ystyried cwyn ai peidio cyn pen 25 diwrnod o dderbyn y gŵyn ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy’n cwyno (fel y nodir ym mharagraff A2.19).

**Penderfyniadau i Ystyried**

Fel yr eglurir uchod, mae cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd yn gwynion am driniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu’n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt).

Mae modd i unigolyn neu gorff o bobl (p’un ai ydynt yn gorfforedig ai peidio) wneud y cwynion hyn. Serch hynny, fel rheol ni fydd Ofcom yn ystyried cwyn o’r fath oni bai ei bod yn cael ei gwneud gan “y sawl yr effeithir arno” neu gan rywun sydd wedi’i awdurdodi gan “y sawl yr effeithir arno” i wneud y gŵyn ar ei ran neu ei rhan: adran 111(1) o Ddeddf 1996.[56]

Mae’r “Sawl yr Effeithiwyd Arno” yn derm statudol a ddiffinnir gan adran 130 o Ddeddf 1996.

Mewn perthynas â chwyn Tegwch h.y. cwyn am driniaeth anghyfiawn neu annheg mewn rhaglen, mae’r “sawl yr effeithiwyd arno” yn golygu:

- cyfranogwr yn y rhaglen dan sylw a gafodd ei drin yn y ffordd honno (mae "cyfranogwr" yn golygu rhywun a oedd yn ymddangos, neu y cafodd ei lais ei glywed, yn y rhaglen); neu
- unigolyn, boed yn gyfranogwr ai peidio, a oedd â budd uniongyrchol ym mhwnc y driniaeth honno.

Mewn perthynas â chwyn Preifatrwydd, h.y. cwyn am darfu’n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglen/rhaglenni, neu yng nghyswllt cael gafael ar ddeunyddiau wedi’u cynnwys mewn rhaglen/rhaglenni, mae’r “sawl yr effeithiwyd arno” yn golygu rhywun y tarfwyd ar ei breifatrwydd.

darlledwr gyflwyno copi i Ofcom o’r recordiad y mae cwyn ynghylch Tegwch a Phreifatrwydd yn berthnasol iddo.

[56] Mae hyn yn amodol ar eithriadau. Pan fydd “y sawl yr effeithiwyd arno” yn unigolyn sydd wedi marw, mae modd i’w gynrychiolydd personol cyflwyno cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd ar ei ran neu aelod o deulu’r sawl yr effeithiwyd arno, neu unigolyn neu gorff arall sydd â chysylltiad agos ag ef neu hi (yn gyflogwr, neu yn gorff yr oedd yn aelod ohono ar yr adeg y bu farw, neu mewn unrhyw ffordd arall). Yn yr un modd, pan fydd “y sawl yr effeithiwyd arno” yn unigolyn sydd am ryw reswm neu’i gilydd yn methu cwyno ei hun ac yn methu awdurdodi rhywun arall i wneud hynny ar ei ran, mae modd i aelod o deulu'r "sawl yr effeithiwyd arno" gwyno, neu unrhyw unigolyn neu gorff arall sydd â chysylltiad agos ag ef (yn gyflogwr, neu'n gorff y mae'n aelod ohono, neu mewn unrhyw ffordd arall): edrychwch ar adran 111(2)a(3). (Bydd hyn yn briodol os na all “y sawl yr effeithiwyd arno” roi ei awdurdod oherwydd, er enghraifft, ei fod dan 16 oed).

Mae Deddf 1996 wedyn yn gosod nifer o feini prawf statudol eraill y mae'n rhaid eu bodloni cyn i Ofcom allu ystyried neu symud ymlaen i ystyried cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd. Yn benodol, mae gan Ofcom ddyletswydd i beidio ag ystyried cwyn os yw'n ymddangos i Ofcom:

- bod tesun y gŵyn yn desun achos mewn llys barn yn y DU; neu
- bod testun y gŵyn yn fater y mae gan y sawl sy'n cwyno neu'r sawl yr effeithiwyd arno rwymedi ar ei gyfer drwy gyfrwng achos mewn llys barn yn y DU, ac yn yr amgylchiadau penodol nid yw'n briodol i Ofcom ystyried cwyn yn ei gylch; neu
- mae'r gŵyn yn wamal; neu
- am unrhyw reswm arall mae'n amhriodol i Ofcom ystyried neu fwrw ymlaen i ystyried y gŵyn.

  (Os daw unrhyw un o'r materion uchod yn amlwg i Ofcom wrth iddo ystyried cwyn, caiff roi'r gorau i fwrw ymlaen i ystyried y gŵyn).

A2.22 Bydd y sawl sy'n cwyno a'r darlledwr yn cael copi o Benderfyniad Ystyriaeth Ofcom yn datgan a fydd Ofcom (ac i ba raddau) yn bwrw ymlaen i ystyried y gŵyn[57]: edrychwch ar baragraff A2.24 isod.

A2.23 Ni fydd yr holl gwynion (na rhannau o gwynion) a geir yn dod dan gylch gwaith Tegwch a Phreifatrwydd Ofcom. Os bydd Ofcom yn credu bod y gŵyn yn codi materion eraill (nad ydynt yn ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd) sy'n dod o dan gylch gwaith ehangach Ofcom, bydd y gŵyn yn cael ei throsglwyddo i adran briodol o Ofcom i'w hasesu. (Er enghraifft, os bydd cwyn yn cael ei gwneud mewn perthynas â safonau cynnwys cyffredinol dan adran 319 o Ddeddf 2003, bydd "Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio" yn berthnasol. Mae'r rhain ar gael ar wefan Ofcom yn: [insert link]).

## Sylwadau

A2.24 Os bydd Ofcom yn ystyried cwyn, yna ar yr un pryd ag y bydd yn darparu'r Penderfyniad Ystyriaeth i'r darlledwr perthnasol (dan baragraff A1.22 uchod), bydd Ofcom hefyd yn gofyn i'r darlledwr ddarparu datganiad i ymateb i'r gŵyn cyn pen 20 diwrnod gwaith. Wrth wneud hynny, bydd Ofcom yn nodi'r darpariaethau yn y Cod Darlledu sydd, yn ei farn ef, yn berthnasol i'w ystyriaethau dilynol o'r gŵyn, ac yn gofyn am sylwadau gan y darlledwr ar y sail honno. Caiff Ofcom hefyd wneud cais i'r darlledwr ddarparu trawsgrifiad o'r rhaglen berthnasol, ynghyd ag unrhyw ddogfennau neu ddeunyddiau perthnasol eraill.

A2.25 Ar ôl derbyn datganiad/sylwadau'r darlledwr, bydd Ofcom yn rhoi copi i'r sawl sy'n cwyno.

## Paratoi Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom

[57] Bydd manylion yr holl raglenni yr ymchwilir iddyn nhw (hy os ystyrir cwyn ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd), yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/audience-complaints/

A2.26 Bydd Ofcom wedyn yn paratoi Safbwynt Rhagarweiniol ar sylwedd y gŵyn ar ôl ystyried datganiad/sylwadau'r darlledwr pan fydd rhai wedi cael eu darparu. Dim ond dros dro yw'r Safbwynt Rhagarweiniol hwn a gallai newid yng ngoleuni sylwadau/deunyddiau dilynol a fydd yn cael eu darparu gan y sawl sy'n cwyno a'r darlledwr:[58] gweler paragraffau 2.28 ac 2.29 isod.

A2.27 Bydd yr holl Safbwyntiau Rhagarweiniol drafft yn cael eu rhoi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom[59] i gael eu barn gynghorol. Bydd y penderfyniad ynghylch Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom yn cael ei wneud gan uwch aelod o Fwrdd Gwaith Ofcom a fydd wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd. Fel rheol, dyma fyddai'r sawl sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ymchwiliad. Bydd y Safbwynt Rhagarweiniol yn cynnwys:

- crynodeb o'r gŵyn sy'n cael ei hystyried (neu rannau penodol o'r gŵyn sydd wedi cael eu hystyried) fel y nodir yn y Penderfyniad i Ystyried perthnasol;
- crynodeb o ddarnau perthnasol y rhaglen(ni) y mae'r gŵyn yn berthnasol iddynt;
- darpariaethau penodol y Cod Darlledu y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r gŵyn sy'n cael ei hystyried;
- crynodeb o ddatganiad y darlledwr o sylwadau mewn ymateb; ac
- asesiad rhagarweiniol Ofcom ynghylch a gafodd unrhyw rai o'r darpariaethau hynny eu torri a'r rhesymau dros yr asesiad hwnnw.

A2.28 Bydd Ofcom wedyn yn rhoi'r Safbwynt Rhagarweiniol i'r sawl sy'n cwyno ac yn gofyn am sylwadau cyn pen 10 diwrnod gwaith. Ar ôl cael unrhyw sylwadau gan y sawl sy'n cwyno, bydd Ofcom yn rhoi'r Safbwynt Rhagarweiniol a'r sylwadau hynny i'r darlledwr, ac yn gofyn am ei sylwadau cyn pen 10 diwrnod gwaith. Mewn rhai amgylchiadau, gall Ofcom benderfynu ei bod yn briodol, yn deg ac yn angenrheidiol cynnal gwrandawiad cyn dod i benderfyniad[60] (gweler y blwch "Gwrandawiadau" isod). Pan fydd yn gwneud hynny, bydd Ofcom yn paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol ar ôl iddo gynnal y gwrandawiad.

A2.29 Ar ôl i Ofcom gael ac ystyried sylwadau'r darlledwr a'r sawl sy'n cwyno (neu unrhyw sylwadau gan drydydd partïon perthnasol (gweler y testun perthnasol isod) am ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd yn gwneud ei Ddyfarniad terfynol. Os bydd Ofcom yn credu bod angen cael rhagor o wybodaeth gan y naill barti neu'r llall[61] i wneud yn siŵr ei fod yn gallu dyfarnu'n deg ac yn briodol ynghylch y gŵyn (er enghraifft, os oes anghydfod sylweddol am ffeithiau rhwng y sawl sy'n cwyno a'r darlledwr), gall Ofcom ofyn am ragor o wybodaeth o'r fath.

A2.30 Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, o fewn 90 diwrnod gwaith i ystyried y gŵyn.

---

[58] gan gynnwys unrhyw drydydd parti perthnasol (gweler y blwch testun "Sylwadau gan drydydd partïon" isod).
[59] Mae'r Bwrdd Cynnwys yn bwyllgor o Brif Fwrdd Ofcom a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad helaeth o ddarlledu. Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/content-board
[60] Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol fyddai'n cadeirio unrhyw wrandawiad llafar
[61] neu drydydd parti perthnasol.

**Gwrandawiadau**

Bydd cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd sy'n cael eu gwneud i Ofcom yn cael eu hystyried naill ai mewn gwrandawiad, neu os bydd Ofcom yn meddwl bod hynny'n addas, heb wrandawiad. Fel rheol bydd Ofcom yn cynnal gwrandawiad llafar os yw'n ystyried bod angen un i sicrhau bod modd iddo ddyfarnu'n deg ac yn briodol ynghylch y gŵyn. Er enghraifft, os oes anghydfod sylweddol o ran ffeithiau rhwng y sawl sy'n cwyno a'r darlledwr. Fel rheol, bydd Ofcom yn rhoi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd o ddyddiad y gwrandawiad i'r partïon. Gellir cynnal gwrandawiadau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban fel sy'n briodol.

Caiff gwrandawiadau eu cynnal yn breifat a bydd pob un o'r unigolion canlynol yn cael cyfle i fod yn bresennol i roi sylwadau llafar:

(a) y sawl sy'n cwyno;

(b) y darlledwr perthnasol;

(c) y gwneuthurwr rhaglenni sy'n gyfrifol am wneud y rhaglen y mae'r gŵyn yn ei chylch (os yw'n wahanol i'r darlledwr perthnasol); ac

(d) unrhyw un arall mae Ofcom yn credu a allai helpu yn y gwrandawiad.

Caiff pob un o'r partïon ddod â rhywun arall i'r gwrandawiad (fel rheol hyd at dri unigolyn arall). Dylid rhoi eu henwau, eu cysylltiad â'r achos a disgrifiad o'r swyddogaeth maent yn bwriadu ei chyflawni yn y gwrandawiad i Ofcom, o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Rhaid i Ofcom hefyd gael gwybod os bydd unrhyw un sy'n dod i wrandawiad dan 16 oed.

Bydd y drefn yn y gwrandawiad yn ôl disgresiwn Ofcom. Bydd Ofcom yn ysgrifennu at y partïon cyn unrhyw wrandawiad i nodi beth fydd y drefn.[62]

### Cyflwyno deunyddiau/sylwadau yn hwyr

A2.31 Dylai ond pan ofynnir iddynt wneud hynny ar y camau priodol yn y Gweithdrefnau hyn y dylai partïon gyflwyno sylwadau a deunyddiau/tystiolaeth berthnasol i Ofcom. Fel rheol ni fydd Ofcom yn derbyn unrhyw sylwadau neu ddeunyddiau a gyflwynir ar ôl iddo symud ymlaen i ddrafftio ei Ddyfarniad terfynol (gweler paragraff 1.32 isod).

A2.32 Ofcom fydd yn penderfynu a fydd deunyddiau o'r fath yn cael eu caniatáu. Os bydd deunyddiau nas gofynnwyd amdanynt yn cael eu caniatáu, byddant yn cael eu darparu i'r parti arall a fydd wedyn yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau arnynt.

**Sylwadau gan drydydd partïon**

Mae Ofcom yn cydnabod efallai fod pobl/cyrff y gallai canlyniad ystyriaeth a dyfarniad Ofcom ynghylch cwyn effeithio arnynt yn uniongyrchol gan fod ganddynt o bosibl fuddiannau sy'n annibynnol ar ddarlledwr perthnasol y rhaglen honno (er enghraifft, cyflwynwyr, cynhyrchwyr a/neu wneuthurwyr

[62] Ynghyd â manylion pwy fydd yn bresennol o Ofcom, gan gynnwys unrhyw Aelodau Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom.

rhaglenni annibynnol). Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylai darlledwyr geisio ystyried a chynnwys sylwadau pobl/cyrff o'r fath yn eu cyflwyniadau er mwyn ymateb i gŵyn a chadarnhau eu bod wedi gwneud hynny wrth Ofcom.

Fodd bynnag, gall pobl/cyrff o'r fath gyflwyno sylwadau ar eu rhan eu hunain yn uniongyrchol i Ofcom mewn perthynas â chwyn y bydd Ofcom yn bwrw ymlaen i ymchwilio iddi. Mewn achos o'r fath, dylai pobl geisio cyflwyno sylwadau i Ofcom cyn gynted ag sy'n bosibl mewn ymchwiliad i gŵyn, gan nodi a yw/i ba raddau y mae eu sylwadau yn wahanol i sylwadau'r darlledwr. Bydd Ofcom yn ystyried y sylwadau hynny fel sy'n briodol ac yn cynnwys y bobl/cyrff hynny yn ei broses gwneud penderfyniadau dan y Gweithdrefnau hyn.

Bydd manylion yr holl raglenni yr ymchwilir iddyn nhw (h.y. os oes cwyn ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd wedi cael ei hystyried), yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom yn:
http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/audience-complaints/

## Y Dyfarniad terfynol a chyhoeddi

A2.33 Ar ôl i Ofcom gasglu ac ystyried y dystiolaeth berthnasol a'r sylwadau (ysgrifenedig/llafar) a gyflwynwyd gan y partïon, bydd Ofcom yn cwblhau ei waith yn ystyried y gŵyn drwy baratoi Dyfarniad Terfynol a fydd yn nodi a fydd y gŵyn yn cael ei chadarnhau, ddim yn cael ei chadarnhau, neu'n cael ei chadarnhau'n rhannol. Bydd pob Dyfarniad drafft yn cael ei roi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom (nad ydynt wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o baratoi'r Safbwynt Rhagarweiniol) i gael eu barn gynghorol cyn gwneud Dyfarniad terfynol. Bydd y penderfyniad a'r Dyfarniad terfynol yn cael eu gwneud gan uwch aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom gydag awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd a fydd wedi goruchwylio'r gwaith o baratoi'r Dyfarniad drafft ac na fydd wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad a/neu baratoi'r Penderfyniad i Ystyried a/neu'r Safbwynt Rhagarweiniol.

A2.34 Cyn i Ofcom gyhoeddi ei Ddyfarniad terfynol, bydd yn rhoi copi drafft o'r Dyfarniad terfynol dan embargo i'r darlledwr a'r sawl a oedd yn cwyno, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi.

A2.35 Bydd y dyfarniadau'n cael eu cyhoeddi ym mwletin Ofcom, *Broadcast and On Demand,* ar ei wefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

A2.36 Os caiff cwyn ei chynnal neu ei chynnal yn rhannol, caiff Ofcom gyfarwyddo'r darlledwr i ddarlledu crynodeb o'i Ddyfarniad. Fel rheol, bydd Ofcom yn gwneud cyfarwyddyd o'r fath pan fydd adrannau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Darlledu Ofcom wedi cael eu torri sydd wedi arwain at fuddiannau cyfreithlon rhywun sy'n cwyno yn cael eu niweidio'n ddifrifol ac sy'n galw am gyhoeddi sy'n fwy na'r hyn a gyhoeddir ym Mwletin Ofcom.[63] Bydd unrhyw benderfyniad i roi cyfarwyddyd yn adlewyrchu dyletswyddau Ofcom i fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'i dargedu dim ond at yr achosion sy'n haeddu cael sylw ym marn Ofcom.

[63] Ond efallai y bydd Ofcom hefyd yn rhoi cyfarwyddyd o'r fath mewn achosion eraill y mae'n credu bod cyhoeddi yn ychwanegol at gyhoeddi ym Mwletin Ofcom (the Broadcast and On-demand Bulletin) yn briodol.

## Peidio â Datgelu

A2.37 Mae'n rhan hanfodol o integriti prosesau Ofcom a'i allu i ddyfarnu'n deg bod pob parti dan sylw yn glynu wrth y rheolau a'r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pheidio â datgelu isod.

> **Peidio â Datgelu**
>
> Oni nodir yn wahanol caiff partïon cwyn (y rheini sy'n cwyno, y darlledwr, Ofcom ac unrhyw drydydd parti perthnasol) gyhoeddi'r ffaith bod cwyn wedi cael ei gwneud neu fod Ofcom wrthi'n ymchwilio i achos. Mae modd iddynt hefyd ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus.
>
> Serch hynny, ni ddylai'r partïon ddatgelu unrhyw ohebiaeth, dogfennau na deunyddiau eraill sy'n ymwneud â'r gŵyn yn ystod yr ymchwiliad.[64] Cyn penderfyniad terfynol Ofcom, bydd pwy ydy rhywun sy'n cwyno ond yn cael ei ddatgelu gan y BBC neu gan drydydd parti i'r rheini sydd â buddiant uniongyrchol yn y mater sy'n destun y gŵyn.
>
> Gall methu â dilyn y gofyniad hwn olygu bod Ofcom yn rhoi'r gorau i ystyried sylwadau'r parti.
> Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad.[65]

## Cyfyngiadau amser

A2.38 Dylai'r rheini sy'n cwyno a'r darlledwyr gofio'r cyfyngiadau amser a bennir yn y Gweithdrefnau hyn. Serch hynny, efallai fod Ofcom yn credu ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn ystyried cwyn yn iawn) diwygio neu addasu'r cyfyngiadau amser a nodir yn y Gweithdrefnau hyn mewn achos penodol. Dylai unrhyw un sy'n cwyno neu unrhyw ddarlledwr y mae eisiau rhagor o amser arno roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu bod hynny'n briodol. Bydd Ofcom wedyn yn penderfynu a yw estyniad yn briodol ac yn rhoi gwybod i'r parti/partïon eraill yn unol â hynny.

## Sancsiynau

A2.39 Yng ngoleuni ei ddyfarniad ynghylch cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd, gall Ofcom gredu bod cyfiawnhad dros ystyried sancsiwn statudol yn erbyn y darlledwr. Os felly, bydd Ofcom yn egluro hynny yn ei Ddyfarniad a bydd y "Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu" wedyn yn berthnasol. Mae'r rhain ar gael ar wefan Ofcom yn [Link].

---

[64] Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo fel rhan o gŵyn er mwyn cyflawni dyletswyddau o'r fath.

[65] Caiff Ofcom (wrth ymchwilio i'w Ddyfarniad a'i gyhoeddi) ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu eu bod dan unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y darlledwr yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

Atodiad 3

# Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu

## Cyflwyniad

A3.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Gweithdrefnau cyffredinol Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion posibl o dorri amodau gan ddarlledwyr[66] ("y Gweithdrefnau Cyffredinol") nad ydynt yn dod o dan unrhyw rai o'r gweithdrefnau penodol a nodir isod ym mharagraff A3.11.

A3.2 Y Gweithdrefnau Cyffredinol a nodir yn y ddogfen hon ydy'r rheini y bydd Ofcom fel rheol yn eu dilyn er mwyn ymchwilio i weld a dorrwyd "gofyniad perthnasol" (fel y nodir ym mharagraff A3.13 isod), cyn bod modd cymryd unrhyw gamau dan y *Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu* ("y Gweithdrefnau Sancsiynau").[67]

A3.3 Nid yw'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU na Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU[68]. Mae gweithdrefnau eraill yn berthnasol i'r gwasanaethau hyn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i gwmnïau darlledu masnachol y BBC sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom.

A3.4 Mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol a nodir yn y ddogfen hon yn dod i rym ar 3 Ebrill 2017.

A3.5 Os bydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau Cyffredinol hyn mewn unrhyw ffordd o sylwedd mewn achos penodol am resymau sy'n ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i Ofcom ystyried cwyn neu gynnal ymchwiliad yn briodol, bydd yn ysgrifennu at y darlledwr dan sylw (ac unrhyw bartïon perthnasol eraill) ymlaen llaw yn nodi natur/graddfa ei wyriad oddi wrthynt a'i resymau dros wneud hynny.

## Fframwaith statudol

A3.6 Y prif statudau sy'n llywodraethu darlledu ydy Deddf Darlledu 1990 ("Deddf 1990"), Deddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") a Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003"). Mae'r statudau hyn yn rhoi dyletswyddau cyffredinol ar Ofcom mewn perthynas â darlledu, ac yn cynnwys dyletswydd i sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o

[66] Mae cyfeiriadau at "ddarlledwyr" yn y Gweithdrefnau cyffredinol hyn yn cyfeirio at unrhyw ddarlledwr radio neu deledu sy'n cael ei drwyddedu a/neu ei reoleiddio gan Ofcom.
[67] http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/procedures-statutory-sanctions/.
[68] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).

ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau (adran 3(2)(c) o Ddeddf 2003).

A3.7 Mae gan Ofcom ddyletswyddau mwy penodol hefyd mewn perthynas â, er enghraifft:[69]

- y gofyniad ei bod yn rhaid i rai mathau o orsafoedd radio ddarparu mathau penodol o gerddoriaeth neu gynnwys llafar (adrannau 106 o Ddeddf 1990 a 314 o Ddeddf 2003);
- y gofynion sy'n ymwneud â rhaglenni annibynnol, gwreiddiol a rhanbarthol ar wasanaethau teledu gwasanaeth cyhoeddus (Pennod 4 o Ran 3 o Ddeddf 2003);
- y gofynion mewn trwyddedau teledu sy'n ymwneud â chynyrchiadau Ewropeaidd a chynyrchiadau annibynnol Ewropeaidd (adran 335 o Ddeddf 2003);
- darparu gwasanaethau is-deitlo, arwyddo a disgrifiadau sain ar wasanaethau teledu perthnasol (adrannau 303 i 307 o Ddeddf 2003); a
- defnyddio rheolau sy'n cyfyngu ar y rheini sydd efallai'n dal trwyddedau darlledu (adrannau 5 ac 88 o Ddeddf 1990 ac adrannau 238 a 44 o Ddeddf 1996).

A3.8 Mae Ofcom yn cyflawni ei ddyletswyddau drwy ddyfarnu trwyddedau i rai darlledwyr radio a theledu penodol a drwy gynnwys yn y trwyddedau hynny amodau y mae'n meddwl sy'n briodol i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau.[70] Mae'r amodau hyn yn cynnwys gofynion ar drwyddedigion i gynnig rhaglenni penodol a mathau penodol o gynnwys, darparu gwybodaeth i Ofcom er mwyn i ni allu cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio[71] a thalu ffioedd er mwyn cydymffurfio â'r codau amrywiol a gyhoeddir gan Ofcom. Mae enghreifftiau o'r codau perthnasol wedi'u rhestru ym mharagraff A3.13.

### *Awdurdod S4C*

A3.9 Nid oes angen trwydded gan Ofcom ar Awdurdod S4C (sy'n gweithredu ei wasanaeth teledu dan yr enw S4C), ond serch hynny mae'n rhwym wrth rai gofynion penodol.[72]

A3.10 Mae'r gofynion perthnasol mae Awdurdod S4C yn rhwym wrthynt yn cynnwys y rheini o dan y Cod ar Wasanaethau Mynediad Teledu,[73] gofynion ar gwotâu

---

[69] Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys holl ddyletswyddau penodol Ofcom sy'n arwain at ofynion perthnasol y mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol hyn yn berthnasol iddynt.
[70] Gweler adrannau 3 a 4 o Ddeddf 1990 ac adrannau 3 a 4 o Ddeddf 1996 (ar gyfer gwasanaethau teledu) ac adrannau 85 i 87 o Ddeddf 1990 ac adrannau 42 a 43 o Ddeddf 1996 (ar gyfer gwasanaethau radio).
[71] Er enghraifft, gwybodaeth am newidiadau yn y darlledwyr hynny sy'n rheoli, adroddiadau blynyddol gan orsafoedd radio cymunedol a data trosiant blynyddol perthnasol gan sefydliadau penodol sy'n dal trwyddedau teledu a radio.
[72] Y darpariaethau perthnasol sy'n llywodraethu Awdurdod S4C ydy adrannau 203 a 338, ac Atodlen 12 i Ddeddf 2003, yn ogystal â darpariaethau fel y rheini sydd yn Rhan IV o Ddeddf 1996.
[73] Yn berthnasol i Awdurdod S4C o dan adrannau 203 a 338, ac Atodlen 12 Deddf 2003.

rhaglenni annibynnol[74] a chadw a chynhyrchu recordiadau pan fydd Ofcom yn gofyn iddo wneud hynny.[75]

## Pryd mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol hyn yn berthnasol?

A3.11 Mae Ofcom wedi cynhyrchu gweithdrefnau penodol sy'n berthnasol i ymchwiliadau i achosion posibl o dorri categorïau penodol o ofynion rheoleiddiol. Mae'r gweithdrefnau penodol hyn wedi cael eu rhestru yn y tabl isod. Fel rheol byddai torri amodau o'r math a ddangosir yn y tabl isod yn destun ymchwiliad o dan y weithdrefn benodol gyfatebol ac ni fyddent yn dod o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol hyn.

| Categori gofyniad rheoleiddiol | Gweithdrefn benodol |
|---|---|
| Amcanion safonau cynnwys a nodir o dan adran 319 o Ddeddf 2003 ac sydd yng Nghod Darlledu Ofcom a chodau eraill.[76] | Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio.[77] |
| Gofynion tegwch a/neu breifatrwydd a nodir o dan Ran 5 o Ddeddf 1996 ac sydd yng Nghod Darlledu Ofcom. | Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd.[78] |
| Amodau trwydded a chodau perthnasol i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau darlledu.[79] | Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau Deddf Darlledu;[80] Cyngor i'r rheini sy'n cwyno: cyflwyno cwyn i Ofcom.[81] |

[74] Yn berthnasol i Awdurdod S4C o dan adrannau 203 a 338, a pharagraff 7 Rhan 2 Atodlen 12 Deddf 2003.
[75] Yn berthnasol i Awdurdod S4C o dan adrannau 203 a 338, a pharagraff 20 Atodlen 12 Deddf 2003.

[76] Mae "codau eraill" yn cynnwys y *Cod Trawshyrwyddo* a'r *Cod Amserlennu Hysbysebion Teledu*. Mae'r codau hyn a Chod Darlledu Ofcom ar gael ar wefan Ofcom yn https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code. Mae hefyd yn cynnwys Cod y DU ar Ddarlledu Hysbysebion, sydd ar gael yn https://www.cap.org.uk/Advertising-Codes/Broadcast.aspx.
[77] [Edrychwch ar Atodiad 1].
[78] [Gweler Atodiad 2]
[79] Mae'r Cod ar Ganllawiau Rhaglenni Electronig yn nodi'r arferion sydd i'w dilyn gan ddarparwyr Canllawiau Rhaglenni Electronig er mwyn (i) rhoi amlygrwydd priodol i sianeli gwasanaeth cyhoeddus, (ii) darparu'r nodweddion a'r wybodaeth sydd eu hangen i alluogi pobl sydd ag anabledd sy'n effeithio ar eu clyw neu ar eu golwg neu ar y naill a'r llall i ddefnyddio Canllawiau Rhaglenni Electronig a (iii) sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol (https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0031/19399/epgcode.pdf). Yn gyffredinol, bydd Ofcom yn defnyddio'r *Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau Deddf Darlledu* ar gyfer achosion o dorri amodau (iii), a'r Gweithdrefnau Cyffredinol hyn ar gyfer torri amodau (i) a (ii).
[80] Gweler Atodiad 2
[81] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0029/96806/Draft-advice-for-complainants.pdf

A3.12 Mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol hyn yn berthnasol i ymchwiliadau i achosion o dorri pob categori arall o ofynion rheoleiddiol nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn y rhestr uchod. Cyfeirir at y gofynion hyn yn y ddogfen hon fel "gofynion perthnasol".

A3.13 Mae'r gofynion perthnasol yn cynnwys, er enghraifft, gofynion a roddir ar ddarlledwyr i:

- darlledu mathau penodol o gynnwys (ee fformatau radio a darparu cwotâu rhaglenni rhanbarthol a newyddion);
- cydymffurfio â rhwymedigaethau trwydded teledu er mwyn cyflawni cwotâu cynhyrchu a rhaglenni penodol a bennir yn unol â deddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Ewropeaidd;
- rhoi'r wybodaeth mae Ofcom yn gofyn amdani i Ofcom;
- talu ffioedd; a
- cydymffurfio ag amrywiol godau, fel:
    - y Cod ar Wasanaethau Mynediad Teledu (hy is-deitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain);[82]
    - y Cod ar Ddigwyddiadau Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig a Dynodedig Eraill[83]
    - y Cod ar Ganllawiau Rhaglenni Electronig (mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag amlygrwydd sianeli gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau mynediad);[84] a
    - codau technegol ar gyfer teledu[85] a radio.[86]

## Gweithdrefnau Cyffredinol

A3.14 Caiff Ofcom lansio ymchwiliadau ei hun yn ogystal ag ymchwilio i gwynion sydd wedi cael eu gwneud gan bobl eraill. Mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol mewn ymchwiliad sy'n cael ei arwain gan gŵyn ac ymchwiliad sydd wedi'i gychwyn gan Ofcom yr un fath.

---

[82] https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/tv-access-services/code-tv-access-services-2015.
[83] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0029/35948/ofcom_code_on_sport.pdf.
[84] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0031/19399/epgcode.pdf. Gweler troednodyn [79] uchod hefyd.
[85] Er enghraifft, y Cod Perfformiad Technegol ar gyfer Teledu (https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/58910/tv_tech_platform_code.pdf).
[86] Er enghraifft, y Cod Peirianneg Safle ar gyfer Systemau Trawsyrru Darllediadau Radio Analog (https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/37133/code2013.pdf), y Cod Technegol Digidol (https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/47831/digi_tech_code.pdf) a'r arweiniad polisi Technegol ar gyfer y rheini sy'n dal trwyddedau amlblecs DAB (https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/51650/policy_guidance.pdf).

## Gwneud cwyn

A3.15 Gall unrhyw berson neu gorff gyflwyno cwynion o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol hyn wrth Ofcom os ydynt yn ystyried nad yw darlledwr wedi cydymffurfio â gofyniad perthnasol.

A3.16 Oni bai fod y sawl sy’n cwyno’n gofyn i Ofcom beidio â gwneud hynny, caiff Ofcom ddatgelu pwy ydy'r sawl sy’n cwyno i’r darlledwr sy’n destun i’r gŵyn yn ogystal â rhannu fersiwn nad yw’n gyfrinachol o’r gŵyn a gyflwynwyd er mwyn cael sylwadau. Bydd Ofcom yn ystyried ceisiadau gan bobl sy’n cwyno sy’n dymuno aros yn ddienw. Serch hynny, efallai na fydd yn bosibl agor neu gynnal ymchwiliad heb ddatgelu pwy ydy’r sawl sy’n cwyno. Nid yw hyn yn berthnasol i chwythwyr chwiban.[87]

### *Cwynion sy’n ymwneud â chynnwys darlledu*

A3.17 Dylid cyflwyno cwynion sy’n ymwneud â chynnwys darlledu a ddaw dan y Gweithdrefnau Cyffredinol hyn cyn gynted ag sy’n bosibl ar ôl y darllediad neu’r digwyddiad perthnasol oherwydd y cyfyngiadau amser sydd ar ddarlledwyr i gadw recordiadau o’u hallbwn.[88]

A3.18 Bydd cwynion sy’n cael eu hystyried o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol yn cael eu trin gan Ofcom yn ôl y math o wasanaeth darlledu. Anfonwch eich cwyn i’r cyfeiriad e-bost priodol:

- Cwynion am sianel deledu: tv.licensing@ofcom.org.uk.
- Cwynion am orsaf radio cymunedol: community.radio@ofcom.org.uk.
- Cwynion am orsaf radio masnachol: commercial.radio@ofcom.org.uk.
- Cwynion am orsaf radio dros dro (sydd hefyd yn cael eu galw yn Drwydded Gwasanaeth Cyfyngedig): rslenquiries@ofcom.org.uk.

A3.19 Fel arall gallwch chi gysylltu â ni yn: Ofcom, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, London SE1 9HA, neu ffonio 0300 123 3333 neu 020 7981 3040.

### *Cwynion sy’n ymwneud â gwasanaethau mynediad (is-deitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain)*

A3.20 Yn achos cwynion sy’n ymwneud â darparu is-deitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain, caiff y rheini sy’n cwyno, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, geisio datrys y

[87] Mae Ofcom yn “unigolyn a ragnodir” dan Ran IVA o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y’i mewnosodwyd gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) y mae modd gwneud “datgeliadau cymwys” iddo ynghylch rhai materion, gan gynnwys darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio. Mae Ofcom wedi cyhoeddi arweiniad (sydd ar gael ar ein gwefan yn: https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/policies-and-guidelines) ynghylch sut caiff unigolion sy’n gweithio yn y sector cyfathrebu gysylltu â ni os oes ganddynt bryderon ynghylch camwedd posibl yn eu sefydliad eu hunain (neu eu cyn sefydliad) a lle na fu modd iddynt godi neu ddatrys y pryderon hynny’n fewnol.
[88] Rhaid i ddarlledwyr gadw recordiadau o raglenni radio am 42 diwrnod ar ôl y darllediad. Rhaid i recordiadau o raglenni teledu gael eu cadw gan ddarlledwyr cebl a lloeren am 60 diwrnod, a gan ITV, STV, UTV, Channel 4, Channel 5, S4C a sianeli teledu digidol daearol am 90 diwrnod.

mater yn uniongyrchol gyda'r darlledwr cyn cyflwyno cwyn i Ofcom[89]. Cawn ar ddeall bod hyn wedi arwain at ddatrys cwynion yn gyflym ac yn effeithiol yn y gorffennol a bod cael cwynion ac adborth gan ddefnyddwyr yn helpu darlledwyr i wella ansawdd y gwasanaethau mynediad maent yn eu darparu. Os nad ydych chi'n fodlon ar yr ymateb a gewch chi gan y darlledwr, llenwch ein ffurflen gwyno.[90]

A3.21 Efallai y bydd hi'n haws i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau ffonio ein ffôn testun ar 020 7981 3043 (fydd y rhif hwn ond yn gweithio gydag offer arbennig sy'n cael ei ddefnyddio gan bobl fyddar neu drwm eu clyw). Efallai y bydd pobl sydd â nam ar eu golwg sydd eisiau cwyno am ddisgrifiadau sain yn dymuno defnyddio ein cyfeiriad e-bost arbennig: adcomplaints@ofcom.org.uk. I gysylltu ag Ofcom drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, mae Gwasanaeth Cyfnewid Fideo ar gael ar wefan Ofcom.

A3.22 Fel arall gallwch chi gysylltu â ni yn: Ofcom, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, London SE1 9HA, neu ffonio 0300 123 3333 neu 020 7981 3040.

***Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn cwyn***

A3.23 Dylai'r holl gwynion gynnwys digon o fanylion am fater y gŵyn er mwyn i Ofcom allu ymchwilio'n llawn i'r mater. Dylai pob cwyn felly gynnwys: manylion ynghylch yr hyn yr honnir sydd wedi digwydd, neu heb ddigwydd, gan ba ddarlledwr, pryd, ble a sut. Dylid hefyd cynnwys manylion cyswllt llawn y sawl sy'n cwyno (gan gynnwys cyfeiriad e-bost pan fo'n briodol). Mae'n bwysig iawn cynnwys y manylion hyn (neu gynifer ohonynt ag sy'n bosibl). Gall methu â'u darparu olygu na fydd Ofcom yn gallu ymchwilio i'r gŵyn.

## Asesiad cychwynnol

A3.24 Gall Ofcom ymchwilio i gydymffurfiad darlledwr â gofyniad perthnasol ar ôl iddo gael cwyn neu ar ei liwt ei hun (er enghraifft, pan fydd gwybodaeth yn dod i sylw Ofcom drwy fonitro rheolaidd). Wrth benderfynu a ddylid agor ymchwiliad, yn y lle cyntaf bydd Ofcom yn ystyried, ar y wyneb, a oes materion a allai fod yn sylweddol mewn perthynas â gofyniad perthnasol sy'n cyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom. Bydd yn gwneud hynny drwy gyfeirio at ddifrifoldeb a/neu hyd a lled y mater dan sylw.

A3.25 Os bydd Ofcom yn credu y dylai asesu'r mater ymhellach, gall ar y cam hwn roi fersiwn nad yw'n gyfrinachol o'r gŵyn i'r darlledwr (os yw hynny'n berthnasol) a gofyn i'r darlledwr am wybodaeth er mwyn ei helpu i ystyried y mater(ion), a/neu – mewn achosion sy'n ymwneud ag allbwn gwasanaeth darlledu – recordiadau o'r allbwn/rhaglen(ni) perthnasol, ac fel rheol mae'n rhaid darparu'r rhain cyn pen pum niwrnod gwaith.[91]

A3.26 Ar sail asesiad cychwynnol o'r mater ac unrhyw gŵyn ac adolygiad o unrhyw allbwn darlledu perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a dorrwyd gofyniad/gofynion perthnasol ai peidio. Bydd Ofcom yn ceisio cwblhau asesiad cychwynnol o bob cwyn fel rheol cyn pen 15 diwrnod gwaith.

---

[89] Mae manylion cyswllt pob darlledwr ar gael ar wefan Ofcom yn https://www.ofcom.org.uk/manage-your-licence/tv-broadcast-licences/current-licensees.
[90] https://ofcomforms.secure.force.com/formentry/SitesFormCSLEStandardsComplaints.
[91] Mae'n amod o bob trwydded darlledu ei bod yn rhaid i'r sawl sy'n dal y drwydded wneud a chadw copi o recordiad o'i holl raglenni am gyfnod penodol o ddiwrnodau ar ôl darlledu.

A3.27 Ar ôl yr asesiad cychwynnol os bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach, fel rheol bydd Ofcom yn rhoi gwybod i'r sawl a gyflwynodd y gŵyn am ei benderfyniad. Os bydd Ofcom wedi cysylltu â'r darlledwr i gael gwybodaeth neu recordiadau er mwyn helpu i asesu'r mater neu'r gŵyn, bydd Ofcom yn rhoi gwybod i'r darlledwr am ei benderfyniad i beidio â mynd â'r mater ymhellach. Fel rheol bydd Ofcom hefyd yn cyhoeddi manylion ynghylch ei benderfyniad i beidio ag ymchwilio mewn tabl yn ei Fwletinau Broadcast and On-demand[92]. Serch hynny efallai y bydd rhai achosion pan fydd Ofcom o'r farn y byddai'n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater, er enghraifft oherwydd bod y materion yn arbennig o sensitif a/neu gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon (er efallai bydd achosion eithriadol pan fyddwn yn cyhoeddi mewn amgylchiadau o'r fath, er enghraifft pan fydd lefel uchel o ddiddordeb gan y cyhoedd yn y mater sy'n destun cwyn).

## Ymchwilio i achosion posibl o dorri'r Cod

A3.28 Ar ôl ei asesiad cychwynnol os bydd Ofcom yn penderfynu agor ymchwiliad i gydymffurfiad darlledwr â gofyniad perthnasol penodol, yn gyffredinol bydd Ofcom yn rhoi gwybod i'r darlledwr ac unrhyw un sydd wedi cwyno gan anfon llythyr agor achos at bob un ohonynt yn egluro hyd a lled ymchwiliad Ofcom (hy y gofyniad/gofynion perthnasol penodol mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r gŵyn/cwynion neu'r materion dan sylw).

A3.29 Yn fuan ar ôl anfon y llythyr(au) agor achos, fel rheol bydd Ofcom yn cyhoeddi manylion y materion yr ymchwilir iddynt mewn tabl yn ei Fwletinau Broadcast and On Demand. Serch hynny efallai y bydd rhai achosion pan fydd Ofcom o'r farn y byddai'n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater ar y cam hwn, er enghraifft oherwydd bod y materion yn arbennig o sensitif a/neu gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon (er efallai bydd achosion eithriadol pan fyddwn yn cyhoeddi mewn amgylchiadau o'r fath, er enghraifft pan fydd lefel uchel o ddiddordeb gan y cyhoedd yn y mater sy'n destun cwyn). Mewn achosion o'r fath, gall Ofcom ohirio rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymchwiliad nes i Ofcom orffen ystyried cydymffurfiad y darlledwr â gofyniad perthnasol, neu gall benderfynu peidio â rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o'r fath o gwbl (gweler paragraffau A3.44 a A3.46 isod).

A3.30 Ac eithrio mewn achosion a ddaw dan baragraff A3.31 isod, pan fydd Ofcom yn anfon y llythyr agor achos at y darlledwr, bydd Ofcom yn gwahodd darlledwr i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb (a darparu unrhyw dystiolaeth/sylwadau perthnasol i'w cefnogi) cyn pen 10 diwrnod gwaith.

A3.31 Os bydd Ofcom yn credu mewn unrhyw achos bod angen cael rhagor o wybodaeth i sicrhau ei fod yn gallu llunio ei Safbwynt Rhagarweiniol yn deg ac yn briodol, gall Ofcom ofyn am wybodaeth o'r fath cyn llunio'r Safbwynt hwnnw.

A3.32 Efallai fod achosion penodol pan fydd y mater(ion) dan sylw, ar sail y ffeithiau, yn golygu na fydd Ofcom yn credu bod angen gofyn am sylwadau neu unrhyw wybodaeth bellach gan y darlledwr ar y cam hwn. Bydd hyn yn digwydd fel rheol pan fydd cwestiwn ynghylch a yw torri gofyniad perthnasol yn fater o ffeithiau gwrthrychol (er enghraifft, sy'n ymwneud ag a yw darlledwr wedi talu ffioedd trwydded). Efallai y bydd achosion penodol eraill hefyd pan fydd ffeithiau'r mater(ion) dan sylw, yn golygu ei bod yn briodol dilyn y dull gweithredu hwn. Yn yr achosion hyn, fel rheol, ni fydd Ofcom yn gofyn am sylwadau'r darlledwr ar y cam

[92] https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/broadcast-bulletins

hwn. Yn lle hynny, bydd Ofcom yn ysgrifennu at y darlledwr gyda'i Safbwynt Rhagarweiniol ar sylwedd y mater(ion).

A3.33 Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r achosion hynny y bydd yn penderfynu ymchwilio iddynt fel rheol cyn pen 50 diwrnod gwaith.

**Sylwadau gan drydydd partïon**

Mae Ofcom yn cydnabod efallai fod pobl/cyrff y gallai canlyniad ymchwiliad a phenderfyniad Ofcom ynghylch cwyn effeithio arnynt yn uniongyrchol gan fod ganddynt o bosibl fuddiannau sy'n annibynnol ar y darlledwr perthnasol. Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylai darlledwyr geisio ystyried a chynnwys sylwadau pobl/cyrff o'r fath yn eu cyflwyniadau er mwyn ymateb i gŵyn a chadarnhau eu bod wedi gwneud hynny wrth Ofcom.

Fodd bynnag, gall pobl/cyrff o'r fath gyflwyno sylwadau ar eu rhan eu hunain yn uniongyrchol i Ofcom mewn perthynas â chwyn y bydd Ofcom yn bwrw ymlaen i ymchwilio iddi. Mewn achos o'r fath, dylai pobl/cyrff geisio cyflwyno sylwadau i Ofcom cyn gynted ag sy'n bosibl mewn ymchwiliad i gŵyn, gan nodi a yw/i ba raddau y mae eu sylwadau yn wahanol i sylwadau'r darlledwr. Bydd Ofcom yn ystyried y sylwadau hynny fel sy'n briodol ac yn cynnwys y bobl/cyrff hynny yn ei broses penderfynu dan y Gweithdrefnau Cyffredinol hyn.

Paratoi Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom

A3.34 Bydd Ofcom yn paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol ar sylwedd yr achos posibl o dorri'r gofyniad/gofynion perthnasol.

A3.35 Pan fydd Ofcom o'r farn mewn achos penodol y byddai'n briodol er mwyn llunio ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd Ofcom yn darparu Safbwynt Rhagarweiniol drafft i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom[93] i gael eu barn gynghorol. Bydd y penderfyniad i gyhoeddi Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom yn cael ei wneud gan uwch aelod o Fwrdd Gwaith Ofcom a fydd wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd. Fel rheol, dyma fyddai'r sawl sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ymchwiliad.

A3.36 Bydd y Safbwynt Rhagarweiniol yn cynnwys:

- crynodeb o'r mater ac, os yw'n berthnasol, unrhyw gŵyn;
- crynodeb, os yw'n berthnasol, o rannau perthnasol unrhyw allbwn darlledu y mae'r mater a/neu unrhyw gŵyn yn berthnasol iddynt.
- y gofynion perthnasol penodol y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r gŵyn/mater; ac
- asesiad rhagarweiniol Ofcom ynghylch a gafodd unrhyw rai o'r gofynion hynny eu torri a'r rhesymau dros yr asesiad hwnnw.

[93] Mae'r Bwrdd Cynnwys yn bwyllgor o Brif Fwrdd Ofcom a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad helaeth o ddarlledu. Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/content-board

A3.37 Pan fydd Ofcom wedi paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd Ofcom yn ei roi i'r darlledwr (ac unrhyw drydydd parti perthnasol).

A3.38 Bydd y darlledwr (ac unrhyw drydydd parti perthnasol) yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ynghylch Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom. Fel rheol 10 diwrnod fydd y cyfnod ar gyfer sylwadau ysgrifenedig.

A3.39 Mae Ofcom o'r farn y bydd fel rheol yn gallu gwneud ei Benderfyniad terfynol yn deg ac yn briodol ar ôl cael sylwadau ysgrifenedig a heb gael sylwadau llafar gan y darlledwr. Serch hynny, efallai y bydd rhai achosion pan fydd Ofcom yn credu ei bod hi'n briodol, oherwydd natur y tor-amod sy'n cael ei ystyried a chymhlethdod y materion a godir, rhoi cyfle i'r darlledwr gyflwyno ei sylwadau ar lafar i Ofcom, ar ôl cyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig i Ofcom. Bydd Ofcom yn rhoi gwybod i'r darlledwr os yw'n credu ei bod hi'n briodol cynnig cyfle i'r darlledwr gyflwyno sylwadau llafar mewn achos penodol.

A3.40 Sut bynnag, caiff darlledwr, mewn unrhyw achos penodol, wneud cais ysgrifenedig i gyflwyno ei sylwadau ar lafar i Ofcom yn ogystal â chyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig. Bydd Ofcom yn cytuno ar gais o'r fath os yw'n credu bod gwrandawiad llafar yn briodol wrth ystyried natur y tor-amod dan sylw a chymhlethdod y materion a godir.

## Y Penderfyniad terfynol

A3.41 Ar ôl i Ofcom gael ac ystyried sylwadau gan y darlledwr ynghylch ei Safbwynt Rhagarweiniol (os oes rhai) a/neu unrhyw sylwadau gan drydydd parti perthnasol, bydd yn llunio ei benderfyniad terfynol (hy a ddylid cofnodi y torrwyd amod trwydded neu ofynion perthnasol eraill) ("y Penderfyniad").

A3.42 Pan fydd panel o aelodau'r Bwrdd Cynnwys wedi adolygu'r Safbwynt Rhagarweiniol drafft mewn achos penodol, yn gyffredinol byddai'r penderfyniad drafft yn yr achos hwnnw'n cael ei roi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom (nad ydynt wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad) i gael eu barn gynghorol cyn gwneud penderfyniad terfynol.

A3.43 Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan uwch aelod o bwyllgor gwaith Ofcom gydag awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd, na fydd wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad a/neu'r gwaith o baratoi'r Safbwynt Rhagarweiniol.

## Cyhoeddi Penderfyniad

A3.44 Pan fydd Ofcom yn dod i'r casgliad bod darlledwr wedi torri gofyniad/gofynion perthnasol, bydd Ofcom yn cyhoeddi ei Benderfyniad ym Mwletinau Broadcast and On Demand Ofcom[94] a/neu yn yr adran trwyddedau darlledu perthnasol ar y wefan. Fel rheol bydd Ofcom yn cyhoeddi pob penderfyniad ynghylch torri amod a datrys, hyd yn oed pan na fydd Ofcom wedi rhoi cyhoeddusrwydd o'r blaen i'r materion yr ymchwiliwyd iddynt yn unol â pharagraff A3.29 uchod.

A3.45 Bydd Ofcom yn rhoi copi o'r Penderfyniad dan embargo i'r darlledwr, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi.

[94] https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/broadcast-bulletins.

A3.46 Fel rheol bydd Ofcom hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth yn ei Fwletinau Broadcast and On Demand ynghylch Penderfyniadau lle mae wedi dod i'r casgliad **nad** yw'r darlledwr wedi torri gofyniad perthnasol. Serch hynny, pan nad yw Ofcom wedi cyhoeddi manylion ynghylch mater sy'n destun ymchwiliad yn unol â pharagraff A3.32 fel rheol ni fyddai Ofcom yn cyhoeddi penderfyniad "heb dorri amod" ar gasgliad yr ymchwiliad.

## Peidio â Datgelu

A3.47 Mae'n rhan hanfodol o integriti prosesau Ofcom a'i allu i reoleiddio'n deg bod pob parti dan sylw yn glynu wrth y rheolau a'r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pheidio â datgelu isod.

**Peidio â Datgelu**

Oni nodir yn wahanol caiff partïon (y rheini sy'n cwyno, darlledwyr, Ofcom ac unrhyw drydydd partïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol) gyhoeddi'r ffaith bod cwyn wedi cael ei gwneud neu fod Ofcom wrthi'n ymchwilio i achos. Mae modd iddynt hefyd ddefnyddio unrhyw wybodaeth sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus.

Serch hynny, ni ddylai'r partïon ddatgelu unrhyw ohebiaeth, dogfennau na deunyddiau eraill sy'n ymwneud â'r gŵyn yn ystod yr ymchwiliad[95].
Gall methu â dilyn y gofynion hyn olygu bod Ofcom yn rhoi'r gorau i ystyried sylwadau'r parti.

Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei Benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad[96].

## Cyfyngiadau amser

A3.48 Dylai'r rheini sy'n cwyno a'r darlledwyr gofio'r cyfyngiadau amser a bennir yn y Gweithdrefnau hyn. Serch hynny, efallai fod Ofcom yn credu ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn cynnal ymchwiliad yn briodol) diwygio neu addasu'r cyfyngiadau amser a nodir yn y Gweithdrefnau mewn achos penodol. Dylai unrhyw un sy'n cwyno neu unrhyw ddarlledwr y mae eisiau rhagor o amser arno roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu bod hynny'n briodol.

## Sancsiynau

A3.49 Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod gofyniad perthnasol wedi cael ei dorri, gall Ofcom fod o'r farn bod hynny'n cyfiawnhau ystyried sancsiwn statudol yn erbyn y darlledwr. Os felly, bydd Ofcom yn egluro hynny yn ei Benderfyniad a bydd y "Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu" yn berthnasol. Mae'r rhain ar gael ar wefan Ofcom yn [link].

[95] Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo fel rhan o gŵyn er mwyn cyflawni dyletswyddau o'r fath.
[96] Caiff Ofcom (wrth ymchwilio ac wrth gyhoeddi ei benderfyniad) ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu os yw'n rhwym wrth ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag cael eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y darlledwr yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

## Cyfarwyddiadau

A3.50 Dan y Deddfau Darlledu[97] mae gan Ofcom y pŵer i gyhoeddi cyfarwyddyd yn unol â thrwydded darlledwr.

A3.51 Caiff Ofcom gyhoeddi cyfarwyddyd o'r fath mewn unrhyw achos y mae'n credu sy'n briodol. Gall hyn gynnwys achosion, er enghraifft, lle mae Ofcom yn credu:

- bod y darlledwr wedi torri Cod perthnasol yn ddifrifol, ond nid yw Ofcom yn credu bod hynny'n cyfiawnhau ystyried sancsiwn yn erbyn y darlledwr dan Weithdrefnau Sancsiynau Ofcom y cyfeirir atynt ym mharagraff A3.38 uchod;
- nad yw darlledwr wedi cydymffurfio'n brydlon ag unrhyw ofyniad perthnasol; a/neu
- y ceir rhesymau eraill sy'n golygu ei bod yn briodol i ddarlledwr gymryd cam penodol.

A3.52 Bydd Hysbysiad Cyfarwyddyd fel rheol yn cael ei gyhoeddi ar Fwletin Broadcast and On Demand Ofcom.

A3.53 Os na fydd darlledwr yn cydymffurfio â chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Ofcom yn unol â'i drwydded, gall hyn arwain at ystyried sancsiynau statudol yn erbyn y darlledwr (er enghraifft, rhoi cosb ariannol, neu ddirymu trwydded). Mewn achosion o'r fath, byddai'r Weithdrefn Sancsiynau y cyfeirir ati yn y paragraff blaenorol yn berthnasol.

[97] Gweler, er enghraifft, adrannau 4(2) ac 87(2) Deddf Darlledu 1990.

Atodiad 4

# Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu

## Cyflwyniad

A4.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Gweithdrefnau y bydd Ofcom fel rheol yn eu dilyn wrth ystyried penderfynu ar sancsiwn yn erbyn darlledwyr[98] am dorri unrhyw un o ofynion eu trwydded (ac eithrio torri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau Deddf Darlledu)[99]; neu yn achos S4C[100], nad oes ganddynt drwydded, unrhyw ofyniad gorfodadwy perthnasol (gweler paragraff A4.11 isod). Yn y ddogfen hon, cyfeirir at yr holl ofynion hyn fel "gofyniad perthnasol". Daw'r Gweithdrefnau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017.

A4.2 Nid yw'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU na Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU[101]. Mae gweithdrefnau sancsiynau eraill yn berthnasol i'r gwasanaethau hyn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i gwmnïau darlledu masnachol y BBC sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom.

A4.3 Os bydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn mewn unrhyw ffordd o sylwedd mewn achos penodol am resymau sy'n ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i Ofcom benderfynu ar sancsiwn yn briodol, bydd yn ysgrifennu at y darlledwr dan sylw ymlaen llaw yn nodi natur a graddfa ei wyriad oddi wrthynt a'i resymau dros wneud hynny.

## Fframwaith statudol

A4.4 Mae dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â darlledu yn cynnwys sicrhau, yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, bod safonau ar waith sy'n darparu digon o amddiffyniad:

- i aelodau'r cyhoedd rhag deunyddiau sy'n achosi tramgwydd neu niwed: adran 3(2)(e) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003"); ac

[98] Fel mae'r cyd-destun yn mynnu, mae cyfeiriadau dilynol yn y Gweithdrefnau hyn at "ddarlledwyr" yn cynnwys unrhyw ddarlledwr sy'n cael ei drwyddedu a/neu ei reoleiddio gan Ofcom, ac eithrio Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU sy'n rhwym wrth weithdrefnau ar wahân.
[99] Bydd ymchwiliadau i achosion o dorri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau Deddf Darlledu, fel amodau a roddir o dan adran 316 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 at ddibenion sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol, yn cael eu trin yn unol â G*weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau Deddf Darlledu*, sydd hefyd yn datgan y broses y bydd Ofcom fel rheol yn ei dilyn wrth ystyried rhoi sancsiwn statudol yn erbyn darlledwyr am dorri gofynion eu trwydded sy'n ymwneud â chystadleuaeth.
[100] Mae Awdurdod S4C yn gweithredu ei wasanaeth teledu dan yr enw "S4C".
[101] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).

- i aelodau'r cyhoedd a phob unigolyn arall rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a fydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath a rhag tarfu ar breifatrwydd yn ddiangen sy'n deillio o weithgareddau a wneir at ddibenion gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003.

A4.5 Drwy rinwedd adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i sicrhau bod y safonau hynny yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau sy'n gwarantu lefel briodol o ryddid mynegiant.

A4.6 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom hefyd yn cynnwys sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau: adran 3(2)(c) o Ddeddf 2003.

A4.7 Yn fwy penodol, mae gan Ofcom ddyletswydd dan adran 319 o Ddeddf 2003 i osod safonau o'r fath ar gyfer cynnwys rhaglenni sydd i'w gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio fel sy'n ymddangos i Ofcom fel y rhai gorau i sicrhau "amcanion safonau" penodol. Mae'r amcanion safonau hynny ar gael yn adran 319(2), ac mae'n rhaid i Ofcom sefydlu codau sy'n cynnwys y safonau hyn. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, mae Ofcom yn defnyddio darpariaethau Cod Darlledu Ofcom ("y Cod Darlledu")[102], y Cod Trawshyrwyddo[103], y Cod ar Atal Gwahaniaethu Gormodol rhwng Hysbysebwyr[104], y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu (COSTA)[105] a, phan fo'n briodol, Cod Darllediadau Hysbysebu y DU (Cod BCAP) yn http://www.cap.org.uk/The-Codes/BCAP-Code.aspx[106].

A4.8 Yn yr un modd, mae gan Ofcom ddyletswydd benodol dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd)[107] ("Deddf 1996") i lunio cod sy'n rhoi cyfarwyddyd ynghylch yr egwyddorion a'r arferion sydd i'w dilyn gan ddarlledwyr yng nghyswllt osgoi triniaeth annheg neu anghyfiawn[108] mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu mewn cysylltiad â chael deunyddiau sydd yn y rhaglenni). Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, bydd Ofcom yn defnyddio Adrannau Saith ("Tegwch") ac Wyth ("Preifatrwydd") y Cod Darlledu.

A4.9 Mae gan Ofcom ddyletswyddau mwy penodol[109] hefyd mewn perthynas â darparu is-deitlo, arwyddo a disgrifiadau sain[110], er enghraifft. Yn yr un modd, mewn perthynas â sicrhau bod cymeriad gwasanaeth radio darlledu wedi'i drwyddedu, fel

---

102 Edrychwch ar http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/.
103 Edrychwch ar http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/cross-promotion/.
104 Edrychwch ar http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/undue-discrimination/ .
105 Edrychwch ar http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/broadcast/other-codes/tacode.pdf.
106 Ar ben hynny, mae adran 325 o Ddeddf 2003 yn mynnu ei bod rhaid i Ofcom sefydlu gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion sy'n ymwneud â dilyn safonau dan adran 319. Mae hefyd yn mynnu bod darlledwyr eu hunain (yn ogystal ag Ofcom) yn sefydlu eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer trin a datrys cwynion o'r fath.
107 Cafodd Deddf Darlledu1996 ei diwygio gan Ddeddf 2003.
108 Caiff triniaeth anghyfiawn neu annheg ei diffinio gan adran 130 o Ddeddf 1996 fel triniaeth sy'n anghyfiawn neu'n annheg oherwydd y ffordd cafodd deunyddiau mewn rhaglen eu dewis neu eu trefnu.
109 Mae'r canlynol yn enghreifftiau, nid yn rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau penodol Ofcom.
110 A ddaw o adrannau 303 – 307 o Ddeddf 2003.

y cynigir gan y sawl sy'n dal y drwydded wrth wneud ei gais, yn cael ei gynnal drwy gydol y cyfnod mae'r drwydded mewn grym[111].

A4.10 Yn ogystal â drwy ddefnyddio'r Codau y cyfeirir atynt uchod, mae Ofcom yn cyflawni ei ddyletswyddau:

- drwy roi trwyddedau darlledu dan Ddeddf Darlledu 1990 ("Deddf 1990") a Deddf 1996; a
- drwy gynnwys yn y trwyddedau hynny amodau sy'n ofynnol dan statud neu y mae'n meddwl sy'n briodol i'w helpu i gyflawni'r dyletswyddau hynny.

Mae'r amodau hyn yn cynnwys y rheini sy'n mynnu bod darlledwyr yn cadw at ddarpariaethau'r Codau a ddisgrifir uchod wrth ddarparu eu gwasanaethau ac mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn eu gwasanaethau. Maent hefyd yn cynnwys, er enghraifft, amodau sy'n gorfodi'r gofynion ar ddarlledwyr: i ddarparu gwybodaeth i Ofcom, cynnig rhaglenni a mathau o gynnwys penodol, a chydymffurfio â'r amrywiol godau eraill a gyhoeddir gan Ofcom.

A4.11 Mae Adrannau 203 a 338 o, ac Atodlen 12 (paragraff 12 yn benodol) i, Ddeddf 2003 yn darparu ei bod yn rhaid i Awdurdod S4C gydymffurfio â'r Codau perthnasol. Yn achos Awdurdod S4C, nad oes ganddo drwydded Ofcom, mae'r Codau hyn yn "ofynion gorfodadwy perthnasol".

A4.12 Os torrir amod trwydded a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 1990 neu Ddeddf 1996 (gan gynnwys peidio â chydymffurfio â Chod perthnasol), mae gan Ofcom y pŵer i roi sancsiynau statudol ("sancsiwn") ar y darlledwr perthnasol o dan ddarpariaethau sydd yn y Deddfau hynny (neu Ddeddf 2003 mewn rhai achosion)[112]. Mae pwerau Ofcom i roi sancsiynau am dorri gofyniad gorfodadwy perthnasol ar S4C yn adran 341, ac Atodlen 12 Deddf 2003.

A4.13 Mae rhoi sancsiwn yn erbyn darlledwr yn fater difrifol. Ar ôl dilyn y broses briodol, caiff Ofcom roi sancsiwn os yw'n ystyried bod darlledwr wedi torri gofyniad perthnasol yn ddifrifol, yn fwriadol, yn rheolaidd[113] neu'n fyrbwyll.

A4.14 Mae'r sancsiynau sydd ar gael i Ofcom yn cynnwys penderfyniad[114]:

- i gyhoeddi cyfarwyddyd[115] i beidio ag ailddangos rhaglen neu hysbyseb;
- i gyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom, y gellid gofyn iddo fod ar ffurf benodol, ac i'w cynnwys mewn rhaglenni ac ar adegau y bydd Ofcom yn penderfynu arnynt[116];

---

[111] Adran 106(1) o Ddeddf 1990.

[112] Bydd yr union ddarpariaeth sy'n rhoi'r grym i Ofcom roi sancsiynau am dorri amodau trwydded yn dibynnu ar y math o drwydded dan sylw (gweler paragraff 1.14 a'r troednodiadau cysylltiedig i gael enghreifftiau).

[113] Byddai torri gofyniad perthnasol droeon yn cynnwys, er enghraifft: ailadrodd torri'r un gofyniad ag sydd eisoes wedi'i gofnodi; ailadrodd yr un ymddygiad neu ymddygiad tebyg a oedd wedi mynd yn groes i ofyniad yn gynharach; neu dorri gofynion eraill droeon.

[114] Nid yw'r rhain yn cynnwys y sancsiynau gall Ofcom eu rhoi ar Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU o dan y Siarter a'r Cytundeb.

[115] Dan, er enghraifft, adran 40(1) o Ddeddf 1990, ac adran 236(6) o Ddeddf 2003.

- i roi cosb ariannol[117];
- i fyrhau[118] neu atal trwydded[119] (dim ond yn berthnasol mewn achosion penodol); a/neu[120]

- i ddirymu trwydded (ddim yn berthnasol i S4C na Channel 4).[121] Bulletin -demand[122] a/neu yn yr adran trwyddedu darlledu berthnasol ar y wefan. Fel rheol bydd Ofcom yn cyhoeddi gwybodaeth yn ei fwletin Broadcast and On-demand.

**Cosb ariannol**

Yn y rhan fwyaf o achosion y gosb ariannol fwyaf ar gyfer y rheini sy'n dal trwydded teledu neu radio fasnachol yw £250,000 neu 5% o 'Refeniw Cymwys' y darlledwr, pa un bynnag sydd fwyaf.

Ar gyfer Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus trwyddedig, y gosb ariannol fwyaf sy'n daladwy yw 5% o'r 'Refeniw Cymwys'.

Ar gyfer S4C, y gosb ariannol fwyaf sy'n daladwy yw £250,000.

### Penderfyniadau o dan y Gweithdrefnau hyn

A4.15 Wrth ystyried achosion o sancsiynau o dan y Gweithdrefnau hyn sy'n ymwneud â thorri gofyniad perthnasol sy'n ymwneud â chynnwys rhaglen[123], bydd penderfyniadau am sancsiynau yn cael eu gwneud gan ddau uwch aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom y mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo awdurdod priodol iddynt (gydag un ohonynt yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y tor-amod), ynghyd ag Aelod Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom.

A4.16 Ym mhob achos sancsiynau arall o dan y Gweithdrefnau hyn sy'n ymwneud â thorri gofyniad perthnasol[124], bydd penderfyniadau ar sancsiynau'n cael eu gwneud gan un neu ddau (bydd yn dibynnu ar natur y tor-amod) uwch aelod o Fwrdd Gwaith Ofcom sydd ag awdurdod priodol wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd (un o'r rhain fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch y tor-amod). Yn eithriadol mewn achosion o'r fath, pan fydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol am resymau sy'n

---

[116] Dan, er enghraifft, adrannau 40(1) a 109(3) o Ddeddf 1990, adran 236(2) o Ddeddf 2003, a pharagraff 15 o Atodlen 12 i Ddeddf 2003 yn achos S4C.
[117] Dan, er enghraifft, adrannau 41(1) a 110(1) o Ddeddf 1990, ac adran 341(2) o Ddeddf 2003 yn achos S4C.
[118] Dan, er enghraifft, adrannau 41(1) a 110(1) o Ddeddf 1990.
[119] Dan, er enghraifft, adran 110(1) o Ddeddf 1990.
[120] Mewn rhai achosion gall Ofcom roi mwy nag un sancsiwn.
[121] Dan, er enghraifft, adrannau 42 a 111 o Ddeddf 1990 a 238 o Ddeddf 2003.

[123] Caiff ymchwiliadau yn yr achosion hyn eu trin yn unol â *Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio* mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau cynnwys sydd wedi'u nodi o dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003: ac yn unol â *Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd* [Edrychwch ar Atodiad 5] mewn perthynas â chydymffurfio â "chod tegwch" Ofcom o dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996.
[124] Bydd ymchwiliadau i'r achosion hyn yn cael eu trin yn unol â *Gweithdrefnau cyffredinol Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu*.

ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i Ofcom benderfynu'n iawn ar sancsiwn, bydd aelod Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom yn penderfynu ar sancsiwn ynghyd â Swyddogion Gweithredol Ofcom.

A4.17 Mewn achos sy'n ymwneud â sancsiwn, ni fydd y rheini sy'n penderfynu wedi bod yn rhan o'r ymchwiliad i dorri'r gofyniad perthnasol, hyd at a gan gynnwys y cyfnod o baratoi'r Safbwynt Rhagarweiniol ynghylch yr achos.

A4.18 Fel y nodwyd ym mharagraff A4.1 uchod, nid yw'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol i benderfynu ar sancsiwn yn erbyn darlledwyr am dorri gofynion sy'n ymwneud â chystadleuaeth yn eu trwydded: yn yr achosion hynny, bydd Ofcom yn ystyried rhoi sancsiwn statudol yn unol â'r broses a nodwyd yn ein Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau Deddf Darlledu[125].

A4.19 Ym mhob achos, pan fydd Ofcom yn ysgrifennu at y darlledwr yn unol â pharagraff A4.22 isod, bydd yn nodi'r rheini a fydd yn gwneud y penderfyniadau.

## Gweithdrefnau

### Ystyried sancsiynau

A4.20 Mae ystyried sancsiwn yn dilyn penderfyniad gan Ofcom bod darlledwr wedi torri gofyniad perthnasol[126]. Fel rheol bydd achos yn cael ei ystyried ar gyfer rhoi sancsiwn pan fydd Ofcom yn credu bod y darlledwr wedi torri gofyniad perthnasol yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n ddi-hid.

A4.21 Bydd Ofcom yn ceisio cwblhau ystyried rhoi sancsiwn cyn pen 60 diwrnod gwaith o'r dyddiad y bydd Ofcom yn cofnodi bod y gofyniad/gofynion perthnasol wedi cael eu torri. Serch hynny, gall amgylchiadau achosion unigol amrywio'n sylweddol ac efallai bydd hi'n cymryd mwy o amser mewn ambell achos.

A4.22 Os bydd Ofcom yn credu bod sancsiwn yn briodol, bydd yn ysgrifennu at y darlledwr gyda'r wybodaeth ganlynol fel sy'n briodol:

- manylion ynghylch y torri amodau;
- sylwadau ar unrhyw fater a godwyd gan y darlledwr sy'n bwysig i'r achos;
- manylion unrhyw achosion perthnasol y mae Ofcom eisoes wedi dyfarnu yn eu cylch;
- manylion hanes cydymffurfio diweddar y darlledwr;
- manylion Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom y gallai sancsiwn fod yn briodol;

[125] [link to be inserted when final procedures published]
[126] Dan delerau ei Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom, caiff yr Awdurdod Safonau Hysbysebu wneud cais i Ofcom ystyried sancsiwn statudol mewn achos yn ymwneud â hysbyseb. Mewn achosion o'r fath, fel rheol, bydd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu wedi cyhoeddi bod ei god wedi cael ei dorri.

- manylion Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom ynghylch y math o sancsiwn a lefel unrhyw sancsiwn yr ystyrir ei fod yn briodol ac yn gymesur;

- crynodeb o'r deunyddiau y mae wedi dibynnu arnynt i gyrraedd ei safbwynt rhagarweiniol;

- bydd y dogfennau perthnasol[127] mae Ofcom wedi'u hystyried hefyd yn cael eu darparu.

A4.23 Ar y cam hwn, os mai Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom yw y dylai'r sancsiwn priodol gynnwys cosb ariannol bydd, fel sy'n briodol, yn ystyried y gosb yn unol â'r Canllawiau Cosbau a gyhoeddwyd gan Ofcom yn http://www.ofcom.org.uk/about/policies-and-guidelines/penalty-guidelines/.

## Sylwadau ysgrifenedig

A4.24 Bydd y darlledwr yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom y gallai sancsiwn fod yn briodol ac ar lefel a math unrhyw sancsiwn sy'n cael ei ystyried. Fel rheol 15 diwrnod fydd y cyfnod ar gyfer sylwadau ysgrifenedig, oni nodir fel arall. Mewn rhai amgylchiadau, gall Ofcom, os yw'n credu ei fod yn briodol, ofyn am ragor o wybodaeth neu sylwadau gan y darlledwr.

### Sylwadau llafar

A4.25 Ar ben hynny, bydd Ofcom yn rhoi'r cyfle i'r darlledwr ddod i wrandawiad llafar i gyflwyno sylwadau llafar ar y materion y cyfeirir atynt yn Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom. Fel rheol, bydd Ofcom yn rhoi i'r darlledwr o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd o'r dyddiad ar gyfer gwneud y sylwadau hynny. Cynhelir y gwrandawiad yn breifat a gellir ei gynnal yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban fel sy'n briodol. Bydd y gwrandawiad yn cael ei drawsgrifio a bydd y trawsgrifiad yn cael ei roi i'r darlledwr. Caiff y darlledwr ddod â chynghorwyr cyfreithiol i'r gwrandawiad llafar er mwyn ei helpu i gyflwyno ei sylwadau llafar, er mae Ofcom yn cael gofyn i'r darlledwr gyfyngu ar nifer y bobl a ddaw i'r gwrandawiad llafar ar ei ran i nifer rhesymol.

A4.26 Bydd y weithdrefn ar gyfer cyflwyno sylwadau llafar yn ôl disgresiwn Ofcom. Bydd Ofcom yn ysgrifennu at y darlledwr cyn y dyddiad ar gyfer gwrnado'r sylwadau, i nodi beth fydd y weithdrefn.

## Penderfynu

A4.27 Ar ôl ystyried sylwadau ysgrifenedig a/neu lafar gan y darlledwr, gall Ofcom benderfynu nad yw sancsiwn yn briodol mewn achos penodol. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd y darlledwr yn cael hysbysiad i'r perwyl hwn.

## Penderfyniad ynghylch sancsiynau

A4.28 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a sylwadau gan y darlledwr, os bydd Ofcom yn credu bod sancsiwn yn briodol, bydd yn ystyried pa un o'r sancsiynau sydd ar gael

[127] Caiff Ofcom ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu eu bod dan unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y darlledwr yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

sy'n briodol a bydd yn dod i benderfyniad i'r perwyl hwn. Pan fydd Ofcom yn penderfynu y dylai'r sancsiwn priodol gynnwys cosb ariannol bydd, fel sy'n briodol, yn ystyried Canllawiau Cosbau Ofcom a gyhoeddwyd yn http://www.ofcom.org.uk/about/policies-and-guidelines/penalty-guidelines.

### Dirymu trwydded

A4.29 Mewn achosion pan fydd y darlledwr yn dal trwydded gan Ofcom ac mae Ofcom o'r farn mai'r sancsiwn y dylid ei roi ydy dirymu'r drwydded, bydd yn dilyn y darpariaethau statudol sy'n llywodraethu dirymu'r drwydded honno[128]. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn mynnu bod Ofcom yn cyflwyno hysbysiad yn dynodi y bydd y drwydded yn cael ei dirymu os na chymerir y camau a nodir yn yr hysbysiad. Ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, os nad yw Ofcom yn fodlon bod y camau a nodwyd wedi cael eu cymryd a bod angen, er budd y cyhoedd, dirymu'r drwydded, bydd yn cyflwyno hysbysiad yn dirymu'r drwydded[129]. Daw'r hysbysiad yn dirymu'r drwydded i rym pan gaiff ei gyflwyno i ddeilydd y drwydded.

A4.30 Pan nad oes dim gweithdrefn statudol wedi'i rhagnodi ar gyfer dirymu trwydded, er enghraifft, pan na chredir bod unigolyn mwyach yn "addas ac yn briodol" i ddal trwydded, bydd Ofcom yn dilyn gweithdrefn debyg a fydd yn rhoi cyfle i'r sawl sy'n dal y drwydded gyflwyno sylwadau ar gynnig Ofcom i ddirymu'r drwydded. Yn amodol ar frys y sefyllfa, gall y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau fod yn fyr iawn, ychydig o oriau o bosibl.

### Cyhoeddi Penderfyniad Sancsiwn

A4.31 Bydd Penderfyniad Sancsiwn, gyda datganiad am y rhesymau, yn cael ei anfon i'r darlledwr, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi.

A4.32 Bydd Ofcom wedyn yn symud ymlaen i gyhoeddi ei benderfyniad ar ei wefan. Fel rheol bydd crynodeb o'r Penderfyniad ynghylch Sancsiwn yn cael ei gyhoeddi ym mwletin Broadcast and On Demand Ofcom yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/.

### Peidio â Datgelu

A4.33 Mae'n hanfodol i integriti prosesau Ofcom a'i allu i reoleiddio'n deg bod pob parti yn glynu wrth y rheolau a'r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pheidio â datgelu isod[130].

**Peidio â Datgelu**

Mae Ofcom yn disgwyl i ddarlledwyr gadw'r holl wybodaeth, gohebiaeth a dogfennau sy'n ymwneud ag achosion sancsiynau yn gwbl gyfrinachol, oni bai eu bod eisoes ar gael i'r cyhoedd. Yn benodol, mae Ofcom yn disgwyl i ddarlledwyr gadw'n gwbl

---

128 Gweler, er enghraifft, adrannau 42 ac 111 o Ddeddf 1990 ac adrannau 238 a 239 o Ddeddf 2003.

129 Bydd yr union weithdrefn byddwn yn ei dilyn yn dibynnu ar y darpariaethau statudol perthnasol. Er enghraifft, gall y darpariaethau olygu bod deilydd trwydded yn cael ail gyfle i gyflwyno sylwadau, cyn cyflwyno hysbysiad o ddirymu.

130 Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo er mwyn cyflawni dyletswyddau o'r fath.

gyfrinachol unrhyw wybodaeth a roddir iddynt gan Ofcom fel rhan o'r broses sancsiynau, gan gynnwys unrhyw arwydd/penderfyniad dros dro ynghylch lefel a math unrhyw sancsiwn y gellir ei roi[131].

Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad.

### Cyfyngiadau amser

A4.34 Dylai darlledwyr gofio’r cyfyngiadau amser a bennir yn y Gweithdrefnau hyn. Serch hynny, efallai fod Ofcom yn credu (er budd tegwch a/neu er mwyn gwneud penderfyniadau sy’n ymwneud â sancsiynau) ei bod yn briodol diwygio neu addasu’r cyfyngiadau amser mewn achos penodol. Dylai unrhyw ddarlledwr y mae eisiau rhagor o amser arno roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu y dylid ymestyn y terfyn amser perthnasol.

[131] Caiff Ofcom ddal deunyddiau yn ôl os yw’n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i’r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu eu bod dan unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill i’w diogelu rhag eu datgelu. Mewn achosion o’r fath, bydd y darlledwr yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

## Atodiad 5

# Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri'r rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad

## Cyflwyniad

A5.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Gweithdrefnau Ofcom er mwyn trin a datrys cwynion (neu gynnal ei ymchwiliadau ei hun) am achosion posibl o dorri rheolau sy'n berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alwad gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad[132]. Daw'r Gweithdrefnau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017.

A5.2 Nid yw'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU[133]. Mae gweithdrefnau eraill yn berthnasol i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU (sydd hefyd yn berthnasol i wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU): https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf. Mae'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alwad hysbysedig ac sy'n gweithredu o dan fraich fasnachol y BBC.

A5.3 Os bydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn mewn unrhyw ffordd o sylwedd mewn achos penodol am resymau sy'n ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i Ofcom ystyried cwyn(ion) yn briodol neu gynnal ymchwiliad, bydd yn egluro wrth y darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad dan sylw (ac unrhyw bartïon perthnasol eraill) natur/graddfa ei wyriad oddi wrthynt a'i resymau dros wneud hynny.

A5.4 Nodir bod natur gwasanaethau rhaglenni ar-alwad (wrth gymharu â darlledu llinol) yn golygu y bydd deunyddiau yn aml yn dal ar gael i'w gwylio ar-alwad, sy'n golygu y gallai risg o unrhyw niwed o dor-amod barhau. Un enghraifft o adeg pan allai fod yn briodol gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn (yn enwedig er mwyn cyflymu'r broses) yw pan fydd achos posibl o dorri'r safonau yn golygu anogaeth (*incitement*) neu ddiogelu pobl ifanc dan ddeunaw oed, a'r deunydd yn dal ar gael.

### Fframwaith statudol

A5.5 Mae Rhan 4A Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf") yn darparu ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Mae Adran 368C o'r Ddeddf yn rhoi amrywiol ddyletswyddau ar yr "awdurdod rheoleiddio priodol" sef Ofcom, yn niffyg corff arall a ddynodir o dan adran 368B mewn perthynas â chynnwys rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd i gymryd camau i sicrhau bod pawb sy'n darparu gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn cydymffurfio â'r gofynion yn adran 368D. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys:

[132] Mae cyfeiriadau at "ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad" yn y Gweithdrefnau hyn yn cyfeirio at ddarparwyr unrhyw wasanaeth rhaglenni ar-alwad sy'n diwallu'r meini prawf sydd yn adran 368A (1) o Ddeddf 2003.
[133] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).

(a) cydymffurfio â'r rheolau (yn adrannau 368E i 368H o'r Ddeddf) ar gyfer deunydd niweidiol, hysbysebion, nawdd a gosod cynnyrch;

(b) cyflenwi gwybodaeth benodol am ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad i ddefnyddwyr;

(c) cadw copïau o raglenni am o leiaf 42 diwrnod ar ôl iddynt beidio â bod ar gael i'w gwylio;

(d) cydymffurfio yn llawn â'r rheoleiddiwr, gan gynnwys drwy gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth a gyhoeddir o dan adran 368O; a

(e) talu unrhyw ffioedd rheoleiddio y gellir ei rhoi o dan adran 368NA.

A5.6 O dan adran 368BA o'r Ddeddf, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad hefyd hysbysu Ofcom cyn darparu gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, gwneud newidiadau sylweddol i wasanaeth rhaglenni ar-alwad, neu roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth rhaglenni ar-alwad. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr holl wybodaeth y gallai fod ar Ofcom ei hangen.

A5.7 Mae Ofcom wedi cyhoeddi Rheolau ac Arweiniad[134] sy'n nodi'r gofynion statudol sy'n berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alwad (ar wahân i'r rheini ar gyfer cynnwys hysbysebion) ac wedi darparu arweiniad nad yw'n rhwymo.

A5.8 Mae'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol i achosion posibl o dorri unrhyw reolau sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ac eithrio rheolau ar hysbysebu. Mae'r Awdurdod Safonau Hysbysebu[135] wedi cael ei ddynodi gan Ofcom o dan adran 368B yn "awdurdod rheoleiddio priodol" ar gyfer rheoleiddio cynnwys hysbysebu ar wasanaethau rhaglenni ar-alwad. Dylid anfon unrhyw gwynion am gynnwys hysbysebion ar wasanaeth rhaglenni ar-alwad at yr Awdurdod Safonau Hysbysebu[136].

A5.9 Caiff Ofcom lansio ymchwiliadau ei hun yn ogystal ag mewn ymateb i gwynion a ddaw i law. Mae'r Gweithdrefnau mewn ymchwiliad sy'n cael ei arwain gan gŵyn ac ymchwiliad sydd wedi'i gychwyn gan Ofcom yr un fath.

## Gweithdrefnau

### Gwneud cwyn

A5.10 Gall unrhyw berson neu gorff gyflwyno cwynion o dan y Gweithdrefnau hyn wrth Ofcom os ydynt yn ystyried nad yw darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad wedi cydymffurfio â'r gofynion perthnasol fel y'u nodir yn y Rheolau. Yn benodol, ac fel y nodir yn Rheolau ac Arweiniad Ofcom, mae'r rhain yn cynnwys:

A5.11 Rheolau Gweinyddol

- Hysbysiad o fwriad i ddarparu gwasanaeth rhaglenni ar-alwad (Rheol 1).

[134] Ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/broadcast/on-demand/rules-guidance/Rules_and_Guidance.pdf
[135] www.asa.org.uk
[136] https://www.asa.org.uk/Consumers/How-to-complain.aspx

- Hysbysiad o fwriad i wneud newidiadau sylweddol i wasanaeth hysbysedig (Rheol 2).
- Hysbysiad o fwriad i roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth hysbysedig (Rheol 3).
- Talu unrhyw ffi angenrheidiol (Rheol 4)
- Cadw rhaglenni am o leiaf 42 diwrnod (Rheol 5).
- Darparu gwybodaeth (Rheol 6).
- Cydweithredu (Rheol 7).
- Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodaeth (Rheol 8).
- Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth (Rheol 9).

A5.12 Rheolau Cynnwys Golygyddol

- Deunydd Niweidiol: Deunydd sy'n Debygol o Gymell Casineb (Rheol 10).
- Deunydd Niweidiol: Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc dan Ddeunaw Oed (Rheol 11).
- Nawdd (Rheol 12).
- Gosod Cynnyrch (Rheol 13).
- Deunydd Niweidiol: Deunydd wedi'i Wahardd (Rheol 14).

A5.13 Fel rheol ni fydd Ofcom yn ystyried cwyn oni bai fod y sawl sy'n cwyno wedi ceisio dilyn trefn gwyno'r darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn y lle cyntaf (gweler yr eithriad ynghylch niwed parhaus ym mharagraff 1.14).

A5.14 Mae manylion cyswllt pob darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad hysbysedig ar gael ar wefan Ofcom yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/broadcast/on-demand/List_of_Regulated_Video_On_Demand_Services.pdf. Os ydy'r sawl sy'n cwyno yn anfodlon ar ymateb darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad i'w cwyn, neu os nad yw darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ar y rhestr o ddarparwyr hysbysedig, mae modd wedyn cyflwyno'r gŵyn i Ofcom.

A5.15 Mewn achosion pan fydd cwyn yn cael ei gwneud dan weithdrefnau cwynion y darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ei hun, bydd Ofcom yn disgwyl i'r darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad gadw'r rhaglen berthnasol ac unrhyw ddeunydd cysylltiedig am y cyfnod o 42 diwrnod sy'n ofynnol dan statud (adran 368D (3) (ab) o'r Ddeddf), gan redeg o'r dyddiad y byddai'n rhesymol i'r darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ddisgwyl bod y sawl sy'n cwyno wedi cael ymateb terfynol y darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad.

A5.16 Oherwydd bod cynnwys gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ar gael yn gyson a gall fod risg o niwed parhaus o ganlyniad i rywfaint o gynnwys, gallai fod yn briodol i'r sawl sy'n cwyno gysylltu ag Ofcom ar unwaith os ydynt yn credu bod deunydd niweidiol dan sylw o dan Reolau 10, 11 neu 14. Mewn achosion sy'n peri risg o niwed parhaus, gall Ofcom agor ymchwiliad cyn i broses y darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ddod i'w chasgliad. Bydd Ofcom yn ystyried y niwed posibl a honnir ac unrhyw gamau brys a gymerwyd gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, fel gwahardd mynediad at ddeunydd penodol neu rwystro'r rheini sydd dan 18 oed rhag cael gafael arno, wrth i'r gŵyn gael ei hystyried. Efallai y bydd Ofcom hefyd yn gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn i'r graddau sy'n angenrheidiol

er mwyn cyflymu achosion (gan aros yn deg i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad) yn yr amgylchiadau hyn (gweler paragraff A3.3).

A5.17 Mae gweithdrefnau eraill, ond tebyg, yn berthnasol i ddeunyddiau darlledu. Os bydd y gŵyn yn ymwneud â gwasanaeth rhaglenni ar-alwad “dal i fyny” ac mae’r deunydd wedi cael ei ddangos yn ddiweddar ar wasanaeth teledu, efallai ei bod hi’n fwy priodol i Ofcom ystyried y gŵyn o dan weithdrefnau darlledu perthnasol oherwydd bod y rheolau sylweddol sy’n berthnasol i wasanaethau darlledu teledu yn fwy helaeth.

## Ffurf y gŵyn a’r wybodaeth i’w darparu

A5.18 Mae Ofcom yn gofyn i bob cwyn gael ei chyflwyno ar ei ffurflen cwynion. Mae’r ffurflen hon ar gael ar wefan Ofcom yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/on-demand/complain. Fel arall, ar gyfer unrhyw gŵyn, gallwch chi gysylltu â ni drwy ein ffonio ar: 0300 123 3333 neu 020 7981 3040. Os oes gennych chi ffôn testun gallwch chi ffonio 020 7981 3043 – fydd y rhif hwn ond yn gweithio gydag offer arbennig sy’n cael ei ddefnyddio gan bobl fyddar neu drwm eu clyw. I gysylltu ag Ofcom drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, mae Gwasanaeth Cyfnewid Fideo hefyd ar gael ar wefan Ofcom. Fel arall, gallwch chi gysylltu â ni drwy'r post yn y cyfeiriad canlynol:

Ofcom
ODPS Complaints
5th Floor
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London
SE1 9HA

A5.19 Dylai’r holl gwynion gynnwys digon o fanylion am fater y gŵyn. Yn benodol, dylai pob cwyn gynnwys:

- enw / teitl y cynnwys mae’r gŵyn yn berthnasol iddo;
- dyddiad cael gafael arno;
- y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yr oedd yn ymddangos arno;
- dolen i’r lleoliad ar y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad lle’r oedd wedi ymddangos;
- natur y gŵyn a (phan fo’n bosibl ac yn berthnasol) rhannau penodol unrhyw raglen mae cwyn amdani;
- manylion cyswllt llawn y sawl sy’n cwyno (gan gynnwys unrhyw gyfeiriad e-bost); ac
- a yw’r sawl sy’n cwyno (ac, os felly, pryd) wedi cyflwyno cwyn i’r darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad.

A5.20 Mae’n bwysig iawn darparu’r manylion hyn (neu gynifer ohonynt ag sy’n bosibl). Gall methu â’u darparu olygu na fydd Ofcom yn gallu ymchwilio i’r gŵyn.

A5.21 Oni bai fod y sawl sy’n cwyno’n gofyn i Ofcom beidio â gwneud hynny, caiff Ofcom ddatgelu pwy ydy'r sawl sy’n cwyno i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad sy’n destun i’r gŵyn yn ogystal â rhannu fersiwn nad yw’n gyfrinachol o’r gŵyn a gyflwynwyd er mwyn cael sylwadau. Bydd Ofcom yn ystyried ceisiadau gan bobl sy’n cwyno sy’n dymuno aros yn ddienw.

## Gwneud cwyn yn ddiymdroi

A5.22 Dan Reol 5 sy’n adlewyrchu adran 368D(3) (ab) o’r Ddeddf, mae’n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad gadw copïau o raglenni am 42 diwrnod ar ôl y dyddiad pan na fydd y rhaglen ar gael mwyach. Gan gofio hynny, dylai’r rheini sy’n cwyno gymryd camau’n ddiymdroi pan fyddant yn dod yn ymwybodol o ddeunydd sydd ar gael ar wasanaeth rhaglenni ar-alwad a’u bod yn credu y gallai dorri’r rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Yn gyffredinol, ac yn enwedig mewn amgylchiadau’r pan na fydd y deunydd perthnasol ar gael mwyach ar wasanaeth rhaglenni ar-alwad, ni fydd Ofcom yn derbyn cwyn oni bai yr aethpwyd ar ei thrywydd yn ddiymdroi.

A5.23 Pan fydd cwyn yn cael ei chyflwyno ynghylch deunydd nad yw ar gael mwyach ar y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, dylai’r rheini sy’n cwyno gadarnhau pryd oeddent wedi cael gwybod am y cynnwys ac egluro’r rhesymau dros unrhyw oedi cyn cyflwyno’r gŵyn. Bydd Ofcom wedyn yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol (gan gynnwys esboniad y sawl sy’n cwyno dros yr oedi a’r cyfnod cyfyngedig y mae’n rhaid i ddarparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad gadw recordiadau) wrth benderfynu a ddylai Ofcom ymchwilio i’r gŵyn ai peidio.

A5.24 Os ydy’r sawl sy’n cwyno wedi cwyno’n uniongyrchol wrth ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad o’r blaen, dylai’r sawl sy’n cwyno aros i weld a yw’n fodlon ar ymateb terfynol darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad cyn cyfeirio’r gŵyn at Ofcom. Os nad yw’r sawl sy’n cwyno yn fodlon, dylai’r sawl sy’n cwyno gyfeirio eu cwyn at Ofcom (gydag ymateb darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad) cyn gynted ag sy’n bosibl, ac yn sicr cyn pen 20 diwrnod gwaith o gael yr ymateb terfynol gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad perthnasol.

A5.25 Os nad yw’r sawl sy’n cwyno wedi cael cydnabyddiaeth o’i gŵyn gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad cyn pen 10 diwrnod o’i gyflwyno ac ymateb o sylwedd cyn pen 20 diwrnod gwaith, dylai’r sawl sy’n cwyno gyflwyno’r gŵyn i Ofcom yn ddiymdroi, gan ddarparu copïau o’r ohebiaeth gyda darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad.

A5.26 Pan fydd y sawl sy’n cwyno’n cwyno ar yr un pryd wrth ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ac wrth Ofcom, fel rheol, ni fydd Ofcom yn symud ymlaen i ystyried y gŵyn nes i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad gael cyfle yn gyntaf i ddatrys y gŵyn ei hun dan ei weithdrefnau ef. Serch hynny, caiff wneud hynny pan fydd o’r farn ei bod hi’n briodol gan ystyried a yw’r deunydd yn dal ar gael a risg a difrifoldeb unrhyw niwed parhaus posibl. Mewn achos o’r fath, dylai’r sawl sy’n cwyno roi gwybod i Ofcom pan fydd wedi cael ymateb terfynol darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, a chadarnhau a yw'n dymuno bwrw ymlaen â'r gŵyn ai peidio.

## Asesiad cychwynnol o gwynion

A5.27 Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ei helpu i ddeall a yw darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn methu â chydymffurfio â’r rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Bydd Ofcom yn cofnodi ac yn cydnabod pob

cwyn a gaiff. Fodd bynnag, fel rheol ni fydd yn gohebu ymhellach ag unrhyw rai sy'n cwyno. Bydd Ofcom yn cynnal asesiad cychwynnol a, phan fydd yn berthnasol ar ôl yr asesiad cychwynnol, bydd yn cynnal ymchwiliad pellach fel y nodir isod.

A5.28 Yn gyntaf, bydd Ofcom yn ystyried a yw cwyn, ar yr olwg gyntaf, yn codi materion a allai fod yn sylweddol o dan y rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad sy'n cyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom. Bydd yn ystyried difrifoldeb a/neu raddfa'r mater dan sylw, gan gynnwys, er enghraifft, a yw'n ymwneud â niwed parhaus a/neu niwed i bobl ifanc dan ddeunaw oed.

A5.29 Os yw Ofcom yn credu y dylai asesu'r mater ymhellach, caiff ofyn i'r darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad am gopi o'r rhaglen neu'r deunydd perthnasol ar y cam hwn, ac fel rheol byddai'n rhaid darparu'r copi hwnnw cyn pen pum niwrnod gwaith.[137] Caiff hefyd ofyn am unrhyw ddeunydd cefndir arall a allai, yn ein barn ni, fod yn berthnasol i asesiad cychwynnol Ofcom o'r gŵyn. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn gofyn am sylwadau ysgrifenedig gan y darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ar y cam hwn, fel arfer.

A5.30 Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac adolygiad o'r deunydd perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a gafodd y rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad eu torri a bod Ofcom yn credu bod hynny'n gofyn am ymateb gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad. Os nad, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach ac fel rheol bydd yn cyhoeddi ei benderfyniad mewn tabl yn ei Fwletinau Broadcast and On Demand[138] os yw'r mater yn ymwneud â rheol sydd "ar gyfer y cyhoedd". Mae rheolau "ar gyfer y cyhoedd" yn ymwneud â chynnwys golygyddol neu'r ffordd mae'r darparwr yn delio â'r cyhoedd. Fel rheol ni fyddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad os yw'r mater yn ymwneud â chydymffurfiad â rheol nad yw "ar gyfer y cyhoedd", ond efallai y bydd achosion eithriadol pan fyddwn yn cyhoeddi (er enghraifft os oes lefel uchel o ymwybyddiaeth a diddordeb ymysg y cyhoedd yn y mater dan sylw).

A5.31 Bydd Ofcom yn ceisio cwblhau asesiad cychwynnol cwynion cyn pen 15 diwrnod gwaith.

### Ymchwilio i achosion posibl o dorri'r Cod

A5.32 Ac eithrio mewn achosion a ddaw o dan baragraff A3.33 isod, pan fydd Ofcom yn credu bod darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad o bosibl wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, bydd Ofcom yn ysgrifennu at ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad. Bydd Ofcom yn crynhoi prif bwyntiau'r gŵyn/cwynion, yn nodi'r Rheolau penodol y mae'n credu sy'n berthnasol, ac yn gwahodd darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad i gyflwyno sylwadau i ymateb i hynny (a darparu unrhyw ddeunyddiau/dystiolaeth berthnasol sy'n cefnogi ei sylwadau) cyn pen 10 diwrnod gwaith. Fel rheol bydd Ofcom yn cyhoeddi manylion materion sy'n destun ymchwiliad mewn tabl yn ei Fwletinau Broadcast and On Demand os yw'r mater yn ymwneud â chydymffurfio â rheol "ar gyfer y cyhoedd" (i

[137] Byddai hyn yn unol â chais o dan adran 368O o'r Ddeddf, ac mae'r cyfnod a ganiateir yn unol â'r sefyllfa o dan Drwyddedau'r Ddeddf Darlledu.

[138] Mae'r Bwletinau Broadcast and On-demand yn cael eu cyhoeddi bob pythefnos ar wefan Ofcom: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

gael rhagor o wybodaeth am reolau “ar gyfer y cyhoedd” edrychwch ar baragraff A5.30 uchod).

A5.33 Efallai y bydd achosion pan na fydd Ofcom o’r farn bod angen gofyn am sylwadau gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ar y cam hwn. Bydd hyn yn digwydd fel rheol pan fydd cwestiwn ynghylch a yw torri rheol berthnasol yn fater o ffeithiau gwrthrychol (er enghraifft pan fydd R18 ar gael i’r rheini dan 18 heb gyfyngiad). Yn yr achosion hyn, fel rheol, ni fydd Ofcom yn gofyn am sylwadau darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ar y cam hwn (fel ym mharagraff A5.30 uchod). Yn lle hynny, bydd Ofcom yn ysgrifennu at ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad gyda’i Safbwynt Rhagarweiniol ar sylwedd y gŵyn/cwynion, fel y nodir ym mharagraff A5.36 isod. Efallai y bydd achosion eraill hefyd pan fydd ffeithiau’r mater(ion) dan sylw, yn golygu ei bod yn briodol dilyn y dull gweithredu hwn.

A5.34 Mae Ofcom yn ceisio cwblhau’r achosion hynny y bydd yn penderfynu ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith.

**Sylwadau gan drydydd partïon**

Mae Ofcom yn cydnabod efallai fod pobl/cyrff y gallai canlyniad ymchwiliad a phenderfyniad Ofcom ynghylch cwyn effeithio arnynt yn uniongyrchol gan fod ganddynt o bosibl fuddiannau sy’n annibynnol ar ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad perthnasol (ee cyflwynwyr, cynhyrchwyr a/neu wneuthurwyr rhaglenni annibynnol). Ble bynnag y bo modd, dylai darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad geisio ystyried a chynnwys sylwadau pobl/cyrff o’r fath yn eu cyflwyniadau er mwyn ymateb i gŵyn a chadarnhau eu bod wedi gwneud hynny wrth Ofcom.

Fodd bynnag, gall pobl/cyrff o’r fath gyflwyno sylwadau ar eu rhan eu hunain yn uniongyrchol i Ofcom mewn achosion bydd yn ymchwilio iddynt. Mewn achos o’r fath, dylai pobl/cyrff geisio cyflwyno sylwadau i Ofcom cyn gynted ag sy’n bosibl mewn ymchwiliad, gan nodi a yw/i ba raddau y mae eu sylwadau yn wahanol i sylwadau darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad. Bydd Ofcom yn ystyried y sylwadau hynny fel sy’n briodol ac yn cynnwys y bobl/cyrff hynny yn ei broses gwneud penderfyniadau dan y Gweithdrefnau hyn.

Paratoi Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom

A5.35 Bydd Ofcom yn paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol ar ôl ystyried sylwadau darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, pan fydd rhai wedi cael eu darparu. Dim ond dros dro yw’r safbwynt rhagarweiniol hwn a gallai newid yng ngoleuni sylwadau/deunyddiau dilynol a fydd yn cael eu darparu gan y darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad.

A5.36 Bydd yr holl Safbwyntiau Rhagarweiniol drafft yn cael eu rhoi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom[139] i gael eu barn gynghorol. Bydd y penderfyniad ynghylch Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom yn cael ei wneud gan uwch aelod o Fwrdd Gwaith Ofcom a fydd wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd. Fel rheol, dyma fyddai’r sawl sy’n gyfrifol am oruchwylio’r ymchwiliad. Bydd y Safbwynt Rhagarweiniol yn cynnwys:

[139] Mae’r Bwrdd Cynnwys yn bwyllgor o Brif Fwrdd Ofcom a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae’n cynnwys aelodau sydd â phrofiad helaeth o ddarlledu. Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/content-board

- crynodeb o’r gŵyn/cwynion;
- crynodeb o ddarnau perthnasol y rhaglen/gwasanaeth y mae’r gŵyn/cwynion yn berthnasol iddynt;
- y gofynion perthnasol fel y nodir yn y Rheolau; ac
- asesiad rhagarweiniol Ofcom ynghylch a gafodd unrhyw rai o’r gofynion hynny eu torri a’r rhesymau dros yr asesiad hwnnw.

A5.37 Os bydd Ofcom yn credu bod angen cael rhagor o wybodaeth i sicrhau ei fod yn gallu llunio ei Safbwynt Rhagarweiniol yn deg ac yn briodol, gall Ofcom ofyn am wybodaeth o’r fath cyn llunio’r safbwynt hwnnw.

A5.38 Pan fydd Ofcom wedi paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd Ofcom yn ei roi i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad (ac unrhyw drydydd parti perthnasol) ac yn gofyn am sylwadau cyn pen 10 diwrnod gwaith.

A5.39 Mae Ofcom o’r farn y bydd fel rheol yn gallu penderfynu’n deg ac yn briodol ar ôl cael sylwadau ysgrifenedig a heb gael sylwadau llafar gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad. Serch hynny caiff darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, mewn unrhyw achos penodol, wneud cais ysgrifenedig i gyflwyno ei sylwadau ar lafar i Ofcom yn ogystal â chyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig. Bydd Ofcom yn cytuno ar gais o’r fath os yw’n credu bod gwrandawiad llafar yn briodol wrth ystyried natur y tor-amod dan sylw a chymhlethdod y materion a godir.

## Y Penderfyniad terfynol

A5.40 Ar ôl i Ofcom gael ac ystyried sylwadau darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad (a/neu unrhyw sylwadau gan drydydd parti perthnasol) ar ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd yn dod i’w benderfyniad terfynol.

A5.41 Bydd pob penderfyniad drafft yn cael ei roi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom (nad ydynt wedi bod yn ymwneud â’r ymchwiliad) i gael eu barn gynghorol cyn gwneud penderfyniad terfynol. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan uwch aelod o bwyllgor gwaith Ofcom gydag awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd, na fydd wedi bod yn ymwneud â’r ymchwiliad a/neu’r gwaith o baratoi’r Safbwynt Rhagarweiniol.

## Cyhoeddi Penderfyniad

A5.42 Cyn i Ofcom gyhoeddi’r Penderfyniad, bydd yn rhoi copi o’r Penderfyniad dan embargo i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi.

A5.43 Bydd y Penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ym Mwletin Broadcast and On Demand Ofcom ar ei wefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

A5.44 Fel rheol bydd Ofcom yn cyhoeddi gwybodaeth yn ei Fwletinau Broadcast and On Demand ynghylch penderfyniadau pan fydd wedi dod i’r casgliad **nad** oedd darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedi torri rheol “ar gyfer y cyhoedd” (i gael rhagor o wybodaeth am reolau “ar gyfer y cyhoedd”, edrychwch ar baragraff A5.30 uchod).

## Peidio â Datgelu

A5.45 Mae'n rhan hanfodol o integriti prosesau Ofcom a'i allu i reoleiddio'n deg bod pob parti dan sylw yn glynu wrth y rheolau a'r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pheidio â datgelu isod.

> **Peidio â Datgelu**
>
> Oni nodir yn wahanol caiff partïon (y rheini sy'n cwyno, darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad, Ofcom ac unrhyw drydydd partïon y mae hyn yn effeithio arnyn nhw'n uniongyrchol) gyhoeddi'r ffaith bod cwyn wedi cael ei gwneud neu fod Ofcom wrthi'n ymchwilio i achos. Mae modd iddynt hefyd ddefnyddio unrhyw wybodaeth sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus.
>
> Serch hynny, ni ddylai'r partïon ddatgelu unrhyw ohebiaeth, dogfennau na deunyddiau eraill sy'n ymwneud â'r gŵyn yn ystod yr ymchwiliad.[140]
>
> Gall methu â dilyn y gofyniad hwn olygu bod Ofcom yn rhoi'r gorau i ystyried sylwadau'r parti.
>
> Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad.[141]

## Cyfyngiadau amser

A5.46 Dylai'r rheini sy'n cwyno a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad gofio'r cyfyngiadau amser a bennir yn y Gweithdrefnau hyn. Serch hynny, efallai fod Ofcom yn credu ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn cynnal ymchwiliad yn briodol) diwygio neu addasu'r cyfyngiadau amser a nodir yn y Gweithdrefnau mewn achos penodol. Dylai unrhyw un sy'n cwyno neu unrhyw ddarparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad y mae eisiau rhagor o amser arno roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu bod hynny'n briodol.

## Sancsiynau

A5.47 Pan fydd Ofcom yn cofnodi bod y Rheolau wedi cael eu torri, gall ystyried bod hynny'n cyfiawnhau ystyried rhoi sancsiwn statudol ar ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad. Os felly, bydd Ofcom yn egluro hynny yn ei Benderfyniad (dan baragraffau A5.40 a A5.41 uchod) a bydd y "Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol yng nghyd-destun Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad" yn berthnasol.[142] Mae'r rhain ar gael ar wefan Ofcom yn

---

[140] Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo fel rhan o gŵyn er mwyn cyflawni dyletswyddau o'r fath.

[141] Caiff Ofcom (wrth ymchwilio ac wrth gyhoeddi ei benderfyniad) ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu os yw'n rhwym wrth ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag cael eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

[142] Dan delerau ei Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom, caiff yr Awdurdod Safonau Hysbysebu wneud cais i Ofcom ystyried sancsiwn statudol mewn achos hysbyseb. Mewn achosion o'r fath, fel rheol, bydd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu wedi cyhoeddi bod y rheolau hysbysebu wedi cael eu torri.

http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/broadcast/on-demand/rules-guidance/Revised_sanctions_procedures.pdf

## Cwynion sy'n codi cwestiynau ynghylch cwmpas

A5.48 Mewn achosion sy'n ymwneud â gwasanaethau nad ydynt wedi cael eu hysbysu wrth Ofcom fel gwasanaethau rhaglenni ar-alwad, bydd mater rhagarweiniol cyn ystyried sylwedd y gŵyn sef a ydy'r gwasanaeth mewn gwirionedd yn wasanaeth rhaglenni ar-alwad fel sy'n cael ei ddiffinio yn adran 368A (1) o'r Ddeddf (hy cwestiwn ynghylch a ydy'r gwasanaeth yn perthyn i "gwmpas" rheoleiddio). Os nad yw, ni fydd y rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn berthnasol ac felly ni fydd wedi gallu eu torri.

A5.49 Pan fydd hi'n ymddangos bod cwmpas yn fater, bydd Ofcom, ar y cam asesiad cychwynnol, yn ystyried a yw'r gwasanaeth yn ymddangos ar yr wyneb ei fod yn diwallu'r prawf yn adran 368A (1) ac yn benodol a yw'n ymddangos yn debygol mai'r prif ddiben ydy darparu rhaglenni mae modd eu cymharu o ran ffurf a chynnwys â rhaglenni sydd fel rheol yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau rhaglenni teledu[143]. Os nad yw, fel rheol ni fyddai Ofcom yn asesu'r mater ymhellach.

A5.50 Os yw'n ymddangos ei fod yn debyg o ddiwallu'r prawf, ac mae'n ymddangos hefyd bod mater o sylwedd os penderfynir bod y gwasanaeth o fewn y cwmpas, fel rheol byddai Ofcom yn ystyried y cwmpas a'r materion o sylwedd ochr yn ochr, gan ddilyn y broses a nodir uchod. Diben gwneud hyn ydy helpu i ddatrys materion yn ddiymdroi, yn enwedig pan fydd risg o niwed parhaus oherwydd y cynnwys dan sylw. Ac ystyried bod ymchwiliadau o'r fath yn debyg o fod yn fwy cymhleth, efallai y bydd yr amseroedd ymchwilio dangosol a nodir uchod yn hirach mewn achosion o'r fath. Os yw'n ymddangos nad oes dim materion yn codi o'r cynnwys ond bod mater o ran cwmpas, byddai Ofcom yn ystyried y cwestiwn ynghylch cwmpas, ac a dorrwyd y gofyniad i gyflwyno hysbysiad ynghylch gwasanaeth rhaglenni ar-alwad.

A5.51 Efallai fod amgylchiadau pan fyddai'n briodol i wahanu'r mater ynghylch cwmpas oddi wrth y materion o sylwedd, a'u hystyried yn eu trefn. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd Ofcom yn rhoi gwybod i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ynghylch ei fwriad i wneud hynny.

A5.52 Mewn achosion sy'n codi materion sy'n ymwneud â chwmpas, efallai bydd darparwr y gwasanaeth yn credu nad yw'n ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad. Nodir bod y pŵer i fynnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu o dan adran 368O o'r Ddeddf yn berthnasol i bawb sy'n ymddangos i Ofcom i fod yn ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad (a fydd asesiad manwl yn dod i'r casgliad hwnnw ai peidio). Dylai darparwyr gwasanaethau o'r fath hefyd ddilyn y rheolau sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad (gan gynnwys cadw recordiadau a chydweithredu) fel petaent yn ddarparwyr o'r fath wrth ddisgyn am benderfyniad ynghylch cwmpas.

A5.53 Os ac i'r graddau mae achosion yn codi materion sy'n ymwneud â chwmpas, bydd penderfyniadau a wneir o dan y gweithdrefnau hyn yn cael eu gwneud gan ddau

[143] Dyma'r prawf dan adran 368A(1)(a) o'r Ddeddf. Byddai angen i wasanaeth ddiwallu meini prawf eraill yn adran 368A (1), ond mae'r rheini debygol o alw am ragor o wybodaeth gan ddarparwr y gwasanaeth er mwyn gallu asesu.

(neu ragor) aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom sydd wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol gan Fwrdd Ofcom.

### Cyfarwyddiadau

A5.54 Dan y Ddeddf[144] mae gan Ofcom y pŵer i gyhoeddi cyfarwyddyd i wahardd neu gyfyngu ar wasanaeth rhaglenni ar-alwad. Caiff Ofcom gyhoeddi cyfarwyddyd mewn unrhyw achos mae'n credu sy'n briodol, gan nodi bod y statud yn nodi'r profion a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol. Yn benodol, byddai Ofcom ond yn cyhoeddi cyfarwyddyd pan fydd yn fodlon bod darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedi mynd yn groes i rwymedigaeth berthnasol a naill ai yn:

- mae ymdrechion i geisio sicrhau cydymffurfiad drwy roi cosb ariannol a/neu hysbysiad gorfodaeth wedi methu, a byddai cyfarwyddyd yn briodol ac yn gymesur yng ngoleuni difrifoldeb yr achos (adran 368L); neu

- mae'r achos o fynd yn groes yn ymwneud â chynnwys deunydd sy'n debyg o annog neu gymell trosedd, neu arwain at anhrefn (a fu cosb ariannol neu hysbysiad gorfodaeth blaenorol ai peidio) ac mae'r achos o fynd yn groes yn ddigon i gyfiawnhau cyfarwyddyd.

A5.55 Bydd Hysbysiad Cyfarwyddyd fel rheol yn cael ei gyhoeddi ar Fwletin Broadcast and On Demand Ofcom.

A5.56 Mae methiant gan ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad i gydymffurfio â chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Ofcom yn gallu arwain at ystyried rhoi sancsiwn statudol ar ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad (er enghraifft, rhoi cosb ariannol). Mewn achosion o'r fath, byddai'r Gweithdrefnau Sancsiynau y cyfeirir atynt ym mharagraff A5.47 yn berthnasol.

### Cyflymu prosesau

A5.57 Fel y nodwyd ym mharagraff A5.4 uchod, bydd deunydd ar wasanaeth rhaglenni ar-alwad yn aml yn dal ar gael i'w gwylio ar-alwad am gyfnod hir, sy'n golygu bod risg barhaus o niwed. Mae enghreifftiau'n cynnwys achosion lle gallai deunydd fod dal ar gael a'i fod o bosibl yn cynnwys cymhelliant i gasáu ar sail rhyw, crefydd neu genedligrwydd, neu amddiffyn pobl ifanc dan 18 oed.

A5.58 Mewn amgylchiadau o'r fath bydd Ofcom yn egluro i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ei fod yn cyflymu'r broses a ddisgrifir uchod. Gallai hyn gynnwys neidio dros broses gwyno darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ei hun, caniatáu llai o lawer o amser i ddarparu deunyddiau a gwybodaeth arall, a chaniatáu llai o amser o lawer i ddarparu unrhyw sylwadau. Bydd Ofcom yn egluro i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad y cyfnodau ar gyfer cyflwyno ymatebion mewn achosion o'r fath, a fydd yn deg yn amgylchiadau'r achos.

[144] Gweler adrannau 368K a 368L o'r Ddeddf, sy'n ymwneud â mynd yn groes a chymell trosedd neu anhrefn y naill a'r llall.

## Atodiad 6

# Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol sy'n codi yng nghyd-destun gwasanaethau rhaglenni ar-alwad

## Trosolwg a gwybodaeth gyffredinol

A6.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gweithdrefnau bydd Ofcom fel rheol yn eu dilyn wrth ystyried penderfynu ar sancsiwn yn erbyn darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad[145] am fynd yn groes i un (neu ragor) o'r gofynion a roddwyd arnynt o dan Ran 4A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003[146] (y "Ddeddf"). Yn y ddogfen hon, cyfeirir at y gofynion hyn fel "gofyniad perthnasol".

A6.2 Cafodd y gweithdrefnau hyn eu cyflwyno am y tro cyntaf ar 18 Chwefror 2015.[147] Cafodd mân ddiwygiadau eu cyflwyno a daethant i rym ar 1 Ionawr 2016 er mwyn adlewyrchu diwedd y drefn cyd-reoleiddio pan ddynodwyd yr Awdurdod Teledu Ar-alwad ("ATVOD") i gyflawni rhai swyddogaethau a oedd yn ymwneud â rheoleiddio cynnwys gwasanaethau rhaglenni ar-alwad (ac eithrio hysbysebion sy'n gyfrifoldeb cyd-reoleiddio i'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ("ASA")). Nid oedd y dynodiad yn cynnwys swyddogaeth ystyried sancsiynau statudol, yn amlwg mae ei ddiwedd yn effeithio ar sut daw achosion sancsiynau gerbron Ofcom i'w hystyried. Daw'r Gweithdrefnau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017

A6.3 Os yw Ofcom o'r farn y byddai'n decach ac yn fwy priodol dilyn gweithdrefn wahanol mewn unrhyw achos penodol, byddwn yn egluro ein rhesymau dros wneud hynny. Nodir bod y rheolau statudol sy'n berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alwad yn cynnwys, er enghraifft, rheolau sy'n gwahardd deunyddiau sy'n debyg o gymell casineb, a deunydd a allai o ddifri amharu ar ddatblygiad corfforol neu foesol pobl ifanc o dan 18 oed. Mae'r brys i fynd i'r afael â niwed parhaus posibl pan fydd deunydd yn dal ar gael ar-alwad ar wasanaeth rhaglenni ar-alwad yn un enghraifft o reswm pam y gallai fod yn briodol iddo beidio â dilyn y gweithdrefnau hyn.

A6.4 Mae pwerau Ofcom yn cynnwys y pŵer i benderfynu a ydy darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn mynd yn groes, neu wedi mynd yn groes, i unrhyw rai o ofynion perthnasol y Ddeddf a chyhoeddi hysbysiadau gorfodaeth[148] pan fydd ganddo sail resymol dros gredu bod darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad

---

[145] Mae "gwasanaeth rhaglenni ar-alwad" yn cael ei ddiffinio yn adran 368A o'r Ddeddf ac mae ystyr cysylltiedig i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad. Mae gweithdrefnau sancsiynau eraill yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/99417/procedures-bbc.pdf.

[146] Fel y diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2009 (SI 2009/2979) a Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2010 (SI 2010/ 419).

[147] Gellir adolygu a diwygio'r gweithdrefnau sydd yn y ddogfen hon, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig, unrhyw bryd. Bydd unrhyw ddiwygiad mawr yn destun ymgynghoriad ymlaen llaw.

[148] Dan adrannau 368BB(1)(a) a 368I(1)(a).

wedi mynd yn groes i rai o'i rwymedigaethau statudol.[149] Caiff Ofcom orfodi cydymffurfio â hysbysiad gorfodi drwy gychwyn achos sifil.[150]

A6.5 Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd statudol ar ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad i gydymffurfio â'r gofynion perthnasol. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys ei bod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad:

- rhoi hysbysiad ymlaen llaw (i Ofcom) ynghylch darparu eu gwasanaeth neu eu bwriad i ddarparu'r gwasanaeth;[151]
- cyflenwi gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr y gwasanaeth;[152]
- talu unrhyw ffioedd gofynnol (i Ofcom);[153]
- cadw copi o bob rhaglen sydd yn y gwasanaeth;[154]
- sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn cynnwys deunydd sy'n debyg o gymell casineb ar sail hil, rhyw, crefydd neu genedligrwydd;[155]
- sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn cynnwys unrhyw "ddeunydd sydd wedi'i wahardd";[156]
- amddiffyn y rheini sydd dan 18 oed rhag dod i gyswllt â "deunydd sydd wedi'i wahardd yn arbennig";[157]
- sicrhau y glynir wrth gyfyngiadau ar hysbysebu, nawdd a gosod cynnyrch;[158] a
- rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arno i Ofcom (neu'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ar gyfer cynnwys hysbysebion) er mwyn iddo allu cynnal ymchwiliadau.[159]

A6.6 Os bydd darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn mynd yn groes i'r Ddeddf (gan gynnwys peidio â chydymffurfio ag unrhyw hysbysiad gorfodaeth a gyhoeddir gan Ofcom), mae gan Ofcom y pŵer i roi sancsiynau statudol i'r darparwr hwnnw fel sydd wedi'i gynnwys yn adrannau 368I – 368L Rhan 4A o'r Ddeddf. Mae rhoi sancsiwn i ddarparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn fater difrifol. Ar ôl dilyn y broses briodol, caiff Ofcom roi sancsiwn os yw'n ystyried bod darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedi torri gofyniad perthnasol yn ddifrifol, yn fwriadol, yn rheolaidd[160] neu'n fyrbwyll.

A6.7 Mae'r sancsiynau statudol sydd ar gael i Ofcom yn cynnwys:

- rhoi cosb ariannol: a
- cyhoeddi cyfarwyddyd i atal neu gyfyngu ar yr hawl i ddarparu'r gwasanaeth rhaglenni ar-alwad.

---

[149] Mae hyn yn cynnwys y rhwymedigaethau o dan adran 368BA, 368D, 368G, 368H a 368O o'r Ddeddf.
[150] Dan adrannau 368BB(6) a 368I(8) o'r Ddeddf.
[151] Adran 368BA (ds nid oes angen ail hysbysu ar gyfer gwasanaethau hysbysedig gyda'r Awdurdod Teledu Ar-alwad ar 31 Rhagfyr 2015).
[152] Adran 368D.
[153] Adran 368NA.
[154] Adran 368D(3)(zb).
[155] Adran 368E(1).
[156] Adran 368E(2) ac Adran 368E(3).
[157] Adran 368E(4) ac Adran 368(5).
[158] Adrannau 368F – 368H.
[159] Adrannau 368O.
[160] Byddai mynd yn groes i ofyniad perthnasol droeon yn cynnwys, er enghraifft; ailadrodd mynd yn groes i'r un gofyniad ag sydd eisoes wedi'i gofnodi; ailadrodd yr un ymddygiad neu ymddygiad tebyg a oedd wedi mynd yn groes i ofyniad yn gynharach; neu fynd yn groes i ofynion eraill droeon.

**Cosb ariannol**

Y ddirwy uchaf mae modd ei rhoi am fynd yn groes i'r Ddeddf ydy £250,000 neu swm sydd hyd at 5% o "refeniw cymwys perthnasol" darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad,[161] pa un bynnag sydd fwyaf.

### Penderfyniadau o dan y Gweithdrefnau hyn

A6.8 Wrth ystyried achosion o sancsiynau o dan y Gweithdrefnau hyn, bydd penderfyniadau am sancsiynau yn cael eu gwneud gan ddau uwch aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom y mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo awdurdod priodol iddynt (gydag un ohonynt yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y tor-amod), ynghyd ag Aelod Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom.

A6.9 Mewn achos sy'n ymwneud â sancsiwn, ni fydd y rheini sy'n penderfynu wedi bod yn rhan o'r ymchwiliad i dorri'r gofyniad perthnasol, hyd at a gan gynnwys y cyfnod o baratoi'r Safbwynt Rhagarweiniol ynghylch yr achos.

A6.10 Ym mhob achos, pan fydd Ofcom yn ysgrifennu at ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn unol â pharagraff A3.12 isod, bydd yn nodi'r rheini a fydd yn gwneud y penderfyniadau.

## Gweithdrefnau

### Ystyried sancsiynau

A6.11 Mae ystyried sancsiwn yn dilyn penderfyniad gan Ofcom bod darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedi mynd yn groes i ofyniad perthnasol. Fel y nodwyd uchod, fel rheol bydd achos yn cael ei ystyried ar gyfer rhoi sancsiwn statudol pan fydd Ofcom yn credu bod darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedi mynd yn groes i ofyniad perthnasol yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n ddi-hid.

A6.12 Os bydd Ofcom yn credu bod sancsiwn yn briodol, bydd yn ysgrifennu at ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad gyda'r wybodaeth ganlynol fel sy'n briodol:

- manylion ynghylch yr achos(ion) o fynd yn groes;
- sylwadau ar unrhyw fater a godwyd gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad sy'n bwysig i'r achos;
- manylion unrhyw achosion perthnasol y mae Ofcom eisoes wedi dyfarnu yn eu cylch;

---

[161] Er mwyn rhoi sancsiwn, mae "refeniw cymwys" ar gyfer cyfnod cyfrifyddu yn cynnwys cyfanswm yr holl symiau a ddaeth i law, neu sydd i ddod i law, darparwr (neu unrhyw "unigolyn cysylltiedig" fel sy'n cael ei ddiffinio gan Ddeddf Darlledu 1990) y gwasanaeth y mae'r achos yn berthnasol iddo am gynnwys yn y gwasanaeth hwnnw hysbysebion, gosod cynnyrch a nawdd ac mewn perthynas â ffioedd a wnaed yn y cyfnod hwnnw am ddarparu'r gwasanaeth hwnnw (adran 368J(4)). Mae'r "refeniw cymwys perthnasol" mewn perthynas â darparwr yn golygu naill ai'r refeniw cymwys ar gyfer cyfnod cyfrifyddu llawn diwethaf y darparwr sy'n disgyn yn y cyfnod pan fu'r darparwr yn darparu'r gwasanaeth y mae'r achos yn berthnasol iddo **NEU** mewn perthynas ag unigolyn nad yw ei gyfnod cyfrifyddu cyflawn wedi dod i ben pan roddir y gosb, y swm y mae'r awdurdod rheoleiddio priodol yn amcangyfrif fydd yn refeniw cymwys ar gyfer y cyfnod hwnnw (adran 368J(3)).

- manylion hanes cydymffurfio diweddar darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad;
- manylion Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom ynghylch y math o sancsiwn a lefel unrhyw sancsiwn yr ystyrir ei fod yn briodol ac yn gymesur; a
- crynodeb o'r deunyddiau y mae Ofcom wedi dibynnu arnynt i gyrraedd ei Safbwynt Rhagarweiniol.

Bydd y dogfennau perthnasol mae Ofcom wedi'u hystyried hefyd yn cael eu darparu.

A6.13 Ar y cam hwn, os bydd Ofcom yn credu y dylai'r sancsiwn priodol gynnwys cosb ariannol bydd, fel sy'n briodol, yn ystyried y gosb yn unol â'r Canllawiau Cosbau a gyhoeddwyd gan Ofcom yn http://www.ofcom.org.uk/about/policies-and-guidelines/penalty-guidelines/.

A6.14 Pan fydd y sancsiwn sy'n cael ei ystyried yn cynnwys atal neu gyfyngu ar y gwasanaeth, bydd Ofcom yn nodi:

- ei resymau dros lunio'r farn hon;
- (mewn achosion priodol) ei resymau dros fod yn fodlon bod ymdrech i sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion perthnasol drwy gyhoeddi
- hysbysiad gorfodaeth neu roi cosb ariannol wedi methu;
- (mewn achosion priodol) manylion ynghylch y camau y mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad eu cymryd i wneud iawn am yr achos perthnasol o fynd yn groes ac unrhyw amodau y gallai Ofcom
- eu cynnwys mewn unrhyw gyfarwyddyd posibl i atal neu gyfyngu ar y gwasanaeth;
- y cyfnod a roddir i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ar gyfer cymryd unrhyw gamau a nodir a chyflwyno sylwadau; ac
- effeithiau'r sancsiwn/sancsiynau perthnasol.

A6.15 Bydd Ofcom wedyn yn gofyn i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad gyflwyno sylwadau ar ei Safbwynt Rhagarweiniol ac ar lefel a math unrhyw sancsiwn sy'n cael ei gynnig. Gan ddibynnu ar y math o sancsiwn a'i lefel, gall hyn fod drwy sylwadau ysgrifenedig a/neu lafar, fel y cred Ofcom sy'n briodol.

## Sylwadau ysgrifenedig

A6.16 Bydd darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom y gallai sancsiwn fod yn briodol ac ar lefel a math unrhyw sancsiwn sy'n cael ei ystyried. Fel rheol 15 diwrnod fydd y cyfnod ar gyfer sylwadau ysgrifenedig, oni nodir fel arall. Mewn rhai amgylchiadau, gall Ofcom, os yw'n credu ei fod yn briodol, ofyn am ragor o wybodaeth neu sylwadau gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad.

### Sylwadau llafar

A6.17 Ar ben hynny, bydd Ofcom yn rhoi'r cyfle i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ddod i wrandawiad llafar i gyflwyno sylwadau llafar ar y materion y cyfeirir atynt yn Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom. Fel rheol, bydd Ofcom yn rhoi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad o'r dyddiad ar gyfer gwneud y sylwadau hynny. Cynhelir y gwrandawiad yn breifat a gellir ei gynnal yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban fel sy'n briodol. Bydd y gwrandawiad yn cael ei drawsgrifio a bydd y trawsgrifiad yn cael ei roi i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad. Caiff darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ddod â chynghorwyr cyfreithiol i'r gwrandawiad llafar er mwyn ei helpu i gyflwyno ei sylwadau llafar, er mae Ofcom yn cael gofyn i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad gyfyngu ar nifer y bobl a ddaw i'r gwrandawiad llafar ar ei ran i nifer rhesymol.

A6.18 Bydd y weithdrefn ar gyfer cyflwyno sylwadau llafar yn ôl disgresiwn Ofcom. Bydd Ofcom yn ysgrifennu at ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad cyn y dyddiad ar gyfer gwrnado'r sylwadau, i nodi beth fydd y weithdrefn.

### Penderfynu

A6.19 Ar ôl ystyried sylwadau ysgrifenedig a/neu lafar gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, gall Ofcom benderfynu nad yw sancsiwn yn briodol mewn achos penodol. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn cael hysbysiad i'r perwyl hwn.

### Penderfyniad ynghylch Sancsiynau

A6.20 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a sylwadau gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, os bydd Ofcom yn credu bod sancsiwn yn briodol, bydd yn ystyried pa un o'r sancsiynau sydd ar gael sy'n briodol a bydd yn dod i benderfyniad i'r perwyl hwn.

### Atal neu gyfyngu ar hawl i ddarparu gwasanaeth rhaglenni ar-alwad

A6.21 Ar ôl ystyried sylwadau darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad ynghylch Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom, os bydd Ofcom yn penderfynu cyflwyno hysbysiad i'r darparwr o dan adran 368L o'r Ddeddf,[162] bydd atal neu gyfyngu'r gwasanaeth o dan yr hysbysiad hwnnw'n dod i rym ar unwaith ar ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad.[163] Bydd gan y darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad wedyn 21 diwrnod i gyflwyno (rhagor o) sylwadau i Ofcom ynghylch a ddylai Ofcom gyhoeddi cyfarwyddyd yn cadarnhau atal neu gyfyngu ar y gwasanaeth.[164]

[162] Mewn perthynas â methu cydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn adrannau 368E – 368H oherwydd bod y gwasanaeth wedi cynnwys deunydd sy'n debyg o gymell comisiynu troseddu neu arwain at anhrefn.
[163] Adran 368L(4)
[164] Yn unol ag adrannau 368L(2)(e) a (5) o'r Ddeddf.

A6.22 Ar ddiwedd y cyfnod a bennir gan Ofcom ar gyfer cyflwyno sylwadau,[165] ac ar ôl ystyried sylwadau o'r fath a wneir gan ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, os ydy Ofcom yn fodlon:

- (mewn achosion priodol) nad yw’r camau penodol a nodir mewn unrhyw hysbysiad o dan adran 368K wedi cael eu cymryd; ac
- (ym mhob achos) ei bod yn angenrheidiol er budd y cyhoedd rhoi cyfarwyddyd, bydd Ofcom yn cyhoeddi cyfarwyddyd naill ai’n atal neu gyfyngu ar hawl darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad i ddarparu gwasanaeth rhaglenni ar-alwad.

A6.23 Dylai darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad nodi y bydd Ofcom yn ystyried unrhyw fethiant gan ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad i gydymffurfio â hysbysiad gorfodaeth sy’n mynnu bod unrhyw ffi a roddir dan adran 368NA o’r Ddeddf yn cael ei thalu fel torri gofyniad perthnasol yn ddifrifol[166]. Mae Ofcom yn debygol, yn amodol ar sylwadau darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad, o ystyried mai’r sancsiwn priodol fyddai cyhoeddi cyfarwyddyd yn atal neu gyfyngu ar hawl darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad i ddarparu gwasanaeth.

## Cyhoeddi Penderfyniad Sancsiwn

A6.24 Bydd Penderfyniad Sancsiwn fel rheol yn cael ei anfon at ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn cyhoeddi.

A6.25 Bydd Ofcom wedyn yn symud ymlaen i gyhoeddi ei benderfyniad ar ei wefan. Fel rheol bydd crynodeb o’r Penderfyniad ynghylch Sancsiwn yn cael ei gyhoeddi ym mwletin Broadcast and On Demand Ofcom yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/.

## Peidio â Datgelu

A6.26 Mae’n hanfodol i integriti prosesau Ofcom a’i allu i reoleiddio’n deg bod pob parti yn glynu wrth y rheolau a’r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom, gan gynnwys y rheini sy’n ymwneud â pheidio â datgelu isod[167]

**Peidio â Datgelu**

Mae Ofcom yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad gadw’r holl wybodaeth, gohebiaeth a dogfennau sy’n ymwneud ag achosion sancsiynau yn gwbl gyfrinachol, oni bai eu bod eisoes ar gael i’r cyhoedd. Yn benodol, mae Ofcom yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad gadw’n gwbl gyfrinachol unrhyw wybodaeth a

---

165 Naill ai dan baragraffau 1.13 – 1.15 uchod, mewn achosion lle mae Ofcom yn ystyried atal neu gyfyngu ar wasanaeth o dan adran 368K o’r Ddeddf, neu dan baragraff 1.18 lle mae Ofcom wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 368L.

166 Noder bod adran 368NA yn caniatáu ond ddim yn mynnu gosod ffioedd.

167 Mae’n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy’n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo er mwyn cyflawni dyletswyddau o’r fath.

roddir iddo gan Ofcom fel rhan o'r broses sancsiynau, gan gynnwys unrhyw arwydd/penderfyniad dros dro ynghylch lefel a math unrhyw sancsiwn y gellir ei roi.[168]

Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad.

### Cyfyngiadau amser

A6.27 Dylai darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad gofio'r cyfyngiadau amser a bennir yn y gweithdrefnau hyn. Mae modd cwtogi neu ymestyn y cyfyngiadau amser, mewn amgylchiadau priodol, yn ôl disgresiwn Ofcom. Dylai unrhyw ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad y mae eisiau rhagor o amser arno roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu y dylid ymestyn y terfyn amser perthnasol.

### Methu â dilyn gweithdrefnau

A6.28 Bydd unrhyw fethiant gan ddarparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad i ddilyn y gweithdrefnau hyn yn gallu arwain at Ofcom yn cymryd camau rheoleiddiol ychwanegol.

### Methu â chydymffurfio ag ataliad neu gyfyngiad

A6.29 Dylai darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad gofio am bwysigrwydd cydymffurfio â sancsiwn a roddir yn unol â'r gweithdrefnau hyn. Er enghraifft, efallai fod rhywun yn euog o drosedd ac yn atebol i dalu dirwy os bydd darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn dal i weithredu gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn groes i ataliad neu gyfyngiad a fydd wedi cael ei roi o dan adrannau 368K neu 368L.[169]

[168] Caiff Ofcom ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu eu bod dan unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alwad yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.
[169] Gweler adran 368N o'r Ddeddf.